



Cyfarfod

PWYLLGOR CRAFFU ADDYSG AC ECONOMI

Dyddiad ac Amser

10.00 y.b., DYDD MAWRTH, 23AIN IONAWR, 2018

***NODER: CYNHELIR SESIWN BRIFFIO I'R AELODAU YN UNIG AM 9.30Y.B. YN YSTAFELL GWYRFAI**

Lleoliad

Siambr Hywel Dda, Swyddfa'r Cyngor, Caernarfon LL55 1SH

*** NODER ***

Bydd y cyfarfod yn cael ei we-ddarlledu

<http://www.gwynedd.public-i.tv/core/portal/home>

Pwynt Cyswllt

Eirian Roberts

01286 679018

eirianroberts3@gwynedd.llyw.cymru

(Dosbarthwyd 15/01/18)

PWYLLGOR CRAFFU ADDYSG AC ECONOMI

AELODAETH (18)

Plaid Cymru (10)

Y Cynghorwyr

Menna Baines
Aled Ll. Evans
Judith Mary Humphreys
Huw Gruffydd Wyn Jones
Paul John Rowlinson

Steve Collings
E. Selwyn Griffiths
Nia Wyn Jeffreys
Olaf Cai Larsen
Cemlyn Rees Williams

Annibynnol (5)

Y Cynghorwyr

Freya Hannah Bentham
Keith Jones
Jason Wayne Parry

Elwyn Jones
Beth Lawton

Llais Gwynedd (2)

Y Cynghorwyr

Alwyn Gruffydd

Gareth Williams

Annibynnol Unedig Gwynedd (1)

Y Cynghorydd
Dewi Owen

Aelodau Ex-officio

Cadeirydd ac Is-Gadeirydd y Cyngor

Aelodau Eraill a Wahoddwyd

Y Cynghorydd Dyfrig Siencyn (eitem 5)

Y Cynghorydd Craig ab Iago (eitem 6)

Y Cynghorydd Gareth Thomas (eitem 7)

AELODAU CYFETHOLEDIG:

Hefo pleidlais ar faterion addysg yn unig

Anest Gray Frazer

Yr Eglwys yng Nghymru

Rita Price

Yr Eglwys Gatholig

Dylan Davies

*Cynrychiolydd Rhieni/Llywodraethwyr
Meirionnydd*

Karen Vaughan Jones

Cynrychiolydd Rhieni/Athrawon Dwyfor

[sedd wag]

Cynrychiolydd Rhieni/Athrawon Arfon

Heb Bleidlais

Dilwyn Elis Hughes

UCAC

David Healey

Undebau Athrawon (ATL)

R H A G L E N

1. YMDDIHEURIADAU

Derbyn unrhyw ymddiheuriadau am absenoldeb.

2. DATGAN BUDDIANT PERSONOL

Derbyn unrhyw ddatganiad o fuddiant personol.

3. MATERION BRYS

Nodi unrhyw eitemau sy'n fater brys ym marn y Cadeirydd fel y gellir eu hystyried.

4. COFNODION

6 - 8

Bydd y Cadeirydd yn cynnig y dylid llofnodi cofnodion y cyfarfod blaenorol o'r pwyllgor hwn a gynhaliwyd ar 13 Rhagfyr, 2017 fel rhai cywir (ynghlwm).

5. CAIS CYNLLUN TWF AR GYFER GOGLEDD CYMRU - 9 - 16 ADRODDIAD CYNNYDD

Ystyried adroddiad Arweinydd y Cyngor (ynghlwm).

*10.10yb– 10.50yb

6. AIL-FODELU'R GWASANAETH IEUENCTID

17 - 95

Ystyried adroddiad yr Aelod Cabinet Tai, Hamdden a Diwylliant (ynghlwm).

*10.50yb – 11.40yb

7. DARPARIAETH ADDYSG OL-16

96 - 104

Ystyried adroddiad yr Aelod Cabinet Addysg (ynghlwm).

*11.40yb– 12.25yp

8. YMCHWILIAD CRAFFU POSIB' I'R MAES EFFAITH 105 - 108 DATBLYGIADAU ADEILADAU NEWYDD AR GYFER YSGOLION AR ANSAWDD ADDYSG

Ystyried adroddiad y Rheolwr Gwasanaethau Democrataidd (ynghlwm).

*12.25yp – 12.40yp

9. BLAENRAGLEN CRAFFU 2017/18

109

Cyflwyno, er gwybodaeth, y blaenraglen craffu, fel mae'n sefyll ar hyn o bryd (ynghlwm).

*12.40yp – 12.45yp

*amcangyfrif o'r amseroedd

PWYLLGOR CRAFFU ADDYSG AC ECONOMI 13.12.17

Yn bresennol: Y Cyngorydd Beth Lawton – Cadeirydd.
Y Cyngorydd Nia Jeffreys – Is-Gadeirydd.

Y Cynghorwyr: Menna Baines, Steve Collings, Aled Evans, Evan Selwyn Griffiths, Alwyn Gruffydd, Judith Humphreys, Elwyn Jones, Cai Larsen, Dewi Owen, Paul Rowlinson, Cemlyn Williams, a Gareth Williams.

Aelod Cabinet: Y Cyngorydd Craig ab Iago – Aelod Cabinet Tai, Hamdden a Diwylliant (Eitem 5), a'r Cyngorydd Gareth Thomas – Aelod Cabinet Addysg (Eitem 6 a 7).

Hefyd yn bresennol: Vera Jones (Rheolwr Aelodau), Sioned Williams (Swyddog Cefnogi Aelodau), Dylan Davies (Cynrychiolydd Rhieni/Llywodraethwyr Meirionydd), David Healey (Undebau Athrawon), a Anest Gray Frazer (Yr Eglwys yng Nghymru).

Eitem 4: Sioned Williams (Pennaeth Economi a Chymunedau), Robin Evans (Rheolwr Prosiect), a Iwan Evans (Swyddog Monitro).

Eitem 5: Arwyn Thomas (Rheolwr Gyfarwyddwr GwE), Alwyn Lloyd Jones (Cyfarwyddwr Cynorthwyol – Safonau), a Ellen Williams (Arweinydd Craidd Uwchradd Gwynedd).

Eitem 5 a 6: Garem Jackson (Pennaeth Addysg).

1. YMDDIHEURIADAU

Y Cynghorwyr Jason Parry, Huw Wyn Jones, a Keith Jones.

2. DATGAN BUDDIANT PERSONOL

Datganodd y Cyngorydd Menna Baines fuddiant personol yn eitem 7 oherwydd ei rôl ar Fwrdd Ymgynghorol Cynnal.

3. MATERION BRYD

Dim i'w nodi.

4. COFNODION Y CYFARFOD BLAENOROL

Llofnododd y Cadeirydd y cofnodion y cyfarfod blaenorol o'r pwyllgor hwn, a gynhaliwyd ar y 26 Medi 2017, fel rhai cywir.

5. TREFNIADAU LLYWODRAETHU ARFAETHEDIG CWMNI HAMDDEN CYNGOR GWYNEDD

Cyflwynwyd adroddiad gan yr Aelod Cabinet Tai, Hamdden a Diwylliant a'r Pennaeth Economi a Chymunedau, yn cyflwyno trefniadau llywodraethu arfaethedig Cwmni Hamdden Cyngor Gwynedd. Gwahoddwyd aelodau i roi eu mewnbwn ar y trefniadau

cyn i'r eitem fynd ger bron y Cabinet. Diolchodd yr Aelod Cabinet Tai, Hamdden a Diwylliant i'r Pwyllgor am y cyfle i drafod y trefniadau.

Yn ystod y drafodaeth ar yr eitem, rhoddwyd rhagor o wybodaeth i aelodau am y materion canlynol:

- Rôl a phwrpas y Bwrdd Cyngorol.
- Dealltwriaeth o bwy fydd yn gyfrifol am benodi'r Bwrdd Rheoli.
- Cyfrifoldeb ac atebolrwydd aelodau'r bwrdd pe bai'r cwmni yn fethiant, a pha gamau sydd gan y Cyngor i ddelio â hyn – yn arbennig yr effaith ar staff y cwmni.
- Trefn penodi, rôl a chyfrifoldeb y Rheolwr Gyfarwyddwr.

Nodwyd y sylwadau canlynol am y trefniadau llywodraethu'r cwmni gan y Pwyllgor Craffu er sylw'r Aelod Cabinet a'r Cabinet;

- Fod angen i'r Bwrdd Cysgodol fod yn rhan allweddol yn y broses o benodi'r Rheolwr Gyfarwyddwr.
- Y dylid ystyried os oes angen mwy na phum aelod ar y Bwrdd Rheoli gan fod cryn ofynion ar yr aelodau hynny.
- Pwysigrwydd sicrhau perthynas iach ac agored gyda'r Bwrdd Cyngorol o'i sefydlu. Bydd y Pwyllgor craffu yn dymuno eglurder pellach ynghylch sut y bydd hyn yn datblygu dros y misoedd nesaf.
- Fod angen eglurder pellach o rôl y pum cyfarwyddwr wedi iddynt eu penodi.
- Fod y datblygiad yn cynnwys cyfleoedd newydd, er enghraifft;
 - Cyfle i farchnata'r Canolfannau Hamdden yn fwy creadigol.
 - Y dylid ystyried argymhelliad i gyflwyno 'cynllun bonws' i staff sydd yn hyrwyddo'r cwmni yn egniol.
- Y dylid hefyd sicrhau bod clybiau fel 'Dementia Go' a threfniadau llwyddiannus eraill yn parhau.

Bydd aelodau'r Pwyllgor Craffu yn croesawu'r cyfle i graffu'r datblygiadau ymhellach yn unol â'r addewid.

Penderfynwyd: Cefnogi'r adroddiad i fynd i'r Cabinet.

6. EFFAITH A CHANLYNIAD YR HYN A DDARPERIR GAN GWE AR RAN AWDURDOD ADDYSG GWYNEDD

Llongyfarchodd Aelod Cabinet Addysg staff GwE ar lwyddiant yr adroddiad Estyn diweddar.

Cyflwynwyd adroddiad gan Aelod Cabinet Addysg a'r Pennaeth Addysg, yn ymateb i nifer o gwestiynau a ddarparwyd gan aelodau'r pwyllgor ymlaen llawn ynglŷn ag effaith a chanlyniad y gwasanaeth a ddarperir gan GwE ar ran Awdurdod Addysg Gwynedd.

Bu i aelodau'r Pwyllgor fynegi barn bod yr adroddiad yn rhy gyffredinol ac yn disgrifio holl ystod gwaith GwE, yn hytrach nag amlygu'r gwerth am arian i Wynedd yn benodol.

Yn ystod y drafodaeth ar yr eitem, rhoddwyd rhagor o wybodaeth i aelodau am y materion canlynol:

- Rhoddwyd esboniad ar natur y gwasanaeth sy'n cael ei gomisiynu gan GwE ac amlinellwyd bod dwy lefel benodol sef;
 - a. y gwasanaeth mae GwE yn ei ddarparu i'r chwe awdurdod.
 - b. cynllun busnes sydd wedi'i deilwra yn benodol i anghenion Gwynedd.
- Eglurder o'r broses o lunio'r cynlluniau busnes ar gyfer pob Sir.
- Pryderon bod gwendid wedi bod yng nghanlyniadau'r Cyfnod Sylfaen am ddwy flynedd yn olynol.

- Pryderon bod ysgol wedi ei rhoi mewn mesurau arbennig o dan y trefniant presennol rhwng yr awdurdod a GwE.
- Rôl y Swyddogion Cefnogi Gwelliant i sicrhau cefnogaeth gyson er mwyn sicrhau gwelliant cyson ar draws y Sir.
- Y berthynas rhwng yr awdurdod a GwE – a oes digon o herio yn mynd ymlaen?
- Esboniad fod arweinyddiaeth mewn ysgolion yn flaenoriaeth gan yr awdurdodau a GwE a dyna oedd sail y gynhadledd datblygu arweinyddiaeth a fu yn yr haf.
- Prinder o athrawon/penaethiaid addysg.

Mewn ymateb i'r sylw am brinder o athrawon a phenaethiaid addysg yng Ngwynedd, amlygodd y Pennaeth Addysg yr hyn mae'r awdurdod yn ei wneud i fynd i'r afael a'r broblem;

- Swyddfeydd Addysg Ardal - wedi'i datblygu i annog gweithio ar y cyd ac i sicrhau bod y gwaith gweinyddol yn effeithiol ac yn effeithlon ar draws ysgolion.
- Consortïwm Hyfforddiant – gwaith rhanbarthol sydd ar droed yn targedu penaethiaid strategol, rheolwyr safle, penaethiaid y dyfodol a dirprwy penaethiaid.

Penderfynwyd: Derbyn yr adroddiad.

7. ADRODDIAD YMCHWILIAD CRAFFU GWASANAETHAU CEFNOGOL ADDYSG

Cyflwynwyd adroddiad gan y Cyngorydd Alwyn Gruffydd yn cyflwyno'r chwe argymhelliaid o'r ymchwiliad craffu gwasanaethau cefnogol addysg. Diolchwyd i bawb a gyfrannodd i'r ymchwiliad.

Penderfynwyd: Derbyn yr argymhellion.

ADRODDIAD I BWYLLGOR CRAFFU ADDYSG AC ECONOMI

Dyddiad y Cyfarfod:	23 Ionawr, 2018
Aelod Cabinet:	Y Cyngorydd Dyfrig Siencyn Arweinydd y Cyngor
Awdur:	Iwan T. Jones, Cyfarwyddwr Corfforaethol
Rhif Ffôn Cyswllt:	01286 679685
Teitl yr Eitem:	Cais Cynllun Twf ar gyfer Gogledd Cymru – Diweddariad Cynnydd

1. CYFLWYNIAD

- 1.1. Mae'r adroddiad yma yn nodi'r cynnydd gyda datblygu Cais y Cynllun Twf ar gyfer Gogledd Cymru ynghyd ac adnabod rhai materion sydd angen ystyriaeth.
- 1.2. Ym mis Medi 2016, cymeradwyodd Cabinet Cyngor Gwynedd ddogfen yn amlinellu Gweledigaeth a Blaenoriaethau ar gyfer Twf yn Economi Gogledd Cymru. Derbyniodd y ddogfen gefnogaeth y pum awdurdod lleol eraill, yn ogystal â rhanddeiliaid eraill fel Addysg Bellach, Addysg Uwch a'r Sector Breifat.
- 1.3. Mae'r ddogfen yn nodi'r bwriad i ddatblygu isadeiledd, sgiliau a thwf busnes yn y rhanbarth, a chynyddu gwerth yr economi o £12.8 biliwn i £20 biliwn erbyn 2035.

2. Y CYNLLUN TWF I OGLED CYMRU

- 2.1. Yn natganiad y Canghellor ar lawr y Senedd ym mis Tachwedd 2016, rhoddwyd gwahoddiad i Ogledd Cymru gyflwyno cais ar gyfer "Cytundeb Cynllun Twf". Dyma'r cerbyd sy'n cael ei ddefnyddio gan y Llywodraeth yn Llundain bellach i gefnogi buddsoddiad economaidd mewn rhanbarthau ar draws y wlad. Mae rhanbarth Caerdydd a rhanbarth Bae Abertawe eisoes wedi derbyn cymeradwyaeth i'r Cytundeb Twf. Mae cytundeb Caerdydd werth £1.2bn a chytundeb Abertawe werth £1.3bn dros 15 mlynedd (sy'n cynnwys arian preifat).
- 2.2. Yn syml, mae dwy elfen i'r Cytundebau Twf:
 - Buddsoddiad ariannol gan Lywodraeth Prydain (a Llywodraeth Cymru) mewn prosiectau sy'n arwain at dwf economaidd yn y rhanbarth;
 - Datganoli grymoedd neu bwerau a'r Llywodraeth Ganolog i'r rhanbarthau er mwyn caniatáu i'r rhanbarthau wneud penderfyniadau ar lefel y rhanbarth (mewn meysydd fyddai'n hwyluso twf economaidd).

- 2.3. Mae'n rhaid i ranbarthau sy'n gwneud cais gael model llywodraethu cyfreithiol, gwydn ac atebol ar gyfer cynllunio a gweithredu eu strategaeth. Mae disgwyl i ranbarthau fod yn barod i fuddsoddi yn eu strategaethau ochr yn ochr â'r Llywodraeth(au) o ran dyraniadau cyfalaf, benthyciadau cyfalaf, defnydd o dir ac asedau, ac adnoddau datblygu prosiect a gwaith proffesiynol.
- 2.4. Mae ceisiadau'r Cynllun Twf yn cael eu datblygu mewn pedair rhan:
- Gwahoddiad i wneud y cais;
 - Trafodaethau anffurfiol rhwng y Llywodraeth a'r ardal benodol ynglŷn â chyfeiriad a chynnwys y gwaith;
 - Rhan gyntaf y cytundeb a elwir yn 'benawdau telerau';
 - Y cytundeb gorffenedig a chymeradwyo'r cais, ar y cyd rhwng yr awdurdodau a Llywodraeth Cymru a'r DU.
- 2.5. Mae cais Gogledd Cymru yng nghamau olaf yr ail ran gyda'r bwriad o gyrraedd cytundeb penawdau telerau erbyn Mai/Mehefin 2018.

3. PROSIECTAU POSIBL A'R OBLYGIADAU AR WYNEDD

- 3.1. Mae'r gwaith o adnabod prosiectau wedi cychwyn, ac mae modd eu grwpio i 3 faes. Ceir copi o'r prosiectau ynghyd a'r prosiectau posibl sy'n effeithio ar Wynedd yn **Atodiad 1**:
- 3.2. Mae'r rhai o'r deilliannau a ddisgwylir i'r Cytundeb Twf yn cynnwys:
- Twf mewn GDP a lefelau cynhyrchu ar draws y Gogledd;
 - Twf mewn cyflogaeth a buddsoddiad gan y sector preifat; yn enwedig y sectorau ynni carbon isel, gweithgynhyrchu cyfoes a digidol;
 - Lleihad mewn diweithdra ac anweithgaredd economaidd.
- 3.3. Y bwriad yw cael cynllun buddsoddi ar y cyd rhwng y 2 Lywodraeth ar gyfer Gogledd Cymru. Tynnir sylw mai arian cyfalaf fydd y buddsoddiad yma. Mae'n debyg ein bod yn edrych ar gyfanswm buddsoddiad o £240m (heb gynnwys cyfraniad Llywodraeth Leol a phartneriaeth eraill yn cynnwys Addysg Uwch a'r Sector Breifat).
- 3.4. Bydd yn ofynnol i'r prosiectau gyrraedd safonau Cynllun Busnes pum-achos y Llywodraeth.

4. CYFRIFOLDEBAU NEWYDD AR GYFER Y RHANBARTH

- 4.1. Mae'r Cynllun Twf yn ceisio cefnogaeth Llywodraethau'r DU a Chymru i dderbyn y capasiti a'r rhyddid i wneud penderfyniadau allweddol ar lefel ranbarthol.
- 4.2. Bydd ar y rhanbarth angen y grymoedd, y cyfrifoldebau a'r hyblygrwydd ychwanegol. Dyma rhai engrheiffiau:
- Mae'r rhanbarth yn gwahodd Llywodraeth Cymru i gefnogi ffurfio Corff Trafnidiaeth Rhanbarthol newydd;
 - Mae'r rhanbarth yn gwahodd Llywodraeth y DU i gyd-gomisiynu a chyd-dylunio rhaglenni cyflogaeth o fewn y rhanbarth i gyflawni gwasanaeth mwy integredig a chydlynol. Bydd hyn yn ddibynnol ar gael hyblygrwydd

gan Lywodraeth Cymru a'r Adran Gwaith a Phensiynau (DWP) i integreiddio rhaglenni ariannu ar gyfer y rhanbarth i fod yn fwyaf effeithiol wrth dynnu pobl oddi ar fudd-daliadau ac i mewn i waith.

- Bydd y rhanbarth angen i Lywodraeth Cymru gefnogi dynodiad rhanbarthol o'r Ardoll Treth Prentisiaethau;
- Mae'r rhanbarth yn ceisio cefnogaeth Llywodraeth Cymru i gadw cyfran o gyfraddau annomestig cenedlaethol (trethi busnes) i fuddsoddi mewn twf economaidd.

5. Cydbwyllgor Statudol – Bwrdd Twf Gogledd Cymru

- 5.1. Mae gofyn i ranbarthau sy'n dymuno cael "Cytundeb Twf" gael model llywodraethu cyfreithiol, gwydn ac atebol. Mae yn hyn hanfodol os am gytuno ar gynllun buddsoddi ac i dderbyn pwerau/ grymoedd ychwanegol o Lywodraeth Prydain a Chymru.
- 5.2. Ym mis Mawrth 2017, cymeradwyodd Cabinet Cyngor Gwynedd (ynghyd a'r pum Awdurdod Lleol eraill y Gogledd) y bwriad i sefydlu Cydbwyllgor Statudol a fyddai yn ymateb i'r angen yma. Ymhellach i hyn, ym mis Hydref 2017, bu i'r Cabinet gefnogi'r model llywodraethu a ffafir o sefydlu'r Cydbwyllgor Statudol gan gytuno byddai adroddiad pellach ar gyfansoddiad a chylch gorchwyl a Chytundeb Rhyng-Awdurdod i'w ddilyn nes ymlaen yn y flwyddyn.
- 5.3. Yn ogystal, yn ystod Hydref 2017, bu i'r Cabinet gytuno ar i sicrhau cyfraniad ariannol cychwynnol o hyd at £50,000 (gwariant 2017/18) ar gyfer costau o sefydlu Swyddfa Rhaglen i gefnogi'r gwaith.
- 5.3. Bydd y Cytundeb Rhyng-Awdurdod yn gytundeb ar y cyd ac yn gosod:
 - Sut fydd y Cydbwyllgor yn cael ei lywodraethu;
 - Rôl awdurdod lletya;
 - Sut fydd cyfraniadau ariannol i'r Cydbwyllgor a'r awdurdod lletya yn cael eu penderfynu.
- 5.4. Mae'r Cydbwyllgor bellach wedi ei sefydlu, gyda'r cyfarfod cyntaf ym mis Rhagfyr 2017 gyda Arweinydd pob un o'r chwe Chyngor a chynrychiolaeth Addysg Uwch, Addysg Bellach a'r sector preifat.
- 5.5. Mae'r Arweinydd wedi cael ei awdurdodi i fod yn aelod Gwynedd o'r Cydbwyllgor Cysgodol, ac hefyd wedi ei benodi fel Is-Gadeirydd i'r Cydbwyllgor Cysgodol.
- 5.6. Mae amlinelliad o'r cylch gorchwyl arfaethedig, sy'n cael ei ddatblygu mewn manylder gan rwydwaith Penaethiaid y Gwasanaethau Cyfreithiol, i'w weld yn **Atodiad 2**.

6. AMSERLEN A'R CAMAU NESAF

6.1. Mae'r broses o baratoi'r Cynllun Twf ar gyfer Gogledd Cymru yn un heriol, ac mae amserlen ddrafft wedi ei rhoi at ei gilydd. Yn syml, bydd y camau nesaf yn cynnwys:

i) Ionawr- Ebrill 2018

- Datblygu 'Project Initiation Document' (PID) ar gyfer pob prosiect
- Cyflwyno'r PID i'r Cydbwyllgor Statudol Cysgodol
- Sesiynau herio gyda Llywodraeth DU a Llywodraeth Cymru ar y PIDs
- Recriwtio tîm i ddatblygu'r prosiectau
- Cychwyn ar ddatblygu achosion busnes amlinellol

ii) Mai – Mehefin/ Gorffennaf 2018

- Sesiynau herio gan wleidyddion uwch o Lywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru
- Cytuno ar Benawdau Telerau
- Cychwyn ar ddatblygu Cynllun Busnes Pum Achos
- Cyflwyno'r Cytundeb Rhyng-Awdurdod i'r Cyngor Llawn

6.2. Gobeithir cymeradwyo Model Busnes Llawn bob prosiect o fewn y Cynllun Twf erbyn diwedd 2018, gyda'r buddsoddiad i ddechrau yn Ebrill 2019.

6.3. Bwriedir cynnal sesiwn codi ymwybyddiaeth i'r holl aelodau ar faterion y Cynllun Twf ar 15 Chwefror, gan gynnal sesiynau rheolaidd wedi hynny, wrth i'r cynllun ddatblygu ymhellach.

Atodiadad:

Atodiad 1	Prosiectau Posibl Cynllun Twf Gogledd Cymru
Atodiad 2	Cylch Gorchwyl Cydbwyllgor Statudol – Bwrdd Twf Gogledd Cymru

Dogfennau Cefndirol: Dim

ATODIAD 1 : Prosiectau Cynllun Twf Gogledd Cymru

Gogledd Cymru Flaengar

- i)** Cronfa Ddatblygu Safleoedd ac Eiddo Blaengar Cam 1 a Cham 2
 - Datblygu Parc Bryncegin, Bangor
 - Datblygiad y Ganolfan Awyr yn Llanbedr

- ii) Mynediad Blaengar i Brosiectau Ynni**
 - Canolfan Ynni Carbon Isel
 - Cadwyn Cyflenwi Ynni Niwclear
 - Datblygiad Trawsfynydd
 - Cynlluniau Ynni Llanw
 - Canolfan Hyfforddiant Ynni Carbon Isel

- iii) Cronfa Twf Busnes Rhanbarthol**
 - Lleoliadau graddedigion mewn busnesau
 - Cefnogaeth i allforio a marchnata
 - Cronfa ymchwil a datblygu i fusnesau
 - Cronfa marchnata rhanbarthol
 - Rhaglen achrediadau busnes
 - Sefydlu Canolfan/Hwb Busnes newydd

3.1.2 Gogledd Cymru Wydn

- i) Prosiect Hwyluso Tai**

- ii) Sgiliau a Chyflogaeth**
 - Cronfa gyfalaf ar gyfer prosiectau trawsnewidiol yn y maes sgiliau

- iii) Cynllun broceriaeth sgiliau a chyflogaeth ar gyfer Gogledd Cymru**

3.1.3 Gogledd Cymru Gysylltiedig

i) Isadeiledd Digidol

- Canolfan Digidol ym Mangor
- Rhaglen i ddatblygu isadeiledd digidol a ffibr y rhanbarth
- Cefnogaeth i fusnesau weithio'n ddigidol
- Darpariaeth hyfforddiant digidol i'r farchnad lafur

ii) Isadeiledd Cludiant a Thrafnidiaeth

- Cronfa fuddsoddi mewn trafndiaeth leol
- Gwella'r isadeiledd ffyrdd a rheilffyrdd
- Cynlluniau ar gyfer ffyrdd strategol fel yr A55, A487 a'r drydedd bont dros y Fenai
- Sefydlu Awdurdod Trafnidiaeth Rhanbarthol

ATODIAD 2 - Amlinelliad o Gylch Gorchwyl y Cydbwyllgor

- 1) Gweithgarwch
- 2) Strategaeth
- 3) Blaenoriaethu
- 4) Cynrychiolaeth
- 5) Perfformiad
- 6) Cyfrifoldeb

Cylch Gorchwyl 1: Gweithgarwch

- Strategaeth a chynllunio twf economaidd
- Blaenoriaethu a chynllunio isadeiledd
- Pennu a chynllunio defnydd tir strategol
- Cynllunio a chomisiynu trafnidiaeth
- Strategaeth cynllunio a chomisiynu sgiliau
- Eraill i gael eu hychwanegu wrth i bwerau gael eu datganoli

Cylch gorchwyl 2: Strategaeth

- Gosod cyfeiriad strategaeth ranbarthol
- Asesiad cyson o anghenion tystiolaethol y rhanbarth a chyfle i gynnal y strategaeth
- Gosod blaenoriaethau a chynlluniau buddsoddi i ddarparu'r strategaeth

Cylch Gorchwyl 3: Blaenoriaethu

- Blaenoriaethu cynlluniau cyfrannol
- Datblygu achos busnes a gwneud achos dros gynlluniau wedi eu blaenoriaethu.
- Blaenoriaethu ac amlinellu buddsoddiad
- Sicrhau cytundebau buddsoddiad

Cylch Gorchwyl 4: Cynrychiolaeth

- Ymrwymiad a rheoli perthynas gyda phartneriaid rhanbarthol
- Ymrwymiad a rheoli perthynas gyda phartneriaid traws ffiniol

- Dadlau a lobio gyda Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU, Gweinidogion a grwpiau gwleidyddol
- Perthynas gyhoeddus a chyfryngol ynghyd a phroffil

Cylch Gorchwyl 5: Perfformiad

- Rheoli rhaglen a gweithredu'r strategaeth
- Goruwchwilio perfformiad yn unol â thargedau cynnydd allweddol a mesuriadau canlyniad
- Sicrhau rheoli rhaglen strategol, datblygiad prosiect a rheoli adnoddau i weithredu cynlluniau cyfrannu.

Cylch Gorchwyl 6: Cyfrifoldeb

- Adrodd yn ôl i'r chwe awdurdod lleol
- Adrodd yn ôl i'r partneriaid rhanbarthol ar berfformiad, perfformiad buddsoddiad a rheoli peryglon
- Adrodd yn ôl i Lywodraeth Cymru ar berfformiad a'r defnydd effeithiol o'u buddsoddiad
- Adrodd yn ôl i Lywodraeth y DU ar berfformiad a'r defnydd effeithiol o'u buddsoddiad

Cyfyngiadau Gwneud Penderfyniadau a Materion wedi eu cadw

Enghreifftiau o benderfyniadau fydd wedi eu cadw i gynghorau unigol eu cymeradwyo yw: -

- Cytundeb o weithgarwch i gael ei roi i'r cydbwyllgor;
- Cytundeb o gyfraniadau cyllideb flynyddol i'r cydbwyllgor ac i'r llety-awdurdod;
- Cytundebau buddsoddiad a benthygiad a lefelau agored i beryglon; a
- Dosbarthiad tir ac asedau eraill i gael eu rhannu.

Cyfarfod	Pwyllgor Craffu Addysg ac Economi
Dyddiad	23ain o Ionawr 2018
Teitl	Ail-fodelu'r Gwasanaeth Ieuenctid
Awdur	Catrin Thomas, Uwch Reolwr, Economi a Chymuned
Aelod	Cynghorydd Craig ab Iago
Pwrpas	Craffu'r achos fusnes ar gyfer ail-fodelu'r Gwasanaeth Ieuenctid.

1 Cyflwyniad

- 1.1 Mae'r adroddiad gerbron yn amlinellu'r camau sydd wedi eu cymryd i adnabod yr opsiwn a ffafrir ar gyfer Ail-fodelu'r Gwasanaeth Ieuenctid
- 1.2 Gofynnir am sylwadau'r Pwyllgor Craffu ar y cynllun hwn er mwyn eu cyflwyno i'r Cabinet ar y 13eg o Fawrth, 2018.


2 Cefndir

- 2.1 Mae darparu Gwasanaethau Cymorth Ieuenctid yn ofyniad statudol o dan y Ddeddf Sgiliau a Dysgu 2000. Mae Llywodraeth Cymru (LLC) yn cyfeirio awdurdodau lleol i ddarparu, sicrhau darpariaeth neu gyfranogi yn y ddarpariaeth o wasanaethau cymorth ieuenctid. Mae LLC yn gwneud hyn ar gyfer Gwaith Ieuenctid a Gwasanaethau Ieuenctid Awdurdodau Lleol drwy "Cyfarwyddyd a Chanllawiau Ymestyn Hawliau (2002)", Strategaeth Gwaith Ieuenctid Cymru 2014-12018; Fframwaith Ymgysylltu a Chyflawniad 2015-2018; a'r Siarter Ieuenctid 2016.
- 2.2 Mae Gwasanaethau Cymorth Ieuenctid yn cyfrannu tuag at gynnal pobl ifanc drwy'r cyfnod hwnnw o'u arddegau i fod yn oedolion (11-25 oed). Mae pobl ifanc yn derbyn Gwasanaethau Cymorth Ieuenctid yng Ngwynedd gan nifer o fudiadau gwahanol all gynnwys Gwasanaeth Gwybodaeth (Gwynedd-Ni), gwasanaethau iechyd, gwasanaeth ieuenctid, gwasanaethau addysg, astudio ac hyfforddi, gwasanaethau tai a lletya, a mynediad i wasanaethau teithio a chludiant. Ac i'r bobl ifanc hynny sydd angen mwy o gymorth mae gwasanaethau arbenigol ar gael megis gwasanaethau cymdeithasol, gwasanaethau cyfiawnder a throsgedd, gwasanaethau incwm a budd-daliadau a gwasanaethau cynghori fel Barnados, Chidline, NSPCC ac ati.
- 2.3 Tu hwnt i'r Gwasanaeth Cymorth mae yna nifer fawr o weithgareddau, clybiau, cymdeithasau ar gyfer pobl ifanc drwy'r sir sy'n tynnu pobl ifanc at eu gilydd i fwynhau y pethau hynny sydd yn eu diddori, ac i gymdeithasu gyda'u cyfoedion yn annibynnol o'u rhieni/gwarchodwyr a'u teuluoedd. Mae rhain yn cynnwys cyfleon megis clybiau chwaraeon amrywiol, corau, grwpiau celfyddydol, aelwydydd yr Urdd, Clybiau Ieuenctid Capeli ac Eglwysi, cadetiaid, Clybiau Ffermwyr Ifanc.


3 Y sefyllfa bresennol

3.1 Mae Gwasanaeth Ieuenctid y Cyngor (2016-17) yn

- rhedeg 39 o glybiau ieuenctid yn ystod tymor ysgol yn unig, i bobl ifanc 11-25 oed
- gyda 5625 o aelodau (rhwng ei glybiau ieuenctid ei hun a'r clybiau a ariennir drwy grant i fudiadau gwirfoddol),



- mae'r clybiau yn rhedeg prosiectau a gweithgareddau o ddysgu anffurfiol gyda 1307 o bobl ifanc yn ennill achrediad cenedlaethol a 2740 yn ennill cymhwyster lleol,



- mae tîm rheoli o 4 llawn amser yn gweinyddu a rheoli hyd at 100 o weithwyr clybiau sy'n gweithio rhwng 3 – 9 awr yr wythnos yr un,
- mae 5 gweithiwr ieuenctid llawn amser (ariennir gan grant) yn rhoi cymorth a chefnogaeth i grwpiau o bobl ifanc mewn 9 ysgol uwchradd,
- rhoi grantiau i'r Urdd (£35,600), Ffermwyr Ifanc Eryri a Meirionnydd (£36,590), Geidiaid (£740) a'r Sgowtiaid (£740) tuag at eu costau rhedeg.

- 3.2 Pan adolygwyd y Gwasanaeth Ieuencid yn 2016-17 roedd ganddi gyllideb (dan reolaeth) o £995,300.
- 3.3 Ym mis Mawrth 2016 penderfynodd y Cyngor drwy Her Gwynedd i dorri £200,000 o gyllideb y Gwasanaeth Ieuencid yn 2017-18, ynghyd a cyflawni targed effeithlonrwydd o £70,000 erbyn diwedd Mawrth 2019.
- 3.4 Mae'r Gwasanaeth Ieuencid, yn sgil y wasgfa ariannol ar y Cyngor eisoes gweithredu arbedion o £476,545 rhwng 2010/11 a 2017/18. Mae'r gwasanaeth wedi ceisio sicrhau yr effaith lleiaf posib ar bobl ifanc Gwynedd drwy gyflwyno mesurau effeithlonrwydd i leihau costau. Mae darganfod arbedion oddi fewn i'r model darparu presennol yn profi'n anodd. Os cymeradwyir y cynllun arfaethedig yma o ail-fodelu'r Gwasanaeth Ieuencid gellid cyflawni'r arbedion a cyfarch y toriad.
- 3.5 Mae £270,000 o leihad yn dod a chyllideb (dan reolaeth) y Gwasanaeth Ieuencid i £725,300 o 2017-18 ymlaen.

4 Pam newid?

- 4.1 Cynhaliwyd Adolygiad o'r Gwasanaeth Ieuencid yn ystod 2015-2017. Gweler adroddiad yr adolygiad yn atodiad 1.
- 4.2 Mae'r adolygiad wedi cynnwys dadansoddiad a gwerthusiad o'r Gwasanaeth Ieuencid presennol, ac wedi cynnwys rhaglen ymgysylltu i adnabod anghenion a chasglu barn a syniadau ar gyfeiriad i'r Gwasanaeth i'r dyfodol.
- 4.3 Roedd y rhaglen ymgysylltu yn cynnwys trafod gyda defnyddwyr y gwasanaeth presennol, pobl ifanc nad ydynt yn ddefnyddwyr, partneriaid mewnol ac allanol, ysgolion, yn ogystal a'r mudiadau hynny sy'n derbyn grant gan y Gwasanaeth ar hyn o bryd, er mwyn sicrhau eu mewnbwn i'r adolygiad ac i'r gwaith dilynol o adnabod opsiynau ar gyfer y dyfodol.
- 4.4 Dangosodd yr Adolygiad fod y Gwasanaeth Ieuencid yn gorfod newid oherwydd ei fod yn wynebu'r heriau canlynol :

Gallu i ymateb i'r hyn sy'n bwysig i bobl ifanc.	Drwy'r gwaith ymgysylltu gyda pobl ifanc (gwerthuso clybiau unigol, grwpiau ffocws, holiaduron ac ati) maent wedi adrodd fod y materion canlynol yn bwysig iddyn nhw, ac yn faterion y mae angen cymorth a chefnogaeth arnynt – diogelwch, hunan-ddelwedd, rhywioldeb a pherthnasau iach, iechyd a lles meddwl, datblygu sgiliau bywyd nad ydynt yn eu cael gartref nac yn yr ysgol, datblygu sgiliau cyfathrebu a sgiliau barod am waith. Mae pobl ifanc wedi adrodd fod cymdeithasu a cael hwyl gyda'u ffrindiau yn parhau i fod yn bwysig iddynt.
---	--

	Mae'r ymgysylltu gyda partneriaid a gwasanaethau eraill sy'n cefnogi pobl ifanc yn nodi y gall y Gwasanaeth Ieuenctid gyfrannu tuag at yr agenda ataliol, gan fod gweithwyr ieuenctid mewn sefyllfa i fedru ymgysylltu, cefnogi a gweithio gyda pobl ifanc mewn sefyllfaoedd anffurfiol i daclo rhai materion.
Gallu'r Gwasanaeth i ymateb i'r newid yn y cyd-destun polisi / strategol Gwaith Ieuenctid	Er fod y gofyniad statudol drwy'r Ddeddf Sgiliau a Dysgu 2000 yn parhau'r un peth, mae cyfarwyddiadau a chanllawiau Llywodraeth Cymru yn gwyro Gwasanaethau Ieuenctid Awdurdodau Lleol i ganolbwyntio ar gefnogi pobl ifanc gyda'u dysgu a'u haddysg. Mae pwyslais hefyd ar i Wasanaeth Ieuenctid fod yn gwyro i gefnogi pobl ifanc dros 16 oed nad ydynt mewn addysg, hyfforddiant na gwaith.
Gallu'r Gwasanaeth i ymateb i Dueddiadau y Boblogaeth	Mae data yn dangos tueddiadau a phatrymau ymddygiad ymysg y grwp oedran 11-25 oed. Mae'r tueddiadau yn amlygu anghenion ac ymddygiadau peryglus gan bobl ifanc mewn meysydd megis iechyd, beichiogrwydd, cam-ddefnyddio sylweddau, lles meddyliol. Mae'r gwaith ymgysylltu gyda pobl ifanc yn ategu hyn.
Gallu'r Gwasanaeth i recriwtio a chynnal gweithlu	Mae ymgysylltu gyda'r staff, edrych ar asesiadau risg a chynllun busnes y gwasanaeth wedi amlygu fod recriwtio, cynnal, hyfforddi a gweinyddu gweithlu sesiynol yn her. Mae bron i 100 gweithiwr yn gweithio 3.7, 7.4 neu 11.1 awr yr wythnos, yn cynnal clybiau ieuenctid ar hyn o bryd, ac mae'n anoddach denu gweithwyr newydd i'r math yma o swyddi. Mae'r strwythur sesiynol hwn hefyd yn golygu nad oes hyblygrwydd yn y gwasanaeth i ymateb i faterion, anghenion pobl ifanc y tu allan i'r oriau / nosweithiau y cynhelir y clybiau ieuenctid. Mae'r adborth gan bobl ifanc wedi dangos eu bod yn dymuno cael mynediad i weithiwr ieuenctid drwy'r ysgol, yn y gymuned, ac ar adegau sy'n gyfleus iddyn nhw, megis penwythnos, gwyliau ysgol, ar ôl ysgol neu gyda'r nos.
Gallu'r Gwasanaeth i gyfarch y Gyllideb	Mae'r adolygiad hwn, ac yn benodol y gwaith o ymgysylltu gyda'n rhan-ddeiliaid ar sut i ymateb i'r heriau uchod, wedi ei osod oddi fewn i gyd-destun ariannol heriol. Penderfyniad 'Her Gwynedd' y Cyngor ym mis Mawrth 2016 oedd torri cyllideb y Gwasanaeth Ieuenctid o £200,000, yn ychwanegol i'r targed arbedion effeithlonrwydd o £70,000. Golyga'r penderfyniad hwn na all y Gwasanaeth ar ei ffurf bresennol fod yn opsiwn i'r dyfodol.

4.5 Felly, mae'r adolygiad a'r adborth o'r gwaith ymgysylltu yn awgrymu y dylai'r Gwasanaeth Ieuenctid i'r dyfodol ganolbwyntio ar helpu pobl ifanc

- i ddysgu a datblygu eu sgiliau
- gyda'u datblygiad personol,
- gyda cefnogaeth iechyd a lles

Dylai'r help hwnnw sicrhau fod pobl ifanc yn gallu ymwneud yn llawn gyda'u haddysg, eu hyfforddiant, ac wedi eu paratoi ar gyfer fyd gwaith, ac yn gallu cymryd rhan lawn a chyfrifol yn mywyd eu cymunedau.

5 Adnabod a Gwerthuso'r Opsiynau

5.1 Mae rhestr hir o opsiynau wedi eu hadnabod i ail-fodelu a lleihau'r Gwasanaeth. Mae nifer wedi eu diystyru oherwydd ar eu pennau eu hunain ni fyddent yn cyfarch y lleihad yn y gyllideb, megis:

- Lleihau neu Ddileu Grantiau 3ydd sector
- Dileu Gwasanaeth Bws Ieuenctid
- Dileu Gwasanaeth Dug Caeredin
- Rhesymoli trefniadau eiddo ac adeiladau
- Rhesymoli a dileu fflyd bysiau mini

Mae opsiynau eraill wedi eu diystyru oherwydd y risgiau gweithredol, a chanfyddiadau arolygon ac astudiaethau dichonolrwydd cenedlaethol i fodelau darparu amgen.

5.2 Adnabuwyd 4 Opsiwn a'i cyflwyno i'r Cabinet ar 24 o Hydref 2017. Lluniwyd y 4 Opsiwn yn seiliedig ar ganfyddiadau'r adolygiad a'r heriau sydd wedi eu hamlygu yn adran 4 uchod.

5.3 Y 4 Opsiwn a ystyriwyd gan y Cabinet oedd :

	Be ydy o?	Sut byddai o'n edrych?
Opsiwn 1	Dal i ddarparu Clybiau Ieuenctid tymor ysgol i rai 11-25 oed, a rhoi peth grant i rai mudiadau gwirfoddol, ond gwneud llai ohono. (cau clybiau mewn cymunedau gwledig a rhoi llai o grant i'r Urdd, Ffermwyr Ifanc, Geidiaid a'r Sgowtiaid)	Cynnal 10 Clwb Ieuenctid yn 1. Maesgeirchen 2. Caernarfon 3. Bethesda 4. Dyffryn Nantlle 5. Pwllheli 6. Porthmadog 7. Blaenau Ffestiniog 8. Dolgellau 9. Tywyn 10. Bala Darpariaeth ar gael Tymor Ysgol yn unig. Yr un peth yn cael ei gynnig i bawb rhwng 11-25 oed. Lleihad o 50% yn y grant i'r 3ydd sector
Opsiwn 2	Dal i ddarparu Clybiau Ieuenctid tymor ysgol i rai 11-25 oed ond gwneud llai	Cynnal 14 Clwb Ieuenctid yn 1. Maesgeirchen 2. Bangor

	ohono. Peidio rhoi grantiau i'r trydydd sector. (cau clybiau ieuenctid mewn cymunedau gwledig a peidio rhoi grant i'r Urdd, Ffermwyr Ifanc, Geidiaid na'r Sgowtiaid).	3. Caernarfon 4. Bethesda 5. Llanrug 6. Dyffryn Nantlle 7. Botwnnog 8. Pwllheli 9. Porthmadog 10. Blaenau Ffestiniog 11. Harlech 12. Tywyn 13. Dolgellau 14. Bala Darpariaeth ar gael Tymor Ysgol yn unig. Yr un peth yn cael ei gynnig i bawb 11-25 oed. Dim grant i'r 3ydd sector.
Opsiwn 3	Darparu mewn ffordd wahanol, sef Rhaglen o Weithgareddau a Phrosiectau sy'n symud o leoliad i leoliad drwy'r sir. Comisiynu gweithgareddau a phrosiectau penodol ganartneriaid allanol.	Clwb Ieuenctid Sirol yn darparu rhaglen o brosiectau a gweithgareddau mewn ysgolion a chymunedau i bobl ifanc 11-19 oed gydol y flwyddyn. Gweithiwr Ieuenctid ynghlwm i bob ysgol uwchradd. Cefnogaeth bersonol i bobl ifanc 16-25 oed sy'n wynebu rhwystrau rhag ymgysylltu gyda addysg, hyfforddiant neu waith. Comisiynu'r 3ydd Sector i gynnal gweithgareddau, prosiectau ar ran y Gwasanaeth Ieuenctid yn ôl yr angen.
Opsiwn 4	Darparu mewn ffordd wahanol, sef Rhaglen o Weithgareddau a Phrosiectau sy'n symud o leoliad i leoliad drwy'r sir. Creu grant cymunedol i fudiadau'r trydydd sector i ddarparu gweithgareddau pobl ifanc.	Clwb Ieuenctid Sirol yn darparu rhaglen o brosiectau a gweithgareddau mewn ysgolion a chymunedau i bobl ifanc 11-19 oed gydol y flwyddyn (llai o weithgareddau na opsiwn 3). Gweithiwr Ieuenctid ynghlwm i bob ysgol uwchradd, (ond llai o gyswllt na opsiwn 3). Cefnogaeth bersonol i bobl ifanc 16-25 oed sy'n wynebu rhwystrau rhag ymgysylltu gyda addysg, hyfforddiant neu waith. Grant cymunedol (£40k) drwy Cist Gwynedd i unrhyw fudiadau tuag at weithgareddau pobl ifanc.

5.4 Cyflwynwyd yr Asesiad Effaith Cydraddoldeb cychwynnol i'r Cabinet (gweler atodiad 2) a oedd yn adnabod yr effeithiau posibl canlynol;

- Gall pob opsiwn gael effaith negyddol ar y grŵp oedran 11-16 oherwydd cwtogiad yn y ddarpariaeth fydd ar gael.

- Gall opsiwn 3 a 4 gael effaith bositif ar y grŵp oedran 16-25 oherwydd ei fod yn cynnig gwasanaeth penodol wedi ei dargedu i'w anghenion.
- Gall opsiwn 1 a 2 gael effaith negyddol ar gymunedau penodol (28 i 32 ohonynt) ond effaith bositif yn y 10 i 14 cymuned ble lleolir Clwb.
- Gall opsiwn 3 a 4 gael effaith negyddol ar 42 cymuned drwy symud i ffwrdd oddi wrth ddarparu clybiau ynddynt, ond effaith bositif mewn nifer o gymunedau y byddai'r gwasanaeth yn ymweld a hwy mewn blwyddyn drwy raglen o weithgareddau.
- Gall pob opsiwn gael yr un effaith bosibl ar grwpiau gwarchodedig.
- Gall pob opsiwn gael effaith negyddol ar Siaradwyr Cymraeg Ifanc gan fod lleihad yn y cyfleon i ddefnyddio'r Gymraeg yn gymdeithasol.
- Gall opsiwn 3 a 4 gael yr effaith fwyaf negyddol ar y cymunedau difreintiedig

5.5 Gall pob un o'r 4 opsiwn fod yn fodd o hyrwyddo amcanion Deddf Llesiant Cenedlaethau'r dyfodol ymysg pobl ifanc yng Ngwynedd. Byddai unrhyw opsiwn yn caniatáu i'r Gwasanaeth gefnogi pobl ifanc i ddatblygu gweithgareddau a phrosiectau i gyflawni'r amcanion hyn. Fodd bynnag, opsiwn 3 a 4 yn unig sydd yn ymateb i'r ffordd newydd o weithio a adwaenir gan y Ddeddf. Gall opsiwn 3 a 4 ganiatáu'r Gwasanaeth leuenctid i gyd-gynllunio, cyd-ddarparu ac integreiddio ymyraethau gyda cyrff eraill er lles pobl ifanc. Gall opsiwn 3 a 4 gefnogi pobl ifanc i adnabod atebion a prosiectau i ymateb i'r materion sy'n effeithio arnyn nhw a'u cymunedau.

5.6 Asesodd y Cabinet y 4 Opsiwn (gweler atodiad 3) yn erbyn y meini prawf canlynol :-

- Gallu i gyfarch anghenion pobl ifanc ac ymateb i'r newid mewn tueddiadau yn y grwp oedran.
- Gallu i gyfarch y cyfeiriad lleol a ddymunir i'r gwasanaeth i'r dyfodol, gan gynnwys y cyd-destun statudol, a'r gallu i ymateb i'r cyfeiriad polisi presennol ac i'r dyfodol.
- Gallu i gyfarch y gyllideb bresennol ac yn y sefyllfa orau ar gyfer cyd-destun ariannol y dyfodol.
- Gallu i gyfarch yr her o ran recriwtio a chynnal gweithlu diogel.
- Sydd a'r lleiaf o effeithiau negyddol ac yn cynnig effeithiau positif.

(Yn ychwanegol i'r asesiad effaith cydraddoldeb, roedd yr adolygiad wedi adnabod bod potensial effaith gofodol ac effaith ar y sector wirfoddol y dylid rhoi sylw iddo.)

5.7 Mae'r tabl isod yn crynhoi'r asesiad opsiynau:

	Opsiwn 1	Opsiwn 2	Opsiwn 3	Opsiwn 4
Cyfarch Anghenion (barn pobl ifanc, tueddiadau)				
Cyfarch y Cyd-destun (polisi, strategol a statudol)				

Cyfarch y Gyllideb (fforddiadwyedd a cynladwyedd)				
Gallu i Gynnal Gweithlu (recriwtio, hyfforddi a staffio)				
Asesiad Effaith (cydraddoldeb, gofodol, 3ydd sector)				

5.8 Yn seiliedig ar asesiad o'r opsiynau, daeth y Cabinet i benderfyniad mai Opsiwn 3 oedd yr opsiwn a ffafrir ar y pwynt hwn oherwydd mae'n

- Cyfarch anghenion pobl ifanc a'r tueddiadau orau gan ddod a chanlyniadau i unigolion.
- Cyfarch y cyd-destun statudol orau, a'r gallu i ymateb i'r cyfeiriad polisi/ strategol presennol ac i'r dyfodol.
- Gallu lliniaru effeithiau yr asesiad cydraddoldeb orau, gan fod yn bositif ar rai agweddau.
- Dyma'r opsiwn sydd a'r strwythur gorau o ran gallu recriwtio, hyfforddi a chynnal gweithlu; a'r model gorau o ran cynnal perfformiad.
- Cyfarch y gyllideb ac mewn gwell sefyllfa ar gyfer y dyfodol

5.9 Penderfynodd y Cabinet fynd allan i ymgynghori ar yr opsiwn a ffafrir gan ofyn barn ar yr opsiwn hwn.

6 Ymgynghoriad Cyhoeddus ar yr Opsiwn a Ffafrir.

6.1 Cynhaliwyd ymgynghoriad cyhoeddus ar yr opsiwn a ffafrir rhwng 10 o Dachwedd – 22 o Ragfyr 2017. Gweler ddadansoddiad o'r ymatebion yn atodiad 4.

6.2 Cafwyd 3,391 o ymatebion (ar-lein / papur) gyda'r mwyafrif ohonynt (3.349) gan unigolion, a canran uchel o'r rheiny yn y grŵp oedran 11-15 oed (69.4%).

6.3 Yn gyffredinol mae cefnogaeth i'r themâu y dylai'r Gwasanaeth leuenctid ganolbwyntio arno i'r dyfodol sef datblygu sgiliau, datblygiad personol a chefnogaeth iechyd a lles; gyda 63.3% o'r ymatebwyr yn nodi sgôr o 1 neu 2 (grêt) a 10.7% yn nodi sgôr o 4 neu 5 (gwael).

6.4 Yn yr un modd mae cefnogaeth gyffredinol bod angen pethau gwahanol ar bobl ifanc wrth iddyn nhw dyfu fyny, ac felly cefnogaeth i'r Gwasanaeth fod yn darparu rhaglen o weithgareddau hwyliog i rai 11-19 oed a cefnogaeth un i un i rai 16-25 oed; gyda 62.4% yn nodi sgôr o 1 neu 2 (grêt) a 5.9% yn nodi sgôr o 4 neu 5 (gwael).

6.5 Gofynnwyd i bobl nodi eu sylwadau ar yr opsiwn a ffafrir ac mae'r Tîm Ymchwil a Dadansoddeg wedi dadansoddi'r sylwadau hynny i themâu, a'u meintoli.

6.6 Mae nifer o themâu wedi eu hadnabod sy'n amlygu gwahanol gryfderau a chyfleoedd y gall yr opsiwn ei gynnig i bobl ifanc. Mae'r sylwadau ar draws nifer o themâu yn datgan cefnogaeth i'r opsiwn oherwydd ei fod yn cynnig cyfleoedd da i bobl ifanc, mwy o weithgareddau, cyfle i gymdeithasu, cael cefnogaeth a chymorth, cyfle i ddysgu sgiliau, cadw'n iach, codi hyder. Er hynny, y thema amlycaf ar ei ben ei hun, yw'r casgliad hynny o sylwadau sy'n datgan nad oes unrhyw beth da am yr opsiwn hwn (21%).

6.7 Y prif bryder sydd wedi dod i'r amlwg yw fod 14% o'r ymatebwyr yn poeni fod eu clwb ieuenctid yn cau / Nulle ganddynt i fynd iddo, ac mae hyn i'w weld amlycaf o ardaloedd YM Moelwyn, Syr Hugh Owen a Tywyn, sydd yn cyd-fynd gyda rhai o glybiau mwyaf poblogaidd y Gwasanaeth Ieuenctid presennol. Teithio oedd yn pryderu 7.9% o'r ymatebwyr a sut y byddent yn cael mynediad i weithgareddau a prosiectau y Gwasanaeth Ieuenctid i'r dyfodol. Wedi dweud hynny dylid nodi fod 38% o'r ymatebwyr wedi nodi nad oes dim yn eu poeni am yr hyn sy'n cael ei gynnig.

6.8 Nododd 36.8% o'r ymatebwyr na fyddent yn wynebu unrhyw rwystrau pe bai'r Gwasanaeth Ieuenctid yn newid i Raglen o Weithgareddau a Phrosiectau, a Gwaith Un i Un. Y prif rwystr (16.7%) yw teithio a chael mynediad i'r Gwasanaeth.

7 Ystyriaethau Pellach

7.1 Goblygiadau ar y gweithlu

7.1.1 Mae'r Gwasanaeth Ieuenctid wedi cynnwys y gweithlu yn y broses o adnabod y syniadau ers y cychwyn. Tra'n Adolygu'r Gwasanaeth cynhaliwyd 2 Weithdy ar gyfer y Gweithwyr Rhan-Amser (84 o 100 wedi mynychu) a 2 weithdy ar gyfer Gweithwyr Llawn-Amser a Gweithwyr Cefnogol (11 o 12 wedi mynychu) yn Hydref 2016. Mae'r Gweithwyr hefyd wedi bod yn cyfrannu i siapio'r syniadau drwy gymryd rhan yn yr arolwg (Ionawr-Mawrth 2017). Ers hynny mae cyflwyniadau a thrafodaethau wedi bod gyda'r gweithlu cyfan ym mis Chwefror 2017 ac ym mis Hydref 2017, eto i'w diweddarau ac i gasglu barn.

7.1.2 Mae'r Gwasanaeth Ieuenctid wedi cyfarfod gyda cynrychiolwyr o'r Undebau perthnasol er mwyn codi ymwybyddiaeth o'r adolygiad, y rhaglen ymgysylltu a'r ymgynghoriad cyhoeddus diweddaraf.

7.1.3. Gall penderfyniad y Cabinet i ail-fodelu'r Gwasanaeth Ieuenctid gael effaith ar hyd at 100 o staff rhan amser a 12 o staff llawn amser. Mae'r effaith hwn wedi ei gynnwys yn yr Asesiad Effaith Cydraddoldeb hefyd.

7.2 Goblygiadau Ariannol

7.2.1 Mae'r Cyngor wedi penderfynu torri £200,000 ynghyd a rhoi targed o £70,000 o arbedion ar gyllideb y Gwasanaeth Ieuenctid. Oherwydd yr angen i amserlennu'r newid er mwyn cyfarch y

lleihad hwn, mae'r Gwasanaeth Ieuenctid yn bwriadu gwireddu'r toriad / arbedion dros gyfnod o amser, fel a ganlyn:-

2017.18	2018.19	2019.20
116,000	89,000	65,000

7.2.2 Pe na bai'r Cabinet yn gallu dod i benderfyniad ar y cyfeiriad ar gyfer yr ail-fodelu ym mis Mawrth bydd hynny'n arwain at lithriad yn yr amserlen. Bydd y Gwasanaeth yn gorfario yn 2018.19.

7.3 Goblygiadau Eiddo

7.3.1 Mae'r Cyngor yn berchen 5 adeilad / canolfan Ieuenctid sydd yn cael eu rheoli gan y Gwasanaeth Ieuenctid. Caiff yr adeiladau eu defnyddio gan fwy nag un gwasanaeth. Mae'r Cyngor ar hyn o bryd yn marchnata Canolfan Ieuenctid Harlech i'w gwaredu. Mae'r Gwasanaeth Ieuenctid mewn trafodaethau gydag adrannau mewnol eraill ynghylch Canolfan Ieuenctid Penygroes, Maesgeirchen a Caernarfon. Mae'r Gwasanaeth mewn trafodaeth gyda'r gymuned ynghylch adeilad Cefnfaes yn Bethesda, a'r gymuned wedi cyflwyno Datganiad o Ddiddordeb ar gyfer trosglwyddo'r adeilad i reolaeth lleol. Bydd penderfyniad y Cabinet ar ddyfodol y Gwasanaeth yn dylanwadu ar asesiad y Datganiad o Ddiddordeb hwnnw.

7.3.2 Mae i'r Gwasanaeth Ieuenctid nifer o adeilad cymunedol eraill sydd wedi eu gosod ar brydles i Bwyllgorau Lleol. Ni fydd y penderfyniad ar gyfeiriad y Gwasanaeth i'r dyfodol yn newid y prydles hynny.

7.3.3 Mae'r Gwasanaeth Ieuenctid yn llogi 36 Neuadd Bentref a 3 neuadd ysgol ar gyfer cynnal clwb Ieuenctid. Mae'r Gwasanaeth Ieuenctid yn talu £25 y noson am y llogi. Mae rhai clybiau yn cael eu cynnal fwy nag un noson yr wythnos. Mae tua £34,000 o gyllideb y Gwasanaeth Ieuenctid ar hyn o bryd yn mynd i logi neuaddau. Mae'r Opsiwn a Ffafrir yn awgrymu symud i ffwrdd o redeg clybiau Ieuenctid i ddarparu rhaglen o weithgareddau a prosiectau. Byddai'r Gwasanaeth Ieuenctid angen llogi gofod mewn neuaddau pentref ar gyfer darparu rhaglen o weithgareddau a prosiectau. Byddai'r llogi am gyfnod llai, a gall fod oddi fewn i'r neuaddau yr ydym yn eu defnyddio ar hyn o bryd, ac mewn neuaddau nad ydym yn eu defnyddio ar hyn o bryd. Byddai llogi llefydd i gyfarfod yn ddibynnol ar y weithgaredd / prosiect, ac argaeledd lle cyfarfod yn lleol. Byddai cyllideb o tua £40k y flwyddyn wedi ei glustnodi ar gyfer llogi llefydd cyfarfod o dan yr opsiwn a ffafrir. Gall penderfyniad y Cabinet i ail-fodelu'r Gwasanaeth Ieuenctid gael effaith ar gynnalwydd rhai Neuaddau Pentref.

7.4 Goblygiadau ar y Mudiadau sy'n derbyn grant gan y Gwasanaeth Ieuenctid ar hyn o bryd.

- 7.4.1 Adnabu'r Cabinet fod i'r Opsiwn a ffafrir oblygiadau penodol i'r mudiadau hynny sy'n derbyn grant gan y Gwasanaeth Ieuenctid ar hyn o bryd, sef yr Urdd, Mudiad Ffermwyr Ifanc Eryri, Mudiad Ffermwyr Ifanc Meirionnydd. Roedd y Cabinet yn cydnabod cyfraniad y mae'r Urdd a'r Ffermwyr Ifanc yn ei wneud i ddiwylliant a'r Gymraeg yng Ngwynedd, i gymunedau ac i fywydau y bobl ifanc hynny sy'n aelodau.
- 7.4.2 Mae'r Opsiwn a Ffafrir yn awgrymu y dylai'r Cyngor ganolbwyntio ei adnoddau ar yr elfen 'gymorth ieuenctid' i'r dyfodol (fel y'i diffinnir yn 2.2 uchod). Awgryma'r Opsiwn a Ffafrir na ddylid parhau i roi grant i'r Urdd na'r Ffermwyr Ifanc tuag at gyflogi swyddogion i drefnu gweithgareddau. Awgryma'r Opsiwn a ffeifrir y dylai'r Gwasanaeth Ieuenctid gomisiynu gwaith ieuenctid gan fudiadau yn y sector wirfoddol (fel yr Urdd, Ffermwyr Ifanc ac eraill) yn ôl yr angen. Felly gofynnodd y Cabinet i'r Gwasanaeth wneud gwaith penodol gyda'r Urdd a Ffermwyr Ifanc i ddeall y goblygiadau hyn yn well, ac i ddeall sefyllfa'r mudiadau mewn siroedd eraill.
- 7.4.3 Cynhaliwyd cyfres o gyfarfodydd gyda'r mudiadau ers penderfyniad Her Gwynedd, ac yn benodol yn ystod yr ymgynghoriad cyhoeddus diweddaraf. Mae'r Cyngor hefyd wedi rhoi cefnogaeth drwy Raglen Arloesi Gwynedd Wledig i'r Mudiadau Ffermwyr Ifanc i'w cefnogi i edrych ar ffrydiau incwm, gwariant a'u sefyllfa ariannol, sefyllfa llywodraethu.
- 7.4.4 Yn gyffredinol mae'r mudiadau yn gweld her yn yr hyn a argymhellir yn yr Opsiwn a Ffafrir, ond hefyd yn gefnogol ac yn arddel parodrwydd i barhau i gydweithio gyda'i gilydd er lles pobl ifanc Gwynedd. Cafwyd adborth gan y mudiadau fod i drefn gomisiynu risgiau a heriau megis: yr angen am arbenigedd ac adnoddau i weinyddu cytundebau; diffyg sicrwydd o waith nac incwm, lleihad yn y gyllideb ar gyfer comisiynu o'i gymharu a lefel y grant presennol; cystadleuaeth mewn trefn gomisiynu ac felly dim gwarant o waith. Roedd y mudiadau yn gweld bod cyfleon iddyn nhw, a gallu ac arbenigeddau ganddynt i ddarparu rhai mathau o weithgareddau a phrosiectau, fel sydd wedi eu sgopio a'u hadnabod yn ystod yr adolygiad a'r ymgynghoriad, ond hefyd fod nifer o'r gweithgareddau / prosiectau y tu allan i'w diddordebau, eu gallu neu eu profiad.
- 7.4.5 Byddai dileu'r grant yn gyfan gwbl, fel yr awgrymir, yn cael effaith ar faterion cyflogaeth yn y tri mudiad.
- 7.4.6 Mae un mudiad wedi nodi y byddai'n ffafrio toriad yn eu grant yn hytrach na symud i drefn gomisiynu, a bod y toriad hwnnw yn adlewyrchu y % o doriad sy'n wynebu'r Gwasanaeth Ieuenctid.
- 7.4.7 Mae'r Gwasanaeth Ieuenctid, ar gais y Cabinet, wedi mapio cyfraniadau cynghorau eraill i'r mudiadau hyn tuag at waith ieuenctid. Mae gwybodaeth wedi ei dderbyn gan 17 cyngor, ac mae'n amrywio o ddim cefnogaeth ariannol o gwbl i'r unrhyw fudiad, i gefnogaeth i brosiectau penodol, cefnogaeth i gostau craidd yn unig.

Cefnogaeth Ariannol i'r Ffermwyr ifanc	5 o 17 Cyngor yn cefnogi	Cyfartaledd o £6,000
Cefnogaeth ariannol i'r Urdd	9 o 17 Cyngor yn cefnogi	Cyfartaledd o £9,000

8 Adolygu'r Opsiwn a Ffafrir.

8.1 Mae'r Ymgynghoriad wedi cadarnhau yr effeithiau sydd wedi ei adnabod eisoes yn yr asesiad effaith cydraddoldeb, ac ni adnabuwyd unrhyw effaith newydd.

8.2 Mae'r ymgynghoriad wedi dangos y gellid parhau gyda'r Opsiwn a Ffafrir (opsiwn 3) ond gyda'r newidiadau canlynol i ymateb i'r adborth diweddaraf o'r ymgynghoriad :-

Mater	Ymateb / Newid
Teithio / Pellter / Mynediad i'r gweithgareddau a phrosiectau	Sicrhau fod y Rhaglen o Weithgareddau a Phrosiectau yn symud yn ddigon rheolaidd; yn mynd i leoliadau cymunedol mewn pentrefi a threfi drwy'r sir; parhau i gynnig cludiant ar gyfer rhai prosiectau / gweithgareddau; trafod gyda Adran Addysg ac ysgolion unigol y defnydd o'r tocyn teithio i ddisgyblion i hwyluso teithio; parhau i ddisgwyl pobl ifanc i deithio i gael mynediad (fel sy'n digwydd ar hyn o bryd – cerdded, hebrwng gan deulu, ffrindiau). Bydd angen sicrhau amllder gweithgareddau a prosiectau mewn rhai cymunedau – fel sydd wedi eu hadnabod yn yr Asesiad Effaith Cydraddoldeb, oherwydd difreintedd.
Gwybodaeth / Marchnata / Hyrwyddo'r gweithgareddau	Mae hanner swydd wedi ei adnabod yn y Strwythur Staffio ar gyfer yr Opsiwn a Ffafrir ar gyfer dyletswyddau ymgysylltu digidol a marchnata. Uchafu'r defnydd o Trydar, Facebook, a cyfryngau digidol
Clybiau yn Cau	Mae'r Opsiwn a Ffafrir wedi adnabod adnodd staff i gefnogi ymdrech wirfoddol i sefydlu clybiau ieuenctid gwirfoddol lleol. Byddai angen hyrwyddo'r cynnig hwnnw. Yn ychwanegol dylai'r Gwasanaeth Ieuenctid yn y cyfamser hefyd gysylltu gyda pob cyngor cymuned i ofyn os oes diddordeb ganddynt ariannu parhad o'u Clwb Ieuenctid Lleol. Talu am noson o glwb ieuenctid yr wythnos a'r Gwasanaeth Ieuenctid yn ei ddarparu. Cost oddeutu £3,000 y flwyddyn.

	Dod i drefniadau ynghylch offer a cyfrifon y Clybiau leuenctid presennol a'u trosglwyddo i Glwb Gwirfoddol os y'i sefydlir, neu i fudiad / grŵp a gwerthoedd tebyg yn lleol.
Comisiynu	Parhau gyda'r gallu i gomisiynu gwaith yn nol yr angen. Yn hytrach na clustnodi % o'r gyllideb ar gyfer comisiynu, canolbwyntio ar ddefnyddio'r flwyddyn gyntaf i adnabod anghenion comisiynu, a sefydlu'r gyfundrefn ar y cyd gyda darparwyr posibl. Ac, oherwydd maint y newid i'r Urdd, Ffermwyr Ifanc a'r angen i roi rhybudd cymesur iddynt o'r newid, cynnig 30% o'r grant presennol iddynt am 2018-19 a 12 mis o rybudd fod y grant yn dod i ben erbyn 1af o Ebrill 2020.

9. Camau Nesaf ac Amserlen

9.1 Mae'r Aelod Cabinet yn awyddus i dderbyn sylwadau y Pwyllgor Craffu ar yr opsiwn a ffafir a'r camau sydd wedi eu dilyn i adnabod a llunio'r opsiwn.

9.2 Mae Grŵp o bedwar aelod o'r Pwyllgor Craffu Addysg ac Economi wedi cyfarfod gyda'r Gwasanaeth leuenctid i drafod ail-fodelu'r gwasanaeth. Mae sylwadau cychwynnol yr aelodau hyn wedi eu cynnwys yn Atodiad 5.

9.3 Bydd yr adroddiad yma yn cael ei chyflwyno i'r Cabinet gyda sylwadau'r Pwyllgor Craffu ar y 13eg o Fawrth. Byddwn yn gofyn i'r Cabinet gymeradwyo'r achos dros newid ynghyd a chymeradwyo'r Opsiwn a Ffafir wedi ei adolygu ar gyfer gweithredu'r ail-fodelu.

9.4 Os cymeradwyir yr argymhelliad yma ym mis Mawrth bwriedir defnyddio 2018.19 fel blwyddyn drosiannol i ddod a trefniadau presennol y Gwasanaeth leuenctid i ben a sefydlu'r Gwasanaeth ar ei newydd ffurf. Bydd y Gwasanaeth leuenctid ar ei newydd-wedd yn weithredol o'r 1af o Ebrill 2019 ymlaen.

11 Casgliadau

11.1 Un o brif gasgliadau'r gwaith yma yw na fedr y gwasanaeth barhau fel ag y mae yn wyneb yr heriau sydd o'i flaen.

11.2 Mae gwrthwynebiad cyffredinol i unrhyw newid i'r Gwasanaeth leuenctid, yn arbennig felly gan ddefnyddwyr presennol rhai Clybiau leuenctid ac gan rheiny sy'n elwa o'r grant sy'n mynd i'r Ffermwyr Ifanc.

11.3 Mae i bob opsiwn sydd wedi ei gyflwyno a'i drafod gan y Cabinet ei heriau a'i gyfleon ei hun. O'r opsiynau sydd ar gael, mae'r opsiwn sy'n cael ei argymhell erbyn hyn yn cynnig y ffordd orau ymlaen i Gyngor Gwynedd o ran ymateb i heriau'r Gwasanaeth Ieuenctid a pobl ifanc Gwynedd, ganfyddiadau'r Asesiad Effaith Cydraddoldeb, a gofynion Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol.

12. Atodiadau –

12.1 Atodiad 1 – Adroddiad Arolwg Gwasanaeth Ieuenctid

12.2 Atodiad 2- Asesiad Effaith Cydraddoldeb

12.3 Atodiad 3 – Asesiad Opsiynau

12.4 Atodiad 4 – Adroddiad yr Ymgynghoriad Cyhoeddus

12.5 Atodiad 5 – Sylwadau Cychwynnol y Craffwyr

Adolygiad Gwasanaeth Ieuenctid Cyngor Gwynedd

Cynnwys

1. Cyd-destun
2. Y Sefyllfa Bresennol
3. Pam Newid?
 - 3.1 Newid yn y cyd-destun
 - 3.2 Anghenion a Barn Pobl Ifanc Gwynedd
 - 3.3 Adnoddau a Chyllideb
4. Casgliadau.

Atodiadau

1. Cyd-destun.

1.1 Trwy y **Ddeddf Sgiliau a Dysgu 2000**, Adran 123(1), mae Gweinidogion Cymru wedi cyfeirio awdurdodau lleol i ddarparu, sicrhau darpariaeth o, neu gyfranogi yn y ddarpariaeth o wasanaethau cymorth ieuencid. Gweler Atodiad 1.

1.2 Mae Canllaw Statudol **“Ymestyn Hawliau : cynorthwyo pobl ifanc yng Nghymru 2001”** a’r cyfarwyddyd cysylltiedig (2001) yn gosod fframwaith ar gyfer sicrhau hawliau i bobl ifanc, a sicrhau trefniadau darparu gwasanaethau cymorth ieuencid a chyfrifoldebau yr awdurdod lleol. Gweler atodiad 2.

1.3 Mae ymestyn hawliau yn rhoi’r gofyn ar awdurdodau lleol i weithio mewn partneriaeth i sicrhau trefniadau cynllunio, darparu a chydlyn’r gwasanaethau cymorth ieuencid.

1.4 Mae arolygon awdurdodau addysg **ESTYN**, yn amlygu os yw’r trefniadau a wneir i weithredu “Ymestyn Hawliau” yn briodol; ac yn mesur os yw’r ddarpariaeth o Wasanaethau Cymorth Ieuencid oddi fewn i ardal yr awdurdod addysg hwnnw wedi ei gynllunio’n dda, ac o ansawdd.

1.5 Mae **Gwasanaethau Cymorth Ieuencid** yn gasgliad o wasanaethu a ddarperir gan y sector gyhoeddus a gwirfoddol; ac sy’n y mwyafrif o siroedd yn cynnwys gwasanaethau anogaeth ddysgu a chynhwysiad adrannau addysg, gwaith ieuencid gan wasanaethau ieuencid statudol a gwirfoddol, gwasanaethau ataliol ac adfer y timau cyfiawnder ieuencid, gweithgareddau ataliol Gwasanaethau cymdeithasol plant, gwasanaethau iechyd pobl ifanc y Byrddau Iechyd, gwasanaethau lletya a thai i bobl ifanc gan gymdeithasau tai ac elusennau, cyngor gyrfaol a chwilio am waith gan Gyrfa Cymru, cymdeithsau lles a myfyrwyr y colegau a’r prifysgolion, a gwasanaethau’r Ganolfan Fyd Gwaith; gwasanaethau cefnogaeth ac eiriolaeth gan elusennau megis Barnados, Action for Children, NSPCC.

1.6 Mae **Gwaith Ieuencid** a ddarperir gan Wasanaethau Ieuencid statudol, drwy awdurdodau lleol yn rhan o’r pecyn Gwasanaethau Cymorth Ieuencid ym mhob sir.

1.7 Mae **Gwaith Ieuencid** yn seiliedig yn bennaf ar berthynas wirfoddol rhwng pobl Ifanc a gweithwyr Ieuencid. Mae’r Gwasanaeth Ieuencid yng Ngwynedd yn darparu gweithwyr ieuencid wedi eu cymhwyso ar gyfer darparu gwaith ieuencid i bobl ifanc. Mae mynediad i’r gwasanaeth hwn yn hawl cyffredinol sydd ar gael i bob person Ifanc rhwng 11 a 25 oed.

1.8 Mae Gwaith Ieuencid yn parchu safbwyntiau a barn pobl Ifanc drwy eu cael nhw i gyfrannu at y gwaith o gynllunio, creu a sefydlu gwasanaethau a darpariaeth sydd yn diwallu eu anghenion a bodloni eu dyheadau. Mae’r ddarpariaeth yn dibynnu ar gyfranogiad pobl Ifanc gan ystyried eu gofynion, eu dymuniadau, eu diddordebau a’u dyheadau

1.9 Gweithwyr Ieuencid yw y cyswllt cyntaf i lawer iawn o bobl Ifanc yn eu cymunedau oherwydd eu gwaith mewn clybiau ieuencid, gwaith ymestyn allan a gwaith allan yn y cymunedau; ac oherwydd y berthynas sydd yn cael ei adeiladu gyda’r person Ifanc a rhanddeiliaid eraill. Mae Gwaith Ieuencid yn chwarae rol allweddol yn dargyfeirio pobl i Ifanc oddi wrth ymddygiad gwrthgymdeithasol ond yn bwysicach mae’n gwella sgiliau a dyheadau, annog barn mwy positif am bobl Ifanc ac yn cefnogi cydlynid cymdeithasol. Gweler Atodiad 3.

1.10 Yn hannu o'r Ddeddf Sgiliau a Dysgu 2000 mae Llywodraeth Cymru wedi rhyddhau canllawiau pellach i awdurdodau lleol i roi cyfeiriad i wasanaethau cymorth ieuencid ac i waith ieuencid. Mae **Strategaeth Ieuencid Llywodraeth Cymru 2014-2018** (Gweler Atodiad 4) yn ceisio rhoi cydnabyddiaeth i waith ieuencid gan nodi yr angen i weld y gwaith hwnnw yn parhau fel un strategol ac nid yn cael ei drin fel rhan o wasanaeth hamddena. Noda'r Strategaeth fod gwaith ieuencid da yn gallu gwella presenoldeb, ymddygiad, cymhelliant a pherthnasau o fewn ysgolion. Mae pwyslais y strategaeth yn rhoi rôl allweddol i waith ieuencid, a'r gweithwyr ieuencid sy'n ei ddarparu, i gefnogi pobl ifanc i aros mewn addysg, ac i barhau o fewn addysg neu hyfforddiant ffurfiol. Mae'r strategaeth yn adnabod tri maes lle dylai'r gwasanaethau ieuencid ganolbwyntio arno, sef:

- a) Mynediad at gyfleon dysgu anffurfiol a lled-ffurfiol sy'n ehangu'r gorwelion, herio meddwl a datblygu sgiliau drwy
 - Gyfrannu at gau'r bwlch mewn cyrhaeddiad addysgol
 - Parhau i leihau'r bobl ifanc sy'n NEET (ddim mewn addysg, hyfforddiant na gwaith) – o ganlyniad i ymyrriadau addysgol, iechyd, neu ymyrriadau cefnogol arall)
 - Cefnogi a chynorthwyo'r cyfnod o dyfu'n oedolyn
 - Brocera ar ran y person ifanc i'w symud o neu hi ymlaen at fwy o gefnogaeth arbenigol/benodol
- b) Cryfhau'r perthynas strategol rhwng gwaith ieuencid ac addysg ffurfiol
 - Gwaith ieuencid wedi ei dargedu, yn seiliedig ar weithio mewn partneriaeth i sicrhau allbynnau positif i bobl ifanc mewn addysg a hyfforddiant prif lif
 - Cyflwyno addysg bersonol, cymdeithasol a iechyd mewn ysgolion
- c) Cyd-lyniant gwell a mwy cyson o'r hyn mae gwasanaethau ieuencid yn gynnig i bobl ifanc drwy'r sector gwirfoddol a statudol, i leihau dyblygu, rhannu gwybodaeth a hyrwyddo gweithgareddau sy'n cynyddu capasiti, i gynnig gwasanaeth o ansawdd uchel sy'n ateb gofynnion cyfoes pobl ifanc.

1.11 Yn dilyn o'r strategaeth genedlaethol hon rhyddhawyd **Fframwaith Ymgysylltu a Chyflawniad Llywodraeth Cymru (2015-2018)** (Gweler Atodiad 5) er mwyn cynorthwyo i roi blaenoriaethau'r strategaeth ar waith oddi fewn i awudrodau lleol. Mae'r ddogfen yma yn nodi mai cyfrifoldebau yr Awdurdod Lleol yw cydlynu'r Fframwaith yn lleol a rhoi trefniadau mewn lle ar gyfer adnabo, brocera, tracio a darparu ar gyfer y bobl ifanc hynny sydd mewn perygl o ddadrithio o addysg, hyfforddiant neu waith, neu sydd eisoes wedi dadrithio o addysg, hyfforddiant neu waith. Mae'r Fframwaith yn dynodi rôl benodol i Wasanaethau Ieuencid y cynghorau gan nodi mai drwy'r gwasanaeth hwn y dylid defnyddio gweithwyr ieuencid i gyflawni'r rôl brocera ar gyfer pobl ifanc 16+ i'w cefnogi i barhau neu ail-gydio mewn addysg, hyfforddiant neu mewn gwaith.

1.12 Yn ategol, mi gyhoeddodd Llywodraeth Cymru **Siarter Gwaith Ieuencid Cymru (Mawrth 2016)** (gweler atodiad 6) er mwyn ceisio rhoi blaenoriaethu'r strategaeth genedlaethol ar waith, yn benodol ar gyfer ymateb i'r angen i gysoni y 'cynnig gwasanaeth ieuencid' i bobl ifanc drwy'r wlad. Mae'r Siarter yn nodi disgwyliadau sylfaenol Llywodraeth Cymru ar gyfer yr hyn y dylai gwaith ieuencid ei gynnig i bobl ifanc ledled Cymru. Mae'r siarter yn nodi y dylai bob person ifanc yr hawl i gael mynediad rhwydd trwy gyfrwng y Gymraeg neu'r Saesneg at:

- Fannau cyfarfod diogel, cynnes a chyflawn, sy'n cynnig cyfleoedd i ddatblygu perthnasoedd parhaus, gweithgareddau hamdden cyffrous ym meysydd celf a chwaraeon, a phrofiadau newydd a fydd yn ehangu eu gorwelion.
- Cyfleoedd i gyfranogi mewn antur awyr agored a phrofiadau preswyl a rhyngwladol.
- Cyfleoedd i gyfranogi yn y gwaith o wneud penderfyniadau trwy strwythurau anffurfiol a ffurfiol i ymgysylltu â phobl ifanc yn lleol ac yn genedlaethol (e.e. meiri ifanc, cynghorau ieuencid a'r Senedd). Dylai trefniadau o'r fath gyfeirio'n eglur at safonau cyfranogi; dylent fod yn seiliedig ar egwyddorion CCUHP; a dylent geisio ennyn diddordeb pobl ifanc yn y gwaith o lywio a chraffu ar y gwasanaethau sy'n effeithio arnynt.
- Gwybodaeth, arweiniad a chymorth ynghylch materion sy'n eu pryderu, yn cynnwys cyflogaeth, tai a lles meddyliol. Gellir defnyddio'r gwasanaeth trwy gyfrwng cyfryngau digidol a thrwy law oedolion dibynadwy a hyfforddedig.
- Anogaeth i ddysgu rhagor am eu diwylliant eu hunain a diwylliannau pobl eraill.
- Darpariaeth gydgyssylltiedig gan weithwyr ieuencid ym mhob ysgol uwchradd a choleg, ymestyn y 'cynnig i ddisgyblion' ac felly cyfoethogi'r cwricwlwm ffurfiol a chynorthwyo â datblygiad personol a chymdeithasol.
- Cyfleoedd i fod yn ymgyrchwyr dinesig e.e. trwy wirfoddoli.
- Cydnabod a /neu achrediad eu cyflawniadau o ran datblygiad personol a chymdeithasol mewn ysgolion a cholegau ac yn y gymuned hefyd.

1.13 Fodd bynnag ers cyhoeddi'r strategaeth genedlaethol mae Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi **Arolwg Dichonolrwydd ar Wasanaethau Ieuencid Cymru (Mehefin 2015)** i ymateb i'r newidiadau heriol sydd wedi gwynebu'r sector gwaith ieuencid a gwasanaethau ieuencid oherwydd effeithiau toriadau ariannol. Mae'r arolwg yn ystyried opsiynau ar gyfer modelau darparu i waith ieuencid. Cynigir 4 model i'r dyfodol, sef:

- Cadw at y drefn **bresennol** hefo rhai mân newidiadau;
- Darparu gwasanaeth mewn consortia rhanbarthol
- Tynnu arian gwasanaethau ieuencid o'r RSG a chreu Gwasanaeth Ieuencid Cenedlaethol
- Y Model Albanaidd – corff annibynnol strategol yn rhoi arweiniad i wasanaethau ond darpariaeth yn aros yn y siroedd unigol.

1.14 Nid yw Llywodraeth Cymru ar hyn o bryd yn cynllunio i ymateb i argymhellion yr arolwg hwn (gweler atodiad 7).

1.15 Yn ystod 2016 cynhaliodd Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, Cynulliad Llywodraeth Cymru ymcwiliad i adolygu effeithiolrwydd strategaeth a pholisi Llywodraeth Cymru o ran gwaith ieuencid. Cynhaliwyd ymgynghoriad cyhoeddus gan y Pwyllgor ar y materion a ganlyn:

- Mynediad pobl ifanc i wasanaethau gwaith ieuencid;
- Pa mor effeithiol yw strategaeth a pholisi Llywodraeth Cymru ar waith ieuencid;
- Cyllid ar gyfer gwaith ieuencid (Awdurdod Lleol, Llywodraeth Cymru, Ewrop, Trydydd Sector);

1.16 Cyhoeddodd y Pwyllgor ganlyniadau'r ymchwiliad **Pa fath o wasanaeth ieuencid y mae Cymru ei eisiau?** (Rhagfyr 2016) (gweler atodiad 8) yn cyflwyno 10 o argymhellion i Lywodraeth Cymru. Prif negeseuon yr ymchwiliad oedd yr her oedd yn wynebu'r Llywodraeth i gynllunio i sicrhau gwasanaethau ieuencid cyson, o ansawdd, dwyieithog, agored ledled Cymru yn wyneb y toriadau a'r dirywiad sydd eisoes wedi digwydd. Mae'r Gweinidg cyfrifol, Alun Davies, wedi ymateb gan gyhoeddi ym mis Ebrill 2017 y bydd yn adolygu canllaw statudol Ymestyn Hawliau yn ystod 2017-18,

a fydd yn arwian at adolygu a chynhyrchu Strategaeth leuenctid newydd ar gyfer y cyfnod 2018-19 ymlaen.

2. Y sefyllfa Bresennol.

2.1 Mae **Gwasanaethau Cymorth Ieuenctid yng Ngwynedd** yn bartneriaeth o ddarpariaeth eang sy'n annog, galluogi, cynorthwyo pobl ifanc 11-25 oed i fanteisio'n effeithiol mewn addysg neu hyfforddiant, fanteisio ar gyfer cyfleoedd ar gyfer cyflogaeth a/neu i chwarae rhan effeithiol ac yn gyfrifol ym mywydau eu cymunedau.

2.2 Mae pobl ifanc yn derbyn Gwasanaethau Cymorth Ieuenctid yng Ngwynedd gan nifer o fudiadau gwahanol. Mae Cyngor Gwynedd yn rhan o'r rhwydwaith hwnnw, ac yn cydnabod fod iddo rôl a chyfraniad fel y partneriaid eraill i'r agenda ehangach.

2.3 Mae pobl ifanc wrth iddynt dyfu i fyny i gyd yn wynebu cyfnodau anodd, heriol, cyffrous a newydd yn eu bywydau. Bydd bob person ifanc yn ymateb i'r heriau hyn yn wahanol i'w gilydd, ac ar brydiau bydd rhai ohonynt angen anogaeth, cefnogaeth neu gymorth i ddelio gyda'r materion amrywiol hyn. Mae'r Gwasanaethau Cymorth Ieuenctid i gyd yn cyfrannu tuag at gynnal pobl ifanc drwy'r cyfnod hwnnw o'u harddegau i oedolion.

2.4 Mae Gwasanaethau Cymorth Ieuenctid yn Ngwynedd ar gael i unrhyw berson ifanc 11-25 oed ac yn cynnwys y canlynol :

Gwasanaeth Gwybodaeth (Gwynedd-Ni)
Gwasanaethau Iechyd
Gwasanaeth Ieuenctid
Gwasanaeth Teithio a Chludiant
Gwasanaethau Addysg ac Astudio (gan gynnwys ysgolion, lles myfyrwyr, cyngor gyrfa)
Gwasanaethau Tai a Lletya

2.5 A pan fydd person ifanc angen ychydig bach mwy o gymorth mae nifer o wasanaethau a mudiadau all gynnig cymorth arbenigol iddynt fel rhan o'r pecyn Gwasanaethau Cymorth Ieuenctid megis:-

Gwasanaethau Plant
Gwasanaethau Cyfiawnder a'r Heddlu
Gwasanaethau Incwm a Budd-daliadau
Barnados, Childline, NSPCC a llawer mwy.

2.6 Mae pobl ifanc wrth dyfu i fyny hefyd yn ymddiddori mewn diddordebau penodol, yn dewis cymdeithasu gyda'u cyfoedion ac yn annibynnol o'u rhieni, eu gwarchodwyr a'u teuluoedd. Mae yng Ngwynedd nifer fawr o weithgareddau, clybiau, cymdeithasau ar gyfer pobl ifanc drwy'r sir sy'n tynnu pobl ifanc at ei gilydd i fwynhau y pethau hynny sydd yn eu diddori, megis clybiau chwaraeon amrywiol, corau, grwpiau celfyddydol, aelwydydd yr Urdd, Clybiau Ieuenctid Capeli ac Eglwysi, cadetiaid, Clybiau Ffermwyr Ifanc ac ati.

2.7 Mae cyfraniad Cyngor Gwynedd i'r pecyn o wasanaethau cymorth ieuenctid yn cynnwys:

- gweithlu sy'n rhoi cefnogaeth i bobl ifanc gyda dysgu ffurfiol (ee anogwyr dysgu, mentoriaid, swyddogion presenoldeb ac ymddygiad), a dysgu anffurfiol (ee gweithwyr ieuenctid, gweithwyr cefnogol Gwasanaethau Plant, gweithwyr cyfiawnder ieuenctid) ac i fod yn rhan o gymdeithas (gweithwyr ieuenctid, gweithwyr cyfiawnder ieuenctid ayyb),
- darparu gweithgareddu a phrosiectau i annog pobl ifanc i ddysgu (ee TRAC, Ad-TRAC), i ddatblygu sgiliau (ee Llwyddo'n Lleol, Clybiau Gwaith, Ciriw Celf, Sgwad Sgwennu , Cynllun

Profiad Gwaith Ôl-Ofal, ayyb), ac i ddatblygu sgiliau a chyfrannu tuag at eu cymunedau (ee gwaith ieuenctid, cynllun GwirVol, cynllun Gwirfoddolwyr y Mileniwm ayyb),

- darparu cyfleusterau a gweithlu i hamddena, cymdeithasu ac ymarfer corfforol (gwasanaeth gwybodaeth, canolfannau hamdden, caeau chwarae, llyfrgelloedd, neuaddau pentref, canolfannau ieuenctid, swyddogion chwaraeon, gweithwyr ieuenctid, grantiau i 3ydd sector yr Urdd, CFFI, Geidiaid a Sgowtiaid).

2.8 Mae'r **Gwaith Ieuenctid** a ddarperir gan Weithwyr Ieuenctid, Gwasanaeth Ieuenctid y Cyngor yn cyfrannu at y gefnogaeth, y gweithgareddau a'r cyfleusterau sy'n rhan o'r pecyn hwn.

2.9 Nododd adroddiad arolwg diwethaf ESTYN o wasanaethau addysg Cyngor Gwynedd yn 2013 fod "y gwasanaeth ieuenctid wedi llwyddo'n dda i gynyddu nifer y bobl ifanc sy'n cyflawni unedau neu gymwysterau achrededig, ac o ran hyrwyddo prentisiaethau, entrepreneuriaeth a llwybrau dysgu. Yn gyffredinol, mae'r gwasanaeth wedi'i drefnu yn dda, a chaiff dysgwyr eu cefnogi'n effeithiol". Bryd hynny nodwyd fod "nifer o bartneriaethau sefydledig yn cyfrannu'n helaeth at y profiadau sy'n cael eu cynnig i blant a phobl ifanc, gan gynnwys partneriaethau o fewn y cyngor a phartneriaethau'r cyngor gyda'r bwrdd iechyd, y gwasanaethau cymdeithasol, yr heddlu, gwasanaethau cymorth ieuenctid a darparwyr addysg a hyfforddiant" a dynnwyd ynghyd o dan y Bartneriaeth Plant a Phobl Ifanc. (Gweler Atodiad 9).

2.10 Darpariaeth Gwasanaeth Ieuenctid y Cyngor.

2.10.1 Mae **Gwasanaeth Ieuenctid y Cyngor** yn darparu gwaith ieuenctid i unrhyw berson ifanc 11-25 oed yng Ngwynedd. Mae'r Gwasanaeth Ieuenctid yn darparu'r canlynol ar hyn o bryd:

2.10.2 Clybiau Ieuenctid (MANYLION 2016-17)

Mae'r Gwasanaeth yn darparu 42 o glybiau ieuenctid sydd ar agor rhwng 1 a 5 noson yr wythnos am 30 wythnos yn y tymor ysgol, gyda 10 clwb yn cael 7 wythnos ychwanegol yn tymor yr haf.

Mae'r Clybiau i gyd yn datblygu ei rhaglen ei hun o weithgareddau, digwyddiadau a prosiectau yn seiliedig ar ddymuniadau'r aelodau. Mae cynnwys ac ystod y rhaglenni yn amrywio drwy'r sir. Mae'r Clybiau hefyd yn darparu gofod cymdeithasol i bobl ifanc gymdeithasu a'i gilydd. Caiff y clybiau eu cynnal gan 142 o weithwyr ieuenctid sy'n gweithio ar sail sesiynau.

Mae gan y Gwasanaeth eiddo ei hun ar gyfer lleoliadau y clybiau canlynol :

- Canolfan Ieuenctid Penrallt, Caernarfon
- Canolfan Ieuenctid Maesgeirchen
- Canolfan Ieuenctid Cefnfaes, Bethesda
- Canolfan Ieuenctid Dyffryn Nantlle , Penygroes
- Canolfan Ieuenctid Harlech

Mae'r Gwasanaeth yn llogi gofod pwrpasol mewn adeiladau eraill ar gyfer defnydd 'exclusive' i'r Clwb Ieuenctid yn y lleoliadau canlynol:-

- Canolfan Hamdden Bermo
- Canolfan Gymdeithasol Blaenau Ffestiniog

- Canolfan Hamdden Dolgellau
- Canolfan Frondeg Pwllheli

Mae'r Gwasanaeth yn llogi gofod mewn adeiladau cymunedol eraill ar gyfer gweddill o'r 34 clwb.

Mae gan y Gwasanaeth 4 bws mini, (2 yn Arfon, 1 yn Meirionnydd ac 1 yn Dwyfor) ar gyfer cludo pobl ifanc ar gyfer gweithgareddau.

2.10.3 Gwaith Datblygu Achrediadau.

Mae'r Cyngor yn cydnabod dysgu aelodau y gwasanaeth drwy achrediadau / cymhwysterau. Mae'r Llywodraeth yn mesur effaith Gwasanaethau Ieuenctid drwy droesi y cysylltiadau y caiff Gwasanaethau Ieuenctid gyda pobl ifanc i achrediadau cenedlaethol a/neu achrediadau lleol (gweler adran canlyniadau ac effaith isod).

Mae Gwynedd yn cynnig yr achrediadau canlynol yn rhan o'i darpariaeth:-

Gwbor Dug Caeredin / Agored Cymru / Arweinyddiaeth Mewn Chwaraeon / Gwobrwyon
Cyflawniad Ieuenctid (Achrediadau cenedlaethol)
John Muir / Prifysgol Plant (achrediadau lleol)

2.10.4 Hyfforddiant

Nid yw'r Gwasanaeth Ieuenctid ar hyn o bryd yn darparu hyfforddiant Gwaith Ieuenctid (Lefel 3) ar gyfer Gweithwyr Ieuenctid y Sir (rheiny a gyflogir gan y Cyngor neu gan fudiad arall) ers 2015-16 tra yn adolygu'r gwasanaeth.

2.10.5 Ymestyn Allan (MANYLION 2016-17)

Mae gan y Gwasanaeth 1 Bws Ieuenctid sydd wedi ymweld gyda 16 cymuned; wedi ymgysylltu gyda 230 o bobl ifanc 11-25 ac wedi darparu prosiectau sydd wedi arwian at bobl ifanc yn cwblhau 76 achrediad.

2.10.6 Gwaith Ieuenctid a Chymuned (MANYLION 2016-17)

Mae gan y Gwasanaeth 5x Gweithiwr Ieuenctid a Chymuned sydd wedi cefnogi 359 o bobl ifanc sydd wedi eu hadnabod fel unigolion mewn risg neu nad ydynt mewn addysg, hyfforddiant na gwaith. Mae'r gweithwyr wedi darparu ystod eang o brosiectau amrywiol sydd wedi arwain at bobl ifanc yn ennill 214 achrediad.

2.10.7 Gweithgareddau Ieuenctid y Sector Wirfoddol (MANYLION 2016-17)

Mae gan y Gwasanaeth 2x Cytundeb Lefel Gwasanaeth gwerth £34,210 yr un (Urdd Meirionnydd ac Eryri a CFFI Meirionnydd ac Eryri).

Mae'r CLG hyn yn rhoi grant i'r mudiadau tuag at eu costau craidd i gyflogi swyddogion datblygu i gynnal clybiau / aelwydydd ar draws y sir; darparu gweithgareddau i bobl ifanc (tripiâu, ymweliadau, digwyddiadau etc.

Mae gan y Gwasanaeth 1x Comisiwn Alldeithiau Gwobr Dug Caeredin gwerth £10,000. (Urdd sy'n darparu ar hyn o bryd).

2.11 Cyllideb

2.11.1 Roedd Cyllideb y Gwasanaeth fel a ganlyn ar gyfer 2016-17

Cyllideb (dan reolaeth)	£995,300
Prif benawdau gwaraint –	
Rheolaeth	242,890
Clybiau leuenctid	641,570
Grantiau 3ydd Sector	76,640
Achrediadau a Chymwysterau	34,200

2.12 Staffio

2.12.1 Mae Strwythur staffio y Gwasanaeth leuenctid presennol yn cynnwys:

- 1 FTE x Rheolwr Gwasanaeth
- 2 FTE x Uwch-Weithiwr leuenctid
- 1 FTE x Swyddog leuenctid
- 142 x Arweinyddion ac Is-arweinyddion Clybiau rhan amser (19 FTE)
- 1 swydd weinyddol llawn amser
- 2 x Swydd Weinyddol rhan amser (1FTE)


2.12.2 Yn ychwanegol i'r staff craidd uchod mae'r swyddi canlynol yn rhan o staffio'r gwasanaeth drwy grantiau:-

- 4 FTE x Gweithiwr leuenctid a Chymuned (Grant Llywodraeth Cymru)


2.13 Perfformiad


2.13.1 Caiff perfformiad Gwasanaeth leuenctid ei fesur yn flynyddol drwy awdit a gyflwynir i Lywodraeth Cymru. Caiff gwasanaethau leuenctid eu mesur ar y canlynol:-

2.13.2 Mynediad Gwasanaeth. Mae'r mesurydd hwn yn mesur faint o bobl ifanc sy'n defnyddio'r gwasanaeth.




2.13.3 Effeithiolrwydd. Mae'r mesurydd hwn yn trosi'r cyswllt gyda person ifanc i bobl ifanc sy'n ennill achrediadau, sef ffordd o fesur y dysgu anffurfiol sy'n digwydd drwy'r Gwasanaeth.





2.13.4 Gwerth am arian. Mae'r mesurydd hwn yn dangos beth yw cost darparu'r gwasanaeth fesul pen o'r boblogaeth oedran.



2.13.5 Cynnal Gweithlu. Mae'r mesurydd hwn yn adlewyrchu mynediad y boblogaeth oedran i weithwyr ieuencid proffesiynol.

Cyfradd gweithiwr ieuencid i bobl ifanc

2012-13	1 : 1022
2013-14	1 : 1086
2014-15	1 : 1034
2015-16	1 : 1303
2016-17	1 : 1563

2.14 Gwerthuso

2.14.1 Yn ychwanegol i'r data perfformiad yma mae'r Gwasanaeth Ieuencid yn casglu data ar effaith yr ymyrraeth ar bobl ifanc drwy werthusiadau o brosiectau penodol.

Er enghraifft : Prosiect Parodrwydd i Waith yn Ardal Cymunedau'n Gyntaf,

Grwp Defnyddwyr: - Pobl Ifanc di-waith 16-24 oed o ardaloedd difreintiedig Cymunedau'n Gyntaf.	
Ymdrech • Rhedeg 4 cwrs Parodrwydd i Waith • Cynnal 40 sesiwn yn rhan o'r cwrs. • Cyrraedd 30 unigolyn o'r grwp defnyddwyr.	Mesuryddion Ansawdd • 100% o'r defnyddwyr yn dod o'r grwp targed • 80% o'r defnyddwyr yn nodi fod y cwrs o fudd iddynt • 100% o'r sesiynau wedi eu cynnal fel y cynlluniwyd
Effaith – Pwy sydd wedi elwa? (meintiol) • 34 wedi ymgysylltu gyda'r prosiect • 10 wedi mynd i waith • 4 mewn hyfforddiant • 2 yn gwirfoddoli • 23 wedi cwblhau achrediad perthnasol i fyd gwaith	Effaith –Pwy sydd wedi elwa (ansawdd) • 47% o'r bobl ifanc wedi symud i ganlyniad positif • 67% o'r bobl ifanc wedi datblygu ey sgiliau ac ennill achrediad

2.14.2 Mae'r Gwasanaeth Ieuencid hefyd yn casglu adborth a sylwadau gan ddefnyddwyr gwasanaeth yn ystod gwerthusiadau blynyddol o'r gwasanaeth, megis:-

'I was involved with the school youth work project through out year 10 and 11. In this time i completed a level 1 B-TEC in work skills which involved doing a lot of practical stuff like working with the National Trust, creating a community garden in the school as well as doing my Bronze Duke of Edinburgh Award. I had the opportunity to try Kayaking, Canoeing, indoor climbing and Navigation skills as a part of my award. I loved these activities and i has helped me be more confident as well as developing my team work skills. The expedition part of the award was brilliant and an experience that i will never forget. The youth worker helped me in other ways by listening and helping me deal

with problems. I have since Joined the youth group has made me more confident in myself and helped me get to know different people.'

MR 16

'I have been a member of Pwllheli youth club since the age of 12 it was a positive experience because there was lots of opportunities to communicate with different people and there was chances to be involved in different activities and get accreditation. I became a volunteer in the club at 16 and it gave me a good understanding what it's like to work in that sort of environment under the different circumstances and seeing how those issues got dealt with. I gained a lot of experience and it has given me the confidence to pursue a career working with people with mental health and substance misuse problems.'

EM 17

"Roedd un aelod wedi bod yn boenus ofndawy gyda sefyllfa ariannol adref ac y sefyllfa roedd hyn wedi greu. Wrth ddatgan eu bryder, llawer o bethau eraill yn dod i'r wyneb. O ganlyniad wedi gallu eu gynorthwyo gyda'r coleg o ran grant EMA (nad oedd yn wybodol ohono) ac hefyd y gwasanaeth cwnswela. O ganlyniad yr aelod wedi codi eu hyder ac yn ymwybodol o'r cefnogaeth sydd ar gael iddo- "swm i byth yn gwybod am yr holl bethau yma oni bai am y clwb ieuenctid" "**Arweinydd Clwb**

"Pan ddechreuodd Chloie yn y clwb roedd yn byw ar ddiet o siwgwr a caniau energy bob amser roeddech yn ei gweld. Drwy wneud gwaith gyda hi am fwydydd iach, a sut i goginio pethau megis spageti fe ddechreuodd feddwl am beth oedd yn ei fwyta. Erbyn hyn nid yw yn cymeryd siwgr mewn te, nac yn yfed energy drinks ag yn meddwl ddwywaith cyn prynu siocled yn y siop. Mae'n gallu cysgu lawer iawn gwell erbyn hyn." **Arweinydd Clwb**

2.14.3 Yn rhan o gylch cynllunio y Gwasanaeth Ieuenctid mae'r PRIF fmaterion isod wedi eu hadnabod o'r Dadansoddiad SWOT a'r asesiad risg o'r Gwasanaeth Presennol:-

Cryfderau	Gwendidau
Gwasanaethu nifer uchel o bobl ifanc	Dim yn cyrraedd pawb – presenoldeb y gwasanaeth wedi ei gyfyngu i leoliadau clybiau yn unig.
Presenoldeb ar draws y sir	
Gwasanaeth ar agor i bawb	Dim mynediad i gyfarch anghenion pobl ifanc – mae argaeledd y gwasanaeth a mynediad i weithiwr ieuenctid wedi ei gyfyngu i oriau clybiau yn unig. Nid oes modd i berson ifanc gael cefnogaeth y tu allan i'r clwb.
Bodlonrwydd denfyddwyr o'r gwasanaeth yn uchel	Rhai pobl ifanc fregus sydd angen cefnogaeth ychwanegol ddim yn elwa o waith ieuenctid.
Gweithlu wedi eu hyfforddi i arbennigo mewn rhai meysydd.	Diffyg capasiti canolog i reoli y niferoedd o glybiau a staff rhan amser
Y ddarpariaeth agored i bawb yn sicrhau 'rhwyd' o ddarpariaeth gyffredinol i ymateb i faterion ieuchyd a lles / ymddygiadau pobl ifanc generig.	

Gweithgareddau cymdeithasol ar gael i bobl ifanc. Mannau diogel i bobl ifanc gwrdd	Dibyniaeth ar gyllideb craidd ac ychydig iawn o dargedu grantiau allanol. Dibyniaeth ar weithlu sesiynol yn golygu anghysondebau mewn be sydd ar gael; ac ansawdd beth sydd ar gael i bobl ifanc. Diffyg ymwybyddiaeth ymysg partneriaid o'r hyn all y Gwasanaeth / Gweithwyr Ieuenctid ei ddarparu. Diffyg dealltwriaeth gyffredinol o'r maes gwaith ieuenctid. Diffyg defnydd o dechnoleg yn y gwasanaeth i ddal fyny gyda tueddiadau pobl ifanc o gyfryngau amrywiol.
Bygythiadau	Cyfleon
Cyllideb yn lleihau (£270k o ostyngiad) Diffyg capasiti yn y gwasanaeth i ddarparu hyfforddiant gwaith ieuenctid i'r Sir Methu ag ymateb i newid mewn anghenion pobl ifanc. Gofynion cofrestru gweithwyr ieuenctid gyda'r Cyngor Dysgu.	Datblygu rôl brocera Gweithwyr Ieuenctid (Fframwaith Ymgysylltu) Pecynnu cwricwlwm y gwasanaeth ieuenctid fel cyfraniad i addysg a'i gynnig i ysgolion (Strategaeth Gwaith Ieuenctid) Targedu grantiau allanol ac ymchwilio i gyfleon drwy ERASMUS, RDP, ESF, LOTERI Wledig

3. Pam Newid?

3.1 **Neiwd yn y Cyd-destun.**

3.1.1 Mae'r Gwasanaeth Ieuenctid yn darparu oddi fewn i gyd-destun ehangach y gwasanaethau cymorth ieuenctid ac fel sydd wedi ei nodi yn adran 1 uchod mae'r cyd-destun cenedlaethol hwnnw yn newid. Mae nifer o'r ffactorau sy'n gyrru'r newid hwnnw hefyd ar waith yn lleol, megis y newid yn anghenion pobl ifanc, y toriadau sydd wedi effeithio ar bartneriaid eraill yn y maes, a bygythiad i'r adnoddau a roddir i ddarpariaeth gwaith ieuenctid i'r dyfodol.

3.1.2 Yn sgil cyhoeddi'r Strategaeth Gwaith Ieuenctid a'r Fframwaith Ymgysylltu gwelir fod gwaith y Gwasanaeth Ieuenctid yn ymwneud fwy fwy gyda grwp o ddefnyddwyr gwasanaeth sy'n draddodiadol yn cael eu cefnogi gan y Gwasanaethau Statudol (Addysg, Gwasanaethau Plant a Gwasanaethau Cyfiawnder). Yn ategol i hyn mae cyfundrefn arbedion a thoriadau y Cyngor wedi gorfodi'r gwasanaethau hyn hefyd i edrych ar eu balenoriaethu a'u cyfeiriad i'r dyfodol, ac yn sgil cwtogiad mewn cyllidebau mae peth lleihad wedi bod yn eu cyfraniad i'r pecyn o Wasanaethau Cymorth Ieuenctid.

3.1.3 Cynhaliwyd diwrnod o ymgynghori gyda partneriaid mewnol (Addysg, Gwasanaethau Plant, Gwasanaeth Ieuenctid a'r Gwasanaeth Cyfiawnder) yn Nant Gwtheyrn ar y 30ain o Ebrill 2015 i gychwyn trafod opsiynau ar gyfer cyfeiriad y Gwasanaeth Ieuenctid i'r dyfodol (Gweler atodiad 10). Sefydlwyd Grwp Strategol Ymgysylltiad Pobl Ifanc yn dilyn hynny i barhau gyda'r cyswllt rhwng y prif wasanaethau sy'n ymwneud a chymorth ieuenctid ac ymgysylltiad pobl ifanc ar draws adrannau'r Cyngor. Mae'r trafodaethau ynglyn a cyfeiriad y Gwasanaeth Ieuenctid wedi parhau gyda'r partneriaid mewnol hyn yn ystod 2015-17, ac wedi adnabod :

- Bod y Gwasanaethau Statudol yn gweld rôl i'r Gwasanaeth Ieuenctid mewn atal plant a pobl ifanc rhag cyrraedd eu darpariaeth nhwy.
- Bod gan y Gwasanaeth Ieuenctid rhywbeth unigryw i'w gynnig i gleientiaid y gwasanaethau statudol sy'n gallu cael ei ddarparu o berspectif y plentyn / person ifanc (yn hytrach na darparu beth sydd yn gorfod cael ei wneud yn unol a threfniadau gorchymynion llys neu gynllun gofal etc)
- Bod cyfle i'r Gwasanaeth Ieuenctid fod yn darparu ymyrraethau ar ran y gwasanaethau statudol er mwyn cefnogi RHAi grwpiau o bobl ifanc fregus.
- Bod gan y Gwasanaeth Ieuenctid rôl i gefnogi plant / pobl ifanc pan ddaw ymyrraeth y gwasanaeth statudol i ben i'w cefnogi mewn cyfnod trosiannol (oherwydd bod yr unigolyn yn cyrraedd oed gadael, neu oherwydd nad ydynt bellach yn cyrraedd trothwyon derbyn y gwasanaeth ond dal yn fregus).
- Bod gan y Gwasanaeth Ieuenctid, yn wahanol i'r gwasanaethau statudol, y berthynas wirfoddol gyda'r unigolyn.

3.1.4 Yn ystod yr un cyfnod mae'r Gwasanaeth Ieuenctid wedi bod yn ymgysylltu gyda partneriaid yn y sector wirfoddol yn gasglu barn ar gyfeiriad y gwasanaeth i'r dyfodol. Mae cyfarfodydd unigol wedi eu cynnal gyda'r Urdd a Ffermwyr Ifanc gydol 2016-17, ac mae gweithdy penodol wedi ei gynnal gyda Partneriaid allanol yn rhan o'r **Ymarferiad Ymgysylltu** (Hydref 2016 – Mawrth 2017). Gwahoddwyd cynrychiolaeth o aelodaeth y Grŵp Cymorth Ieuenctid a arferai gyfarfod o dan y Bartneriaeth Plant a Phobl Ifanc yn 2010-2013. Gweler atodiad 10.

3.1.5 Y Prif Negesuon gan bartneriaid allanol oedd:

- Newid wedi bod yn yr hyn mae'r partneriaid yn ei ddarparu dros y blynyddoedd diwethaf, a bod lleihad wedi bod a bygythiad i adnoddau i'r dyfodol.
- Angen cadw cydbwysedd rhwng mynediad agored a gwaith wedi ei dargedu
- Parhau i gynnig datblygu sgiliau pobl ifanc, yn enwedig sgiliau nad ydynt yn eu hennill drwy addysg, a hefyd edrych ar ddinasyddiaeth a llais pobl ifanc.
- Angen defnyddio sgiliau ac arbenigedd partneriaid i gael y gorau i bobl ifanc – angen ystyried comisiynu'r 3ydd sector i wneud y cwbwl, gwneud rhannau, neu i ganolbwyntio ar yr elfen cymdeithasol. Gall y sector weithio gyda'i gilydd i osgoi dyblygu.
- Amrywiaeth tal aelodaeth a ffi am gymryd rhan yn cau rhai pobol ifanc allan.
- Pobl ifanc angen dewis o ddarpariaeth, rhai ddim eisiau bod yn aelod o glwb, o'r urdd, ffermwyr ifanc etc

3.2 Newid yn anghenion Pobl Ifanc

3.2.1 Mae anghenion pobl ifanc Gwynedd yn newid ac bydd angen i'r Gwasanaeth Ieuencid fod yn ymateb i'r bobl ifanc sydd yn y sir a beth yw eu hanghenion. Er mwyn deall y demograffi oedran hwn mae'r Gwasanaeth Ieuencid gyda chefnogaeth yr Uned Ymchwil a Dadansoddeg wedi llunio proffil o bobl ifanc Gwynedd.

Pobl Ifanc 11-25 oed Gwynedd

Mae cyfradd uwch o bobl ifanc 11-25 oed yng Ngwynedd (20.2%) o'i gymharu a CHymru (18.7%) yn ôl yr amcangyfrif canol blwyddyn 2014.

Mae gan Arfon y cyfradd uchaf o'r grwp oedran yma (25.5%) nad yw'n annisgwyl oherwydd y Brifysgol a'r boblogaeth fyfyrwr uchel yn nalgylch Bangor.

Mae wardiau Menai (80.8%) a Deiniol (63.9%) gyda'r crynadau uchaf o'r boblogaeth 11-25 oed yn y sir. Y tu allan i ganol dinas Bangor (a dalgylch y Brifysgol) ma'r crynadau uchaf o bobl ifanc 11-25 oed i'w gweld ym Marchog, (21.3%), Peblig (20.7%), Deiniolen (19.1%), Bowydd a Rhiw a Cadnant (18.8%). Ar ei isaf mae % sylweddol is na'r cyfartaledd sirol o bobl ifanc 11-25 oed i'w canfod yn Aberdyfi (10.9%), Dyffryn Ardudwy (11.5%) a Gorllewin Porthmadog (11.7%).

Addysg, Sgiliau a Gwaith Pobl Ifanc Gwynedd

Mae cyflawniad disgyblion Gwynedd i gyrraedd lefel 5 Cyfnod Allweddol 3 a Lefelau 1,2 a 3 Cyfnod Allweddol 4 yn dda, ac yn well na'r cyfartaledd cenedlaethol. Fodd bynnag mae'r gyfradd yn gostwng ym mhob ysgol uwchradd ymysg y disgyblion hynny sy'n derbyn cinio ysgol am ddim.

Mae cyrchfannau disgyblion blwyddyn 11 yn dangos bod cynnydd yn y nifer o bobl ifanc sydd yn gadael ysgolion uwchradd ac yn ymgysylltu mewn addysg/cyflogaeth/hyfforddiant ac lleihad yn y nifer o bobl ifanc NEET yn 16 oed.

	2007	2008	2009	2010	2011	2012`	2013	2014
Gwynedd	4.4	5.7	4.2	3.6	3.6	3.0	2.4	1.7
Cymru	6.9	7.1	5.7	5.4	4.4	4.2	3.7	3.1

Mae hynt pobl ifanc 16-18 oed yng Ngwynedd yn cael ei gasglu gan Gyrfa Cymru yn unol a'r diffiniadau 5 Haen y Fframwaith Ymgysylltu Ieuentid (gweler adran 2 uchod). Rhwng Mai 2014 a Mai 2015 roedd hynt pobl ifanc 16-18oed fel a ganlyn:-

Haen 1 - Anhysbys	Haen 2 – Ddim ar gael / methu	Haen 3 – Dim mewn AHG	Haen 4 – mewn AHG ond mewn pergyl	Haen 5 mewn AHG
128	80	365	498	1597

Mae'r ffigyrau yn gyffredinol gadarnhaol iawn ond fod dadansoddiad o unigolion Haen 2 yn adnabod y prif grwpiau bregus o bobl ifanc sef pobl ifanc a ieuchyd meddwl dwys, anabledau dysgu, ac pobl ifanc sy'n gadael gofal. Mae rhwystrau y bobl ifanc hyn yn gymhleth iawn ac yn eu rhwystro rhag symud i addysg , hyfforddiant neu waith.

Mae nifer y bobl ifanc 18-24 oed di-waith sy'n hawlio Budd-Dal Ceisio am waith yng Ngwynedd (25.1%) yn uwch na'r cyfartaledd cenedlaethol (24.8%), ac yn arbennig ymysg merched.

Mae 3,991 o bobl ifanc 16-24 oed yn economaidd anweithgar yn y sir, gyda % uchel o'r rhain yn anweithgar oherwydd eu bod yn fyfyrwyr, fodd bynnag mae 16% ohonynt yn anweithgar oherwydd cyfrifoldebau gofalu, salwch a/neu anabled.

Iechyd a Lles Pobl Ifanc Gwynedd

Mae prinder ystadegau ar gyfer y grwp oedran 11-25 er mwyn deall anghenion iechyd a lles y boblogaeth. Mae'r mwyafrif llethol o ystadegau iechyd yn cael eu casglu ar gyfer y grwp oedran 0-24 oed. Fodd bynnag mae gwaith Llywodraeth Cymru ar ymddygiadau pobl ifanc oedran ysgol (11-16 oed) yn nalgylch awdurdod iechyd Betsi Cadwaladr yn 2013-14 yn dangos

- Bechgyn yn fwy tebygol na merched i fwyta brecwast dyddiol
- Bechgyn yn ymgymryd a ymarfer corff yn fwy rheolaidd na merched
- Bechgyn yn fwy tebygol o fod yn dew / ordewn na merched
- Cyfradd ysmygu ymysg pobl ifanc yn cynnyddu yn Blwyddyn 11 (ysmygu oleiaf un waith yr wythnos) a'r un patrwm yn wir am e:sigarennau. Cyfraddau yn cynnyddu gyda pobl ifanc o gefndiroedd tlawd ac ymysg merched.
- Cyfradd yfed alcohol yn dilyn yr patrwm ag ysmygu, sef yn cynnydd yn Blwyddyn 11, ond yn fwy amlwg ymysg pobl ifanc o gefndiroedd fwy cefnog ac ymysg merched.
- Canabis yw'r cyffur fwyaf cyffredin i'w ddefnyddio ymysg rhai 11-16 oed, gyda cyfraddau cymryd cyffuriau yn cynyddu erbyn blwyddyn 11.
- Pobl Ifnac yn adrodd gostyngiad yn y gefnogaeth emosiynol a'r help sydd a r'gael iddynt fel maent yn tyfu (rhieni, athrawon a ffrindiau)
- Pobl ifanc yn adordd fod gwaith ysgol yn bwysau iddynt yn cynyddu ym mlynnyddoedd 10 a 11.
- Pobl ifanc yn adordd fod bwlio yn lleihau yn gyffredinol ar ôl blwyddyn 9.


Cyfartaledd beichiogrwydd ymysg y grwp oedran o dan 18 (28.3%) oed yn uwch na'r cyfartaledd cenedlaethol (27%) , ond yn debyg ar gyfer y grwp oedran o dan 16 oed (5%) ac yn is ar gyfer y grwp oedran o dan 20 oed (39%).

80 o bobl ifanc 16-24 oed yn 2014-15 wedi eu derbyn yn ddigartref o gymharu a 120 o rai 25 oed a throsodd.


O ran troseddu ymysg pobl ifanc yn 2014-15 roedd patrwm troseddu Gwynedd a Mon yn debyg iawn i'r patrwm cenedlaethol gyda 48 o bobl ifanc 10-17 oed yn debryn ymyrraeth y Tim Cyfiawnder Ieuenctid oherwydd troseddu o 'violence against persons' a 43 yn sgil dwyn / handling. Roedd hyn yn arbennig o wir ymysg y grwpiau oedran 14-17 oed ac ymysg bechgyn. Roedd 'criminal damage' yn drosedd amlycaf ymysg y grwp oedran 10-14 oed ymysg bechgyn.

3.2.2 Mae'r Gwasanaeth wedi bod yn gwrandao ar farn pobl ifanc ynglyn a'r gwasanaeth y maent yn ei dderbyn drwy gynnal gwerthusiadau blynyddol gyda phob clwb ieuenctid a cynnal holiadur bodlonrwydd cwsmer gyda aelodau o'r gwasanaeth. Mae'r Gwasanaeth hefyd wedi bod yn ymgysylltu gyda pobl ifanc nad ydynt yn aelodau o'r gwasanaeth ieuenctid drwy'r Ymarferiad Ymgysylltu (Hydref 2016 – Mawrth 2017) i gasglu barn ar ddyfodol y Gwasanaeth Ieuenctid.


3.2.3 Nodir isod grynodeb o'r adborth a'r farn a gasglwyd gan aelodau'r Gwasanaeth Ieuenctid ar y ddarpariaeth. (Gwerthusiadau 2014-15)



"Pa gyfleoedd hoffet ti weld y Gwasanaeth Ieuenctid yn ei gynneg i chdi?"



"Beth wyt ti wedi ei ddysgu o fod yn aelod o'r Gwasanaeth Ieuenctid yn ystod y flwyddyn?"



3.2.4 Cynhaliwyd ymarferiad ymgysylltu (Hydref 2016-Mawrth 2017) i adnabod / cadarnhau blaenoriaethau ar gyfer y gwasanaeth ieuenctid i'r dyfodol (gweler atodiad 10). Casgliadau'r Ymarferiad Ymgysylltu hwnnw gyda pobl ifanc oedd :-

- Ei bod hi'n bwysig i bobl ifanc gael cyfleoedd i gymdeithasu drwy'r Gwasanaeth Ieuenctid; drwy sicrhau rhywle saff i bobl ifanc ddod at ei gilydd; drwy waith prosiect; drwy gystadlaethau a thripiâu amrywiol.

- Ei bod hi'n bwysig i weithiwr ieuencid fod ar gael i helpu pobl ifanc gyda phethau all eu heffeithio wrth iddynt dyfu fyny; yn arbennig i ddelio gyda theimladau, delio gyda bwlio, defnyddio'r we yn ddiogel.
- Ei bod yn bwysig i'r Gwasanaeth Ieuencid helpu pobl ifanc i ddatblygu sgiliau all eu helpu gyda'u addysg, neu eu paratoi ar gyfer gwaith; a canolbwyntio ar ddatblygu sgiliau sy'n eu helpu i ddysgu megis sgiliau cyfathrebu, megis sgiliau bywyd, gweithio mewn tîm, achub bywyd.
- Dylai pobl ifanc gael mynediad at weithiwr ieuencid yng Ngwynedd yn bennaf drwy'r ysgol, a drwy drefnu lleydd cyfarfod i bobl ifanc mewn lleoliadau penodol mewn cymunedau
- Dylai'r cyswllt gyda gweithiwr ieuencid fod drwy gyfuniad o o gefnogaeth wyneb yn wyneb a drwy ddefnyddio technoleg gwybodaeth
- Dylai pobl ifanc gyfrannu yn ariannol tuag at rai gweithgareddau penodol
- Mae'n deg disgwyl i berson ifanc deithio i gymryd rhan mewn gweithgareddau ieuencid – hyd at 10 milltir
- Dylai'r Gwasanaeth Ieuencid fod ar gael drwy gydol y flwyddyn
- Dylai person ifanc dderbyn cymorth a chefnogaeth ar adegau ac amseroedd sy'n gyfleus iddyn nhw.

3.3 Newid mewn Adnoddau a Chyllid.

3.3.1 Oherwydd bod y Cyngor yn derbyn llai o arian gan Lywodraeth Cymru i ddarparu gwasanaeth mae Rhaglenni Arbedion a Thoriadau Cyngor Gwynedd ers 2011 wedi arwain at leihad yng ngyllidebau ar draws gwasanaethau'r awdurdod.

3.3.2 Yn ystod **Rhaglen Cyfundrefn Arbedion 2011-2015** gwiredwyd yr arbedion canlynol yn y Gwasanaeth Ieuencid

Opsiwn / Cynnig	Disgrifiad		Gwiredwyd yn
1	Rhesymoli trefniadau eiddo ac adeiladau gwerth £12,525	Cynnig Arbedion a gymeradwywyd gan y Cabinet	2014/15
2	Dileu tanwariant hanesyddol (£5,000)	Cynnig Arbedion a gymeradwywyd gan y Cabinet	2013/14
3	Rhesymoli trefniadau gofalu a glanhau (£15,000)	Cynnig Arbedion a gymeradwywyd gan y Cabinet	2014/15

3.3.3 Yn ystod **Rhaglen Cyfundrefn Arbedion 2014-2018** gwiredwyd yr arbedion canlynol yn y Gwasanaeth Ieuencid.

Opsiwn	Disgrifiad		Gwiredwyd
--------	------------	--	-----------

1	Rhesymoli trefniadau eiddo ac adeiladau gwerth £30k	Cynnig Arbedion a gymeradwywyd gan y Cabinet	2015/16
2	Dileu swyddi gwag a'r rhwydwaith gweithwyr ieuenctid ysgolion £40k	Cynnig Arbedion a gymeradwywyd gan y Cabinet	2015/16

3.3.4 Cyflwynodd y Gwasanaeth Ieuenctid y cynigion toriadau canlynol ar gyfer ymgynghori a hwy gyda'r cyhoedd drwy broses **Her Gwynedd 2015-2018**, sef :

Opsiwn / Cynnig	Disgrifiad
1	Dileu Grantiau 3ydd sector (£70,000)
2	Dileu'r Gwasanaeth Ieuenctid (£819,000)
3	Cau 30 o glybiau ieuenctid (cadw 19) (£200,000)
4	Cau 42 o glybiau ieuenctid (cadw 7) (£300,000)
5	Dileu'r clybiau i gyd a symud i waith wedi ei dargedu yn unig a ddarperir gan unedau gwasanaeth eraill. (£600,000)

3.3.5 Yn seiliedig ar yr adborth a thrafodaethau gan Gabinet Cyngor Gwynedd a gan y Cyngor Llawn (3ydd o Fawrth 2016), y penderfyniad oedd:-

“Yn hytrach na'r cynnig gwreiddiol o gau 30 allan o'r 42 Clwb Ieuenctid, y dylid newid y cynllun dan sylw i wireddu'r arbediad toriadau o £200,000 (ynghyd a'r arbediad effeithlonrwydd disgwylidig o £70,000) drwy ail ddylunio'r Gwasanaeth Ieuenctid a chan dderbyn y bydd angen ystyried y grantiau i fudiadau ieuenctid fel rhan o'r holl adolygiad”.

3.3.6 Nodir yr ymatebion a gafwyd i'r cynigion toriadau ar gyfer y Gwasanaeth Ieuenctid a phenderfyniad y Cyngor yn atodiad 11

3.3.7 Un o'r prif heriau gweithredol i'r gwasanaeth ieuenctid ar hyn o bryd (fel sydd wedi ei adnabod o Asesiad Risg Blynyddol y Gwasanaeth) yw'r ddibyniaeth ar recriwtio, hyfforddi, cynnal, goruchwyllo a gweinyddu gweithlu sesiynol. Mae bron i 100 aelod o staff yn darparu'r rhwydwaith clybiau ac yn gweithio rhwng 3 awr yr wythnos a 9 awr yr wythnos.

3.3.8 Nid yw'r Gwasanaeth yn gallu denu pobl newydd i'r gweithlu. Nid oes capasiti yn y gwasanaeth i hyfforddi gweithlu newydd. Mae'r sefyllfa hon wedi arwian eisoes at gau rhai clybiau a cwtogi nifer y nosweithiau y cynhelir y Clybiau gan nad oes digon o staff cymwys ar gael i'w cynnal.

3.3.9 Oherwydd dibyniaeth y Gwasanaeth ar weithlu sesiynol nid yw'r strwythur presennol yn caniatáu amser nac adnoddau i dargedu a manteisio ar gyfleon grantiau, nac ychwaith yn caniatáu i'r Gwasanaeth gyd-ddarparu ymyraethau gyda partneriaid.

4 Casgliadau'r Adolygiad: -

4.1 Nad yw'r Gwasanaeth leuenctid bellach yn addas i bwrpas, a bod angen mynd ati i ail-ddylunio'r Gwasanaeth er mwyn ymateb i'r heriau, sef

- Gallu ymateb i'r hyn sy'n bwysig i bobl ifanc.
- Gallu ymateb i'r newid yn y cyd-destun polisi / strategol
- Gallu ymateb i Dueddiadau y Boblogaeth
- Gallu recriwtio a chynnal gweithlu
- Gallu cyfarch y Gyllideb

4.2 Bod i'r Gwasanaeth leuenctid rôl fel partner allweddol i, a chyfraniad allweddol i'w wneud i'r pecyn ehangach o Wasanaethau Cymorth leuenctid yn y sir.

4.3 Y Dylai'r Gwasanaeth leuenctid i'r dyfodol ganolbwyntio ar helpu pobl ifanc i ddysgu a datblygu eu sgiliau personol, cymdeithasol ac addysgol mewn cyd-destun anffurfiol – er mwyn sicrhau eu bod yn ymwneud yn llawn gyda'u haddysg neu hyfforddiant, wedi eu paratoi ar gyfer fyd gwaith, neu yn gallu cymryd rhan lawn a chyfrifol yn mywyd eu cymunedau.

4.4 Y dylai'r adolygiad lywio y blaenoriaethau ar gyfer :

Adnabod opsiynau ar gyfer yr ail-fodelu

Asesu'r opsiynau yn erbyn meini prawf (sef eu gallu i ymateb i'r heriau sydd wedi eu hadnabod yn yr adolygiad)

Cwblhau asesiad effaith cydraddoldeb cychwynnol,

Ymgynghori ar yr Opsiynau

Ymateb i'r adborth drwy addasu'r Opsiwn a Ffafrir a ddiweddarau'r Asesiad Effaith Cydraddoldeb

Atodiadau

Atodiad 1	Deddf Dysgu a Sgiliau 2000 (adran 123) http://www.legislation.gov.uk/cy/ukpga/2000/21/contents
Atodiad 2	Canllaw Statudol “Ymestyn Hawliau” http://gov.wales/topics/educationandskills/skillsandtraining/youth-work/extending-entitlement-support-for-11-to-25-year-olds-in-wales/?lang=cy
Atodiad 3	Gwaith Ieuenctid yng Ngymru: Egwyddorion a Dibenion http://wlga.cymru/youth-service
Atodiad 4	Strategaeth Gwaith Ieuenctid Gendlaethol Cymru 2014-2018 http://gov.wales/docs/dcells/publications/140417-national-youth-work-strategy-cy.pdf
Atodiad 5	Fframwaith Ymgysylltu a Datblygu Ieuenctid http://gov.wales/docs/dcells/publications/131007-ye-framework-implementation-plan-cy.pdf
Atodiad 6	Siarter Gwaith Ieuenctid Cymru (Mawrth 2016) http://gov.wales/about/cabinet/cabinetstatements/previous-administration/2016/youthcharter/?skip=1&lang=cy
Atodiad 7	Arolwg Dichonolrwydd ar Wasanaethau Ieuenctid Cymru (Mehefin 2015) (i'w gyhoeddi)
Atodiad 8	Ymchwiliad “Pa fath o wasanaeth ieuenctid y mae Cymru ei eisiau?” Cynulliad Cymru (Ebrill 2017) http://www.cynulliad.cymru/SiteCollectionDocuments/youth-work-draft-report-cy.pdf#search=gwasanaethau%20ieuenctid
Atodiad 9	“Adroddiad arolwg ansawdd gwasanaethau addysg” ESTYN (Mawrth 2013) https://www.estyn.llyw.cymru/sites/default/files/documents/Adroddiad%20arolygiad%20Cyngor%20Gwynedd%202013_0.pdf.pdf.pdf.pdf.pdf.pdf.pdf
Atodiad 10	Adroddiad Ymarferiad Ymgysylltu (Hydref 2016 – Mawrth 2017). https://www.gwynedd.llyw.cymru/cy/Cyngor/Dogfennau-Cyngor/Dewud-eich-dweud/Gwasanaeth-ieuenctid---Taflen-adrodd-yn-ol-Cymraeg.pdf
Atodiad 11	Canlyniadau Her Gwynedd 2015-2018. https://www.gwynedd.llyw.cymru/cy/Cyngor/Dweud-eich-dweud/Canlyniadau-ymgyngoriadau/Her-Gwynedd.aspx

Asesiad Effaith Cydraddoldeb

I Manylion

I.1 Beth yw enw'r polisi / gwasanaeth dan sylw

Ail Fodelu y Gwasanaeth Ieuenctid

I.2 Beth ydi pwrpas y polisi/gwasanaeth sy'n cael ei greu neu ei newid

Mae darparu gwasanaeth cymorth ieuenctid yn ofyniad statudol yn unol a Deddf Dysgu a Sgiliau 2000.

Mae'r Gwasanaeth Ieuenctid yn darparu cymorth ieuenctid, i bobl ifanc 11-25 oed. Yn bresennol mae'r gwasanaeth yn darparu'r cymorth hwnnw drwy weithwyr ieuenctid yn cynnal gweithgareddau a phrosiectau ar draws y rhwydwaith o glybiau ieuenctid yn y sir.

Golygai penderfyniad Her Gwynedd (Mawrth 2016) fod toriad o £200,000 ynghyd a tharged effeithlonrwydd o £70,000 i gyllideb y Gwasanaeth.

Mae adolygiad o'r Gwasanaeth yn y cyd-destun ariannol hwn yn adnabod opsiynau ar gyfer ail-fodelu'r gwasanaeth i'r dyfodol.

Mae 4 opsiwn i'w ystyried, ymgynghori arno.

Opsiwn 1	Dal i ddarparu yr un peth ond gwneud llai ohono (dim ond rhedeg 12 clwb ieuenctid) a llai o grantiau i'r trydydd sector).
Opsiwn 2	Dal i ddarparu yr un peth ond gwneud llai ohono (dim ond rhedeg 14 clwb ieuenctid) a peidio rhoi grantiau i'r trydydd sector.
Opsiwn 3	Darparu mewn ffordd wahanol, sef Rhaglen o Weithgareddau a Phrosiectau sy'n symud o leoliad i leoliad drwy'r sir, a chomisiynu gweithgareddau a phrosiectau penodol gan partneriaid allanol.
Opsiwn 4	Darparu mewn ffordd wahanol, sef Rhaglen o Weithgareddau a Phrosiectau sy'n symud o leoliad i leoliad drwy'r sir, a creu grant cymunedol i fudiadau'r trydydd sector i ddarparu gweithgareddau pobl ifanc.

I.3 Pwy sy'n gyfrifol am yr asesiad yma?

Nia Morris – Rheolwr Gwasanaeth Ieuenctid

1.4 Pryd wnaethoch chi gychwyn yr asesiad? Pa fersiwn yw hwn?

Dyddiad Cychwyn - 1 Mai 2016
Diweddarwyd - 19.5.17

Bydd yn cael ei ddatblygu ymhellach yn dilyn yr ymgynghoriad ac yn ôl yr angen
Diweddarwyd – 05.01.18

i'w ddiweddarau eto yn dilyn Pwyllgor Craffu a Cabinet

2) Gweithredu

2.1 Pwy yw'r partneriaid fydd yn rhaid gweithio hefo nhw i wneud yr asesiad yma?

Pobl ifanc (defnyddwyr y gwasanaeth presennol a pobl ifanc nad ydynt yn defnyddio'r gwasanaeth)
Staff llawn a rhan amser y Gwasanaeth leuenctid,
Partneriaid mewn Gwasanaethau eraill yn y Cyngor (ee Addysg, Gwasanaethau Plant a Theuluoedd, Gwasanaeth Cyfiawnder leuenctid,)
Partneriaid mewn Asiantaethau eraill (ee Llywodraeth Cymru, Gyrfa Cymru, Grŵp Llandrillo-Menai, Gisda)
Trydydd Sector (yn benodol y mudiadau hynny sy'n derbyn grant oddi wrth y Gwasanaeth leuenctid sef yr Urdd a'r Ffermwyr Ifanc, Sgowntiaid a'r Geidiaid).
Penaethiaid Ysgolion Uwchradd.

2.2 Pa gamau ydych chi wedi ei gymryd i ymgysylltu gyda pobl hefo nodweddion cydraddoldeb?

Mae'r Gwasanaeth leuenctid yn casglu barn a chael mewnbwn pobl ifanc i'r hyn maent eisiau gan y Gwasanaeth leuenctid yng Ngwynedd yn rheolaidd a thrwy gyfryngau amrywiol.

Rhwng Medi a Hydref 2015 bu'r Cyngor yn ymgynghori ar gynigion toriadau trwy "Her Gwynedd", a cyflwynwyd 5 cynnig ar gyfer y Gwasanaeth leuenctid i gasglu adborth gan y cyhoedd (gweler linc isod 2.3).

Yn flynyddol mae y Gwasanaeth leuenctid yn gwerthuso ei ddarpariaeth bresennol ac yn hwyluso mewnbwn ei ddefnyddwyr, y bobl ifanc eu hunain i'r broses hon. Mae'r bobl ifanc yn cwblhau holiadur er mwyn sicrhau casglu barn aelodau am eu profiad o'r gwasanaeth. Cwblhawyd y Gwerthusiad diwethaf yn dilyn blwyddyn Clybiau 2015-16, felly dosbarthwyd yr holiaduron a'u casglu yn ystod Chwefror– Mawrth 2016, a'u dadansoddi ym Mai-Mehefin 2016.

Rhwng Hydref 2016 a Mawrth 2017 bu'r Gwasanaeth leuenctid, trwy Uned Gyfathrebu y

Cyngor, yn ymgysylltu gyda pobl ifanc ac eraill trwy gyfarfodydd wyneb yn wyneb a thrwy holiaduron (gweler adroddiad isod 2.3) i adnabod blaenoriaethau ac anghenion ar gyfer y Gwasanaeth Ieuencid i'r dyfodol.

2.3 Beth oedd canlyniad yr ymgysylltu?

2.3.1 Rhaglen Ymgynghori Her Gwynedd 2015- 2018

Wrth geisio barn y cyhoedd ar doriadau ar draws y Cyngor roedd plant a pobl ifanc yn cael y cyfle i ddatgan eu barn ar yr oll o'r 118 cynigion a gyflwynwyd.

Gweler canlyniadau yr holl gynigion isod :-

<https://www.gwynedd.llyw.cymru/cy/Cyngor/Dweud-eich-dweud/Canlyniadau-ymgynghoriadau/Her-Gwynedd.aspx>

Cyflwynwyd 5 cynnig ar gyfer newid y Gwasanaeth Ieuencid yn yr ymgynghoriad hwn.

Derbyniwyd sylwadau gan 152 o ymatebwyr ar gyfer gwarchod cynlluniau yn y maes Plant a Phobl Ifanc. Roedd y nifer uchaf o sylwadau ym maes plant a phobl ifanc (51) yn erbyn torri grantiau ieuencid. O'r rhain, enwodd 46 Clwb Ffermwyr Ifanc yn benodol, ac enwodd 8 yr Urdd.

23% eisiau gwarchod y grantiau ieuencid

46.8% eisiau gwarchod y Gwasanaeth Ieuencid a peidio a gweithredu'r toriad mwyaf.

2.3.2 Dadansoddiad Holiaduron Clybiau Ieuencid 15.16

Ymatebodd 315 o bobl ifanc yr holiadur.

96% yn hapus gyda'r gwasanaeth

89% yn gwybod beth oedd yn cael ei gynnig gan y gwasanaeth

Pan ofynnwyd "Beth wyt ti'n ei hoffi am y Clwb?" nododd 232 mai cymdeithasu/gwneud ffrindiau a 194 mai gweithgareddau dysgu sgiliau.

84% o bobl ifanc yn dweud eu bod wedi cael mynegi eu barn ar beth oedd y Clwb yn ei wneud

97% o bobl ifanc yn nodi bod y gweithwyr yn gwrando arnynt

95% o bobl ifanc yn teimlo'n ddiogel yn trafod pethau personol sensitif gyda'r staff

Chwaraeon, Gweithgareddau Dysgu Sgiliau a Tripiâu oedd y 3 prif gyfleoedd y dymunent ei gael

31% nodi mai parch / hunan barch oedd y prif beth iddynt ddysgu, a 29% yn nodi mai gwell addysg iechyd a iechyd rhyw ydoedd

2.3.3 Rhaglen Ymgysylltu y Gwasanaeth Ieuencid – Hydref 2016 i Mawrth 2017.

Rhannwyd yr ymarferiad ymgysylltu i 2 ran:-

- Rhan 1 – Ymgysylltu wedi ei dargedu (Hydref 2016 – Ionawr 2017) a oedd yn cynnwys:

51 o Bobl ifanc 11-16 oed ar draws y sir

13 person ifanc gyda anghenion dysgu ychwanegol (Ysgol Hafod Lon)

84 o'r gweithlu rhan amser

11 o'r gweithlu llawn amser

7 cynrychiolydd o asiantaethau sy'n cefnogi pobl ifanc

14 pennaeth ysgol

- Rhan 2 – Ymgysylltiad agored (Ionawr 2017 – Mawrth 2017) a oedd yn cynnwys derbyn ymatebion gan :

791 o holiaduron wedi eu cwblhau.

Nodir isod y Prif Negeseuon a gafwyd yn dilyn y rhaglen ymgysylltu;

<https://www.gwynedd.llyw.cymru/cy/Cyngor/Dogfennau-Cyngor/Dewud-eich-dweud/Gwasanaeth-leuenctid---Taflen-adrodd-yn-ol-Cymraeg.pdf>

Nodir isod rhai o'r sylwadau a dderbyniwyd yn ystod yr ymarferiad ymgysylltu:

- “Mae'r Gwasanaeth yn gwneud cyfraniad pwysig i'r gymdeithas ac i fywydau pobl ifanc”
- “I think that it is vital that Youth Services are maintained as helping the young people is a serious and positive investment for the future”
- “More things to do in the area for teenagers would be great”
- “In this rural area transport is not plentiful, if they have to travel independantly, and not all parents will take and fetch. This is something to be considered. The times of trains, around the coast and how they will get home safely. To travel 10 miles may not be so simple, if they can't get home.”
- “Utilise school equipment out of school hours such as technical and engineering to give youngsters a basic idea of what can be involved to show them how govt. forms can affect their future.”
- “Does dim sôn yma am gyfrwng iaith a phwysigrwydd bod pobl ifanc yn cael mynediad i wybodaeth a gweithgareddau trwy gyfrwng y Gymraeg. Rhaid sicrhau bod unrhyw hyfforddiant yn cael ei gynnig drwy gyfrwng y Gymraeg er mwyn paratoi y bobl ifanc at waith.”
- “O bosib cael mwy o weithgareddau chwaraeon”
- “Mae angen cysondeb ar draws y Sir”
- Service should be flexible and tailored to individual needs eg the questions above – reasonable financial contribution and travel distances differ with each young persons circumstances”
- Mae'n rhaid i fudiad Ffermwyr Ifanc gael yr arian, neu fe fydd cefn gwlad ar goll, ac yn dirywio”
- It is important to attend different Youth Services regularly to learn about life skills and different themes of educational purposes”
- The Youth Service is an integral part of the community...by having this front line service

it can prevent many issues...it provides young people a safe place to socialise and grow and often can be a sanctuary from home”

- “Any expected financial contribution should be means tested”
- “On one hand I do think that young people should contribute financially towards some activities. However, if a young person hasn’t got any money or for some reason they can’t afford to pay to go to a club I think there should be schemes set in place to help them with the costs and to get them into clubs and out of the streets picking up bad habits such as smoking and drugs”

2.4 Ar sail pa dystiolaeth arall ydych chi’n gweithredu?

2.4.1 Y Cyd-destun Deddfwriaethol:-

Deddf Sgiliau a Dysgu 2000.

Trwy y Ddeddf Sgiliau a Dysgu 2000, Adran 123(1), mae Gweinidogion Cymru wedi cyfeirio awdurdodau lleol i ddarparu, sicrhau darpariaeth o, neu gyfranogi yn y ddarpariaeth o wasanaethau cefnogi ieuencid.

Adroddiad Arolwg Estyn ar Wasanaethau Cymorth Ieuencid.

Yn yr arolwg diwethaf o wasanaethau addysg Cyngor Gwynedd yn 2013 roedd y ddarpariaeth gan y Gwasanaeth Ieuencid yn cyfrannu yn bennaf tuag at hyrwyddo cynhwysiad cymdeithasol a lles plant a phobl ifanc Gwynedd. Nododd yr adroddiad arolwg yn benodol fod “y gwasanaeth ieuencid wedi llwyddo’n dda i gynyddu nifer y bobl ifanc sy’n cyflawni unedau neu gymwysterau achrededig, ac o ran hyrwyddo prentisiaethau, entrepreneuriaeth a llwybrau dysgu. Yn gyffredinol, mae’r gwasanaeth wedi’i drefnu yn dda, a chaiff dysgwyr eu cefnogi’n effeithiol”.

2.4.2 Y Cyfeiriad Strategol a Pholisi gan Lywodraeth Cymru

Nodir isod gofynion y prif strategaethau a pholisïau sy cyfeirio Cyngor Gwynedd ar sut / beth i’w ddarparu ar gyfer pobl ifanc.

Strategaeth Ieuencid Llywodraeth Cymru 2014-2018.

Cydnabyddir yr angen i weld y gwasanaeth yn parhau fel un strategol ac nid yn rhan o wasanaeth hamdden. Mae gwaith ieuencid da yn gallu gwella presenoldeb, ymddygiad, cymhelliant a pherthnasau o fewn ysgolion. O fewn y strategaeth mae yna bwyslais yn awr ar roi rôl allweddol i weithwyr ieuencid i gefnogi pobl ifanc i barhau mewn ymgysylltiad hefo addysg, a pharhau o fewn addysg neu hyfforddiant ffurfiol. Mae’r strategaeth yn adnabod tri maes lle dylai’r gwasanaeth ganolbwyntio, sef:

- a) Mynediad at gyfleon dysgu anffurfiol a lled-ffurfiol sy’n ehangu’r gorwelion, herio

meddwl a datblygu sgiliau drwy

- b) Cryfhau'r perthynas strategol rhwng gwaith ieuenctid ac addysg ffurfiol
- c) Cydlyniant gwell a mwy cyson o'r hyn mae gwasanaethau ieuenctid yn gynnig i bobl ifanc drwy'r sector gwirfoddol a statudol, i leihau dyblygu, rhannu gwybodaeth a hyrwyddo gweithgareddau sy'n cynyddu capasiti, i gynnig gwasanaeth o ansawdd uchel sy'n ateb gofynion cyfoes pobl ifanc.

Fframwaith Ymgysylltu a Chyflawniad Llywodraeth Cymru (2015-2018)

Mae'r ddogfen yma eto yn adnabod rôl allweddol i Wasanaethau Ieuenctid i sicrhau bod pobl ifanc 16+ yn parhau mewn addysg, hyfforddiant neu mewn gwaith.

Siarter Gwaith Ieuenctid Cymru (Mawrth 2016)

Mae'r Siarter yn nodi disgwyliad sylfaenol Llywodraeth Cymru ar gyfer gwaith ieuenctid i bobl ifanc ledled Cymru. Mae'r siarter yn nodi bydd gan bob person ifanc hawl i gael mynediad rhwydd trwy gyfrwng y Gymraeg neu'r Saesneg at:

- Fannau cyfarfod diogel, cynnes a chyflawn, sy'n cynnig cyfleoedd i ddatblygu perthnasoedd parhaus, gweithgareddau hamdden cyffrous ym meysydd celf a chwaraeon, a phrofiadau newydd a fydd yn ehangu eu gorwelion.
- Cyfleoedd i gyfranogi mewn antur awyr agored a phrofiadau preswyl a rhyngwladol.
- Cyfleoedd i gyfranogi yn y gwaith o wneud penderfyniadau trwy strwythurau anffurfiol a ffurfiol i ymgysylltu â phobl ifanc yn lleol ac yn genedlaethol (e.e. meiri ifanc, cyngorau ieuenctid a'r Senedd). Dylai trefniadau o'r fath gyfeirio'n eglur at safonau cyfranogi; dylent fod yn seiliedig ar egwyddorion Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau Plentyn (CUHP); a dylent geisio ennyn diddordeb pobl ifanc yn y gwaith o lywio a chraffu ar y gwasanaethau sy'n effeithio arnynt.
- Gwybodaeth, arweiniad a chymorth ynghylch materion sy'n eu pryderu, yn cynnwys cyflogaeth, tai a lles meddyliol. Gellir defnyddio'r gwasanaeth trwy gyfrwng cyfryngau digidol a thrwy law oedolion dibynadwy a hyfforddedig.
- Anogaeth i ddysgu rhagor am eu diwylliant eu hunain a diwylliannau pobl eraill.
- Darpariaeth gyd gysylltiedig gan weithwyr ieuenctid ym mhob ysgol uwchradd a choleg, ymestyn y 'cynnig i ddisgyblion' ac felly cyfoethogi'r cwricwlwm ffurfiol a chynorthwyo â datblygiad personol a chymdeithasol.
- Cyfleoedd i fod yn ymgyrchwyr dinesig e.e. trwy wirfoddoli.
- Cydnabod a /neu achrediad eu cyflawniadau o ran datblygiad personol a chymdeithasol mewn ysgolion a cholegau ac yn y gymuned hefyd.

2.4.3 Tystiolaeth Feintiol am y Gwasanaeth Ieuenctid.

Mae'r Gwasanaeth Ieuenctid yn casglu data perfformiad ar gyfer adrodd yn flynyddol i Lywodraeth Cymru ar ei gyflawniad. Mae Llywodraeth Cymru yn defnyddio'r data hwn ar gyfer asesu cyfraniad gwasanaeth ieuenctid tuag at eu strategaeth ieuenctid. Cyhoeddir data Gwasanaethau Ieuenctid Awdurdodau Lleol Cymru yn:

<https://statswales.gov.wales/Catalogue/Education-and-Skills/Youth-Service>

Yn seiliedig ar y data diweddaraf ar gyfer 2016-17 bydd y newid yma yn effeithio dros 5500 o bobl ifanc 11 – 16 oed ar draws Gwynedd. Caiff mwy o enethod eu heffeithio, a bydd y grp oedran 11-13 oed yn cael eu heffeithio yn fwy na'r grwpiau oedran eraill.

Bechgyn – 11- 13 oed= 1458

Merched - 11 – 13 oed = 1678 – cyfanswm - 3136

Bechgyn – 14 – 16oed = 808

Merched – 14 – 16 oed = 875 – cyfanswm – 1683

Bechgyn - 17 – 19 oed = 212

Merched – 17 – 19oed = 270 – cyfanswm = 482

Bechgyn – 20 – 25 oed = 166

Merched – 20 – 25 oed = 158 – cyfanswm - 324

22.50% o'r boblogaeth 11-25 oed

2644- bachgen

2981- merch

Cyfanswm aelodau = 5625

Ystadegau Ethnigrwydd a laith y Gwasanaeth leuenctid (2016)

Gweler yma ethnigrwydd aelodau'r Gwasanaeth leuenctid ynghyd a niferoedd sydd yn siarad Cymraeg. Yn seiliedig ar y data diweddaraf hwn bydd yr effaith fwyaf ar bobl ifanc gwyn, a siaradwyr Cymraeg yn bennaf.

Ethnigedd / Ethnicity	Bechgyn	Merched	Cyfanswm	Siarad Cymraeg Welsh Speaker	Bechgyn	Merched	Cyfanswm
Gwyn/Cymraeg	1203	1009	2212	Rhugl	1172	989	2161
Gwyn/Prydeinig	151	112	263	Ychydig	191	203	394
Unrhyw gefndir gwyn arall WOTH	6	4	10	Dim	20	8	28
Dim eisiau datgelu	5	6	11				
Heb ddatgelu	13	17	30				
Gwyn/Asian/Asian Prydeinig		1	1				
Bangladesiadd		1	1				
Gwyn a Du Caribiaidd	1		1				
Unrhyw grwp ethnig arall	1		1				
Gwyddelig	1		1				
Indiaidd	1		1				
Polish	1		1				

2.4.4 Mapio Darpariaeth

Mae'r Gwasanaeth leuenctid wedi ymgymryd a gwaith o fapio y ddarpariaeth sydd ar gael i bobl ifanc yng Ngwynedd yn ystod 2016-17. Defnyddiwyd y ffynonellau canlynol fel tarddiad y wybodaeth :-

www.gwynedd-ni.org.uk

www.gwyneddgreadigol.com

www.chwaraeon.cymru

www.chwaraeonanableddcymru.com

www.urdd.cymru (rhif ffon Eryri)
www.yfc-wales.org.uk/Cymraeg (rhif ffon Eryri a Meirionydd)
www.sea-cadets.org
www.partneriaeth-awyr-agored.co.uk/cy/clwb/holl/

Mae'r gwaith mapio hwn (dim i'w gylchredeg gan nad ydym wedi casglu'r wybodaeth ar gyfer ei gyhoeddi i'r perwyl yma) yn dangos fod oddeutu 230 o glybiau cymdeithasol, clybiau chwaraeon a gweithgareddau awyr agored i bobl ifanc yn y sir.

Mae Bwrdd Uchelgais Gogledd Cymru wedi comisiynu gwaith i fapio y gwasanaethau a'r ddarpariaeth sydd ar gael i bobl ifanc 16-25 oed yng Ngwynedd, ym mis Mawrth 2016.



Copy of North
Wales Provision Marcl

2.4.5 Data am y Demograffeg Oedran

Mae Uned Ymchwil a Dadansoddeg y Cyngor wedi tynnu ynghyd proffil o bobl ifanc 11-25 oed Gwynedd i'w ddefnyddio ar gyfer Adolygiad y Gwasanaeth.

2.5 Oes yna unrhyw fylchu yn y dystiolaeth sydd angen ei gasglu ?

Nac oes.

3) Adnabod yr Effaith

3.1 Beth yw'r effaith fydd y polisi/gwasanaeth newydd neu'r newidiadau yn y polisi neu wasanaeth yn ei gael ar bobl hefo nodweddion cydraddoldeb

Nodweddion	Sut fath o effaith? (dylech ddileu'r rhai amherthnasol)	Ym mha ffordd? Beth yw'r dystiolaeth?
Oedran	Negyddol i rai grwpiau oedran ond positif o bosib i rai eraill	<u>Oedran 11-25 oed (Cyffredinol).</u> Yn bresennol mae'r Gwasanaeth yn cefnogi rhai 11-25 oed. Mae opsiwn 1-4 yn parhau i gynnig cefnogi rhai 11-25 oed. Bydd unrhyw un o'r opsiynau fodd bynnag yn golygu fod llai o ddarpariaeth na'r presennol. Mae opsiwn 1 a 2 yn awgrymu parhau i gadw'r gwasanaeth yn agored i unrhyw un rhwng 11-25 oed. Mae opsiwn 3 a 4 yn awgrymu symud i batrwm o ddarpariaeth gweithgareddau a phrosiectau agored i unrhyw un 11-19 oed a gwaith wedi ei dargedu yn unig i rai 16 oed a throsodd, sef dim ond cefnogi rheiny nad ydynt mewn addysg, hyfforddiant na gwaith. Mae data aelodaeth yn dangos mai dim ond 5% o'r aelodau presennol (324 allan o 5625) sy'n 19-25 oed. Mae'r data yn cadarnhau hefyd fod y grŵp oedran hynach yma yn aelodau oherwydd eu bod yn defnyddio ein cyrsiau Parodrwydd i Waith neu eu bod yn cael eu targedu er mwyn eu symud ymlaen i Addysg, Hyfforddiant neu i Waith. <u>Lleoliadau i gael mynediad i'r Gwasanaeth</u> Mae'r ddarpariaeth 'agored' presennol (sef y clybiau ieuenctid) yn bwyntiau mynediad statig mewn 42 cymuned. Mae opsiwn 1 a 2 yn awgrymu cwtdogi'r nifer o glybiau i 10 neu 14. Bydd pobl ifanc yn y cymunedau ble y bwriedir cau clwb yn colli darpariaeth. Bydd disgwyl i BOB person ifanc sydd eisiau mynychu clwb deithio i un o'r 10 neu 14 lleoliad yma.

		Mae Opsiwn 1 a 2 yn rhoi'r cyfrifoldeb ar y bobl ifanc i gyrraedd y gwasanaeth. Mae Opsiwn 1 a 2 yn golygu mai dim ond drwy fynychu Clwb y gall pobl ifanc gael mynediad i'r gwasanaeth Mae opsiwn 3 a 4 yn awgrymu symud i ffwrdd o redeg clybiau statig yn gyfan gwbwl. Mae Opsiwn 3 a 4 yn awgrymu sefydlu rhaglen o gweithgareddau / prosiect sy'n ymweld gyda cymunedau drwy'r sir gan symud lleoliadau yn rheolaidd. Mae opsiwn 3 a 4 yn rhoi cyfrifoldeb ar y gwasanaeth i gyrraedd pobl ifanc. Mae opsiwn 3 a 4 yn golygu y gall pobl ifanc gael mynediad i'r gwasanaeth drwy'r ysgol, yn eu cymuned a drwy gyfryngau cymdeithasol. 56% o'r bobl ifanc gwblhaodd yr holiadur wedi adrodd eu bod yn hapus i deithio (10 milltir), 30% wedi anghytuno a 14% yn nodi dim barn. Gall opsiwn 3 a 4 olygu na fydd gan rai bobl ifanc, yn enwedig y rhai mwyaf bregus, ofod diogel yn eu cymunedau y gallent droi iddo. Mae rhai o'n aelodau presennol yn defnyddio'r clybiau fel man cyfarfod saff, man i loches oddi wrth amgylchiadau gartref, yn fan diogel i gwrdd gyda gweithwyr proffesiynol. Mae 98% a gwblhaodd yr holiadur yn cytuno ei bod yn bwysig i bobl ifanc gael cyfleoedd i gymdeithasu drwy y Gwasanaeth Ieuenctid ac maent eisiau hyn trwy gael lle saff i ddod at eu gilydd a thrwy waith prosiect. - <u>Amseroedd i gael mynediad i'r gwasanaeth.</u> Mae'r ddarpariaeth presennol (sef y clybiau ieuenctid) yn bwyntiau mynediad statig mewn 42 cymuned am 30 wythnos y flwyddyn yn unig (tymor ysgol) yn y mwyafrif o leoliadau, ac wedi eu cyfyngu i nosweithiau penodol am yr wythnosau hynny. Nid oes capasiti yn y ddarpariaeth bresennol i berson ifanc gysylltu gyda gweithiwr ieuenctid y tu allan i'r adegau hyn, ar amser sy'n gyfleus ac yn addas iddyn nhw.
--	--	---

		Mae opsiwn 1 a 2 yn cyfyngu'r ddarpariaeth yma i 10 neu 14 cymuned mewn tymor ysgol yn unig ond yn parhau wedi ei gyfyngu i 2 awr ar nosweithiau penodol. Mae opsiwn 3 a 4 yn ar gael gydol y flwyddyn, gyda'r oriau yn amrywio o ddiwedd prynhawn, i gyda'r nos, i benwythnos, i dymor ysgol a gwyliau ysgol. Ond bydd y ddarpariaeth yn llai fin nos. Mae opsiwn 3 a 4 yn rhoi hyblygrwydd o ran lleoliadau ac amseroedd sy'n golygu bod mwy o gyfleon i bobl ifanc ddod i gyswllt gyda'r gwasanaeth. Bydd y cyfleon hynny fodd bynnag yn llai yn ei gyfanrwydd, ac hefyd yn fyrrach o ran hyd y cyswllt pan mewn lleoliad penodol. Nododd 429 o'r holiaduron y byddai pobl ifanc eisiau mynediad / cyswllt i weithiwr ieuencid drwy'r ysgol a parhau i wneud gwaith ieuencid yn eu cymunedau. <u>Gweithwyr leuencid ac Ysgolion.</u> Nododd 429 o'r holiaduron fod pobl ifanc eisiau medru gwneud cyswllt gyda gweithiwr ieuencid drwy'r ysgol. Mae'r ddarpariaeth Gweithwyr leuencid a Chymuned presennol ar gael mewn <u>rhai ysgolion</u> yn unig oherwydd y'i hariannir drwy grant. Nid oes capasiti yn Opsiwn 1 a 2 i roi adnodd Gweithiwr leuencid mewn unrhyw ysgol uwchradd oni bai y'i ariennir yn allanol. Mae opsiwn 3 a 4 yn sicrhau y bydd y gwasanaeth yn gallu trefnu i weithwyr leuencid a chymuned gysgodi 2 neu 3 ysgol uwchradd. Byddai pobl ysgol uwchradd a chyswllt gyda'r Gwasanaeth leuencid. - <u>Oedran 16-25 oed</u> Presennol mae nifer fechan o bobl ifanc 16 oed a throsodd yn ymwneud a'r gwasanaeth (oherwydd nid ydynt eisiau mynychu Clwb leuencid gyda rhai ieugach). Mae opsiwn 1 a 2 yn awgrymu parhau i gynnig clybiau leuencid fel ei ddarpariaeth i rai 16 oed a throsodd. Mae opsiwn 3 a 4 yn awgrymu newid yr hyn sy'n cael ei gynnig i bobl ifanc 16 oed a throsodd, ond ei fod wedi ei dargedu i rai nad ydynt mewn addysg, hyfforddiant na
--	--	--

	Positif i'r rhai fydd yn cael eu targedu	gwaith yn unig. Bydd y ddarpariaeth agored yn parhau ar i gael i rai hyd at 19 oed, ac mae ystadegau eisoes yn dangos nad oes defnyddwyr yn y grŵp oedran 19-25 oed yn dymuno defnyddio'r ddarpariaeth agored (clybiau, gweithgareddau) Mae opsiwn 3 a 4 yn awgrymu y byddwn yn darparu gweithiwr allweddol i bob person ifanc 16-25 oed sydd wedi ei adnabod drwy systemau tracio Gyrfa Cymru (Haen 1 a 2), waeth lle mae nhw'n byw.
Hil (gan gynnwys cenedligrwydd)	Dim effaith wedi ei adnabod o'r dystiolaeth	Rydym yn rhagweld yr un effaith ar draws yr opsiynau a ystyrir. Mwyafrif aelodaeth y Gwasanaeth Ieuenctid yn wyn. Mae Opsiwn 3 a 4 yn rhoi mwy o hyblygrwydd i'r gwasanaeth ymgysylltu a chyrraedd cymunedau a grwpiau o bobl ifanc o leiafrifoedd ethnig wrth symud lleoliadau ei gweithgareddau.
Yr iaith Gymraeg	Effaith negyddol posib o ganlyniad i leihad yn y gwasanaeth a cynigir drwy gyfrwng y Gymraeg ar draws y Sir. Gall fod ag effaith positif ar y rhai sydd yn cael mynediad i'r gwasanaeth am y tro cyntaf drwy weld gweithgareddau a phrosiectau ieuenctid cyfrwng y Gymraeg yn cael eu cynnal yn eu pentref.	Mae dull darparu a holl weithgareddau'r Gwasanaeth yn cael eu cynnig trwy gyfrwng y Gymraeg neu yn ddwyieithog ar hyn o bryd. Mae'n rhoi'r cyfle i bobl Ifanc gymryd rhan mewn gweithgareddau a chymysgu yn yr iaith o'u dewis. Mae'r Gwasanaeth Ieuenctid yn hyrwyddo'r iaith Gymraeg yn barhaus trwy addysg, sgiliau a rhoi cyfleoedd i gymdeithasu, ac yn cynnal sesiynau Ymwybyddiaeth iaith. Mae opsiwn 1 – 4 i gyd yn cynnig parhau i gynnig gweithgareddau a prosiectau i bobl ifanc drwy gyfrwng y Cymraeg. Mae opsiwn 1-4 i gyd yn golygu llai o gyfleon mewn cymunedau i bobl ifanc ddefnyddio eu Cymraeg/ Mae i bob opsiwn effaith ar 2 fudiad trydydd sector (Urdd / Ffermwyr Ifanc) sydd yn cyfrannu tuag at gefnogi pobl ifanc i ddefnyddio'r Gymraeg yn gymdeithasol. Gall rhai siaradwyr Cymraeg ifanc weld lleihad yn nifer y cyfleon cymdeithasoli ddefnyddio yr iaith pe bai'r mudiadau hyn yn methu a cynnal eu clybiau / aelwydydd.
Anabledd	Dim effaith wedi ei	Mae'r dull darparu presennol yn rhedeg Clybiau Ieuenctid Derwen (Tîm Integredig Plant Anabl) er mwyn

	adnabod dan 16 oed ond gall fod yn bositif yn yr oedran 16+ os caiff pobl ifanc eu targedu	gweithio hefo pobl Ifanc anabl. Mae opsiwn 1 a 2 yn nodi y bydd y 10 neu 14 clwb ieuencid yn agored i bobl ag anableddau fynychu'r clybiau prif-ffrwd (yn ddibynnol ar eu gallu, gallu i deithio ac ati) ond yn hwyluso integreiddio a cymdeithasu gyda cyfoedion. Mae opsiwn 3 a 4 yn caniatáu i'r 2 ysgol uwchradd anghenion arbennig gael cyswllt gyda gweithiwr ieuencid i ddarparu prosiect ieuencid. Mae opsiwn 3 a 4 yn annog pobl ifanc anabl i fynychu prosiectau ar draws y Sir, yn annog integreiddio i'r prif lif fydd yn cefnogi pobl ifanc i gymysgu gyda'u cyfoedion. Mae opsiwn 3 a 4 wrth symud o amgylch y sir yn rhoi gwell cyfle i'r gwasanaeth fynd i'r afael a unigedd ymysg pobl ifanc sy'n achosi pryderu ac effaith ar lesiant meddyliol. Mae opsiwn 3 a 4 yn targedu pobl ifanc 16 oed a throsodd nad ydynt mewn addysg, hyfforddiant na gwaith. Mae pobl ifanc ag anabledd yn fwy tebygol o wynebu rhwystrau rhag cael gwaith / hyfforddiant, felly gall yr opsiynau hyn sicrhau eu bod yn derbyn cefnogaeth.
Rhyw	Dim effaith negyddol wedi ei adnabod o'r dystiolaeth	Mae'r nifer o fechgyn a merched sydd yn ymwneud a'r Gwasanaeth presennol yn eithaf cyfartal (gweler ffigyrau'r Gwasanaeth yn 2.4.3 uchod). Nid ydym yn rhagweld y bydd gweithredu unrhyw un o'r opsiynau yn cael mwy na lai o effaith ar ferched neu fechgyn.
Cyfeiriadedd rhywiol	Dim gwybodaeth am effaith posibl	Nid oes dystiolaeth ar hyn o bryd o ran cyfeiriadedd rhywiol y defnyddwyr presennol – nid yw'r data yn cael ei gasglu ar gyfer y grŵp oedran 11-16 oed. Ni allwn rhagweld os bydd mwy neu lai o bobl ifanc, oherwydd eu cyfeiriadedd rhywiol, yn dewis ymwneud a'r gwasanaeth ynghlwm ag unrhyw un o'r opsiynau.
Crefydd neu gred (neu ddiffyg cred)	Dim effaith negyddol wedi ei adnabod o'r dystiolaeth	Nid ydym yn rhagweld effaith benodol ar bobl ifanc o gr?p crefydd penodol.

Ailbennu rhywedd	Dim gwybodaeth am effaith posibl	Nid oes tystiolaeth ar hyn o bryd o ran defnyddwyr presennol sy'n dymuno / wedi ailbennu rhywedd – nid yw'r data yn cael ei gasglu ar gyfer y grŵp oedran 11-16 oed. Nid ydym yn rhagweld effaith benodol ar bobl ifanc sy'n dymuno / wedi ailbennu rhywedd o weithredu unrhyw un o'r opsiynau.
Beichiogrwydd a mamolaeth	Dim effaith negyddol wedi ei adnabod o'r dystiolaeth	Nid yw'r Gwasanaeth yn casglu data ar lefelau beichiogrwydd ei ddefnyddwyr. Nid ydym yn rhagweld effaith benodol ar ferched sy'n feichiog / mamolaeth o weithredu unrhyw un o'r opsiynau.
Priodas a phartneriaeth sifil	Dim	Nid ydym yn rhagweld effaith benodol o weithredu unrhyw un o'r opsiynau ar briodas / bartneriaeth sifil ymysg y grŵp oedran.

3.2 Ydi'r polisi neu wasanaeth yn ateb y Dyletswyddau Cyffredinol yma?

Dyletswyddau Cyffredinol y Ddeddf Cydraddoldeb	Dylid dileu'r rhai amherthnasol	Ym mha ffordd? Beth yw'r dystiolaeth?
Cael gwared â chamwahaniaethu anghyfreithlon, aflonyddu ac erledigaeth	Gall helpu i gael gwared ar gamwahaniaethu	Mae cefnogaeth gweithwyr ieuenctid yn gallu bod o help mawr i rai pobl ifanc hefo nodweddion cydraddoldeb sy'n mynd drwy amser anodd. Mae opsiwn 1 a 2 yn nodi y bydd Gweithwyr Ieuenctid ar gael i bobl ifanc ddelio gyda chamwahaniaethu – ond mae'n ddibynnol ar y bobl ifanc yn dod i un o'r 10 neu 14 lleoliad a awgrymir yn yr opsiynau hyn. Mae opsiwn 3 a 4 yn nodi y bydd Gweithwyr Ieuenctid ar gael i bobl ifanc ddelio gyda chamwahaniaethu ac yn gallu mynd at y bobl ifanc yn eu hysgol / cymuned hwy yn nol yr angen.
Hyrwyddo cyfleoedd cyfartal	Ydi / Nac ydi – eto'n ddibynnol ar y sefyllfa	Fel uchod mae'n ddibynnol ar os ydi'r person ifanc yn derbyn llai o wasanaeth neu'n derbyn gwasanaeth o'r newydd o'i gymharu a'u sefyllfa bresennol.
Meithrin perthnasau da	Ydi / nac ydi – eto'n ddibynnol ar y sefyllfa	Fel uchod mae'n ddibynnol ar os ydi'r person ifanc yn derbyn llai o wasanaeth neu'n derbyn gwasanaeth o'r newydd o'i gymharu a'u sefyllfa bresennol.

3.3 Beth yw'r effaith fydd y polisi/gwasanaeth newydd neu'r newidiadau yn y polisi neu wasanaeth yn ei gael ar faterion eraill nad ydynt yn ymwneud a nodweddion cydraddoldeb pobl? Manylwch.

Nodweddion	Sut fath o effaith? (dylech ddileu'r rhai amherthnasol)	Ym mha ffordd? Beth yw'r dystiolaeth?
Gofodol	Negyddol mewn rhai cymunedau ond positif mewn rhai eraill	Effaith negyddol ar 32 cymuned yn Opsiwn 1 – llai o ddarpariaeth. Effaith negyddol ar 28 cymuned yn Opsiwn 2 – llai o ddarpariaeth. Effaith negyddol ar 42 cymuned ble mae clwb ieuenctid ar hyn o bryd yn Opsiwn 3 a 4 – llai o ddarpariaeth. Ond effaith bositif ar y cymunedau hynny y bydd y Gwasanaeth yn ymweld a hwy yn ystod blwyddyn i ddarparu gweithgareddau.
Difreintedd a Thlodi	Negyddol i rai pobl ifanc.	<u>Ariannol</u> Mae'r ddarpariaeth presennol yn wasanaeth am ddim. Mae'r Gwasanaeth presennol yn trefnu gweithgareddau a thripiâu yn achlysurol a codi ffi ar fynychu'r gweithgareddau hyn fel cyfraniad tuag at y gost. Mae Opsiwn 1 i 4 yn parhau i nodi gwasanaeth am ddim. Nododd 67% o'r ymatebwyr i'r holiadur ymgysylltu y dylai pobl ifanc gyfrannu yn ariannol tuag at rai gweithgareddau penodol, a 18% yn anghytuno a 15% heb farn. <u>Difreintedd Cymdeithasol ac Economaidd.</u> Mae'r ddarpariaeth bresennol gyda presenoldeb clwb ym mhob un o'r cymunedau difreintiedig (yn unol a diffiniad Llywodraeth Cymru). Golyga hyn fod Clwb Ieuenctid ar gael ym Maesgeirchen a Caernarfon. Yn ychwanegol i hyn mae'r Gwasanaeth yn derbyn grantiau ychwanegol ar gyfer targedu yr ardaloedd hyn ee grant SBLASH ar gyfer gweithgareddau'r haf ym Maesgeirchen a Caernarfon; grant Cymunedau'n Gyntaf ar gyfer Gweithwyr Ieuenctid a Chymuned ym Maesgeirchen a Caernarfon. Fodd bynnag mae'r gwaith proffilio pobl ifanc Gwynedd

		(gweler 2.4.5 uchod) a chanfyddiadau'r adolygiad yn gyffredinol wedi adnabod fod pobl ifanc yn gallu wynebu rhwystrau, yn wynebu heriau wrth dyfu i fyny, ac yn gallu bod yn dadgysylltu rhag addysg, hyfforddiant neu waith waeth lle mae nhw'n byw. Mae crynhoad uwch o bobl ifanc fregus, ac anghenion yn y llefydd mwyaf trefol megis Maesgeirchen a Caernarfon ond nid yw'r materion / heriau yn unigryw i'r ardaloedd hynny. Mae opsiwn 1 a 2 yn sicrhau fod gan y Gwasanaeth bresenoldeb yng nghymunedau Maesgeirchen a Caernarfon. Mae opsiwn 3 a 4 yn golygu na fydd presenoldeb barhaol yn Maesgeirchen na Caernarfon, ond yn hytrach y bydd gweithgaredd yn cael eu cynnal yno yn achlysurol. Nid oes unrhyw un o'r opsiynau yn sicrhau y bydd pobl ifanc sy'n wynebu tlodi yn gallu cael mynediad i'r gwasanaeth. Mae'r gwaith Mapio Darpariaeth (gweler 2.4.4 uchod) yn adnabod fod prinder clybiau cymdeithasol am ddim i bobl ifanc yn yr ardaloedd di-freintiedig hyn – gall cost ymaelodi gyda clybiau eraill atal pobl ifanc rhag manteisio ar y cyfleon eraill sydd ar gael yn lleol.
--	--	--

4) Dadansoddi'r canlyniadau

4.1 Ydi'r polisi felly'n debygol o gael effaith sylweddol, bositif ar unrhyw un o'r nodweddion cydraddoldeb neu'r Ddyletswydd Gyffredinol a beth yw'r rheswm am hyn?

Mae'r asesiad cychwynnol wedi adnabod y canlynol :

Gall pob opsiwn yn sicrhau y bydd y Gwasanaeth Ieuenctid ar agor i bobl ifanc rhwng 11 – 25 oed.

Gall pob opsiwn gael effaith negyddol ar y grŵp oedran 11-16 oed oherwydd cwtogiad yn y ddarpariaeth fydd ar gael.

Gall opsiwn 3 a 4 gael effaith bositif ar y grŵp oedran 16-25 oed oherwydd ei fod yn cynnig gwasanaeth penodol wedi ei dargedu i'w anghenion.

Gall opsiwn 1 a 2 gael effaith negyddol ar gymunedau penodol (28 i 32 ohonynt) ond effaith bositif yn y 10 i 14 cymuned ble lleolir Clwb.

Gall opsiwn 3 a 4 gael effaith negyddol ar 42 cymuned drwy symud i ffwrdd oddi wrth ddarparu clybiau ynddynt, ond effaith bositif mewn nifer o gymunedau y byddai'r gwasanaeth yn ymweld a hwy mewn blwyddyn o raglen gweithgareddau.

Gall pob opsiwn gael yr un effaith bosibl ar grwpiau gwarchodedig.

Gall pob opsiwn gael effaith negyddol ar Siaradwyr Cymraeg Ifanc gan fod lleihad yn y cyfleon i ddefnyddio'r Gymraeg yn gymdeithasol.

Gall opsiwn 3 a 4 gael yr effaith fwyaf negyddol ar y cymunedau difreintiedig.

Nid ellir symud i'r camau nesaf ar hyn o bryd gan fod angen ymgynghori i sicrhau ein bod wedi adnabod yr effeithiau posibl i gyd, ac yn gywir, ac adnabod ffyrdd o'u lliniaru.

4.3 Beth ddylid ei wneud?

Dewiswch un o'r canlynol:

Parhau gyda'r polisi / gwasanaeth gan ei fod yn gadarn	
Addasu'r polisi i ddileu unrhyw rwystrau	
Atal a dileu'r polisi gan fod yr effeithiau niweidiol yn rhy fawr	
Parhau a'r polisi oherwydd gellir cyfiawnhau unrhyw effaith niweidiol	

4.4 Pa gamau fyddwch chi'n gymryd i leihau neu liniaru unrhyw effeithiau negyddol?

4.5 Os nad ydych yn gweithredu ymhellach i ddileu neu leihau effeithiau negyddol, esboniwch pam yma.

5) Monitro

5.1 Pa gamau fyddwch chi'n gymryd i fonitro effaith ac effeithiolrwydd y polisi neu wasanaeth (cynllun gweithredu)?

Asesiad Opsiynau – Ail-fodelu'r Gwasanaeth Ieuenctid

Opsiwn 1	Dal i ddarparu yr un peth ond gwneud llai ohono (cau clybiau mewn cymunedau a llai o grantiau i'r trydydd sector)
Opsiwn 2	Dal i ddarparu yr un peth ond gwneud llai ohono a peidio rhoi grantiau i'r trydydd sector (cau clybiau ieuenctid mewn cymunedau).
Opsiwn 3	Darparu mewn ffordd wahanol, sef Rhaglen o Weithgareddau a Phrosiectau sy'n symud o leoliad i leoliad drwy'r sir, a chomisiynu gweithgareddau a phrosiectau penodol gan partneriaid allanol.
Opsiwn 4	Darparu mewn ffordd wahanol, sef Rhaglen o Weithgareddau a Phrosiectau sy'n symud o leoliad i leoliad drwy'r sir, a creu grant cymunedol i fudiadau'r trydydd setor i ddarparu gweithgareddau pobl ifanc.

Opsion 1	Cyfarch y newid mewn anghenion pobl ifanc? (barn, a tueddiadau demograffig)
	Rhannol
	Bydd y Gwasanaeth oherwydd y gyllideb yn darparu llai.
	Parhau i ddarparu (ond llai) o ofod diogel i bobl ifanc gyfarfod ynddo, mewn nifer llai o gymunedau.
	Parhau i gynnig cyfleon i bobl ifanc gymdeithasu yn y clybiau mewn nifer llai o gymunedau.
	Parhau i gynnig cyfleon i bobl ifanc ennill sgiliau yn y clybiau mewn nifer llai o gymunedau.
	Parhau i gynnig cefnogaeth i bobl ifanc drwy'r clybiau mewn nifer llai o gymunedau.
	Gweithiwr leuenctid ar gael drwy glwb yn unig / tymor ysgol yn unig / a dim ond mewn rhai cymunedau.
	Dim hyblygrwydd i ymateb i faterion sy'n codi y tu allan i leoliadau'r clybiau.
	Gweithlu sesiynol heb hyblygrwydd i weithio y tu hwnt i'w oriau na'u clybiau.
	Cyfarch y newid yn y cyd-destun? (polisi, strategol, statudol)
	Nac ydy
	Ni fydd yr opsiwn yma yn caniatáu i ni adeiladu cysylltiadau a partneriaethu gyda ysgolion na'r trydydd sector.
	Bydd y gwaith partneriaethol gydag asiantaethau cymorth ieuenctid eraill i gyd yn ddibynol ar grantiau.
	Ni fydd gennym yr adnoddau ar gyfer cyflawni'r rôl Gweithiwr Allweddol i bobl ifanc ôl 16 oed.
	Cyfarch y Gyllideb? (Fforddiadwy a cynaliadwy)
	Rhannol
	<u>Fforddiadwy</u> - Ydy
	<u>Cynaliadwy</u> - Nac ydy
	Byddai unrhyw doriad pellach i'r gyllideb yn arwain at gwtogi'r nifer o glybiau ymhellach a llai eto o grant i'r trydydd sector. Byddai hyn yn gwneud y gwasanaeth yn aneffeithiol.
	Gallu i gynnal gweithlu? (recrwtio, hyfforddi a cynnal staffio).
	Nac ydy.
	Nid ydym yn gallu recrwtio digon o weithwyr 3 awr, 6 awr, 9 awr ar hyn o bryd i gynnal y model darparu hwn.
	Nid ydym yn gallu darparu hyfforddiant Gwaith leuenctid, na prynu hyfforddiant Gwaith leuenctid Cyfrwng Cymraeg er mwyn datblygu'r gweithlu.
	Crynodeb o'r prif effeithiau (asesiad effaith cydraddoldeb, effeithiau cymdeithasol, effeithiau'r 3ydd sector)
	Negyddol ar y cyfan
	<u>Cydraddoldeb</u>
	Efaith Negyddol ar y Grwp Oedran yn gyffredinol oherwydd llai o ddarparaeith ar gael.

Effaith negyddol ar rhai grwpiau o bobl ifanc gan fod y cynnig mor gyffredinol ac yn rhoi yr un peth i bawb. Ni fydd lle ar gyfer gwneud gwaith gyda grwpiau o bobl ifanc sy'n wynebu heriau penodol.

Cymdeithasol

Effaith Gofodol – rhai cymunedau yn gweld cwtogiad mewn darpariaeth. Rhai cymunedau yn parhau heb ddarpariaeth. Rhai cymunedau (10) yn derbyn darpariaeth.

Ni all y gwasanaeth ar y ffurf yma gyfrannu tuag at ymateb i ymddygiad gwrth-gymdeithasol gan bobl ifanc mewn pentrefi.

3ydd Sector.

Llai o grant i'r trydydd sector. Gall lleihad i'r grant fod ag effaith wahanol ar y mudiadau gwahanol yn ddibynnol ar eu hadnoddau / capasiti i ymdopi.

Mae mudiadau gwirfoddol eraill yn Ngwynedd yn darparu gweithgareddau a chyfleon cymdeithasol i bobl ifanc nad ydynt yn rhan o'r grant gan y Gwasanaeth Ieuencid ar hyn o bryd.

Nid oes capasiti yn y model hwn i fod yn darparu cefnogaeth ariannol, na chefnogaeth arall i fudiadau'r 3ydd sector sy'n gweithio gyda pobl ifanc ar faterion megis hyfforddi'r gweithlu, diogelu, targedu grantiau ac ati.

Opsiw 2	Cyfarch y newid mewn anghenion pobl ifanc? (barn, a tueddiadau demograffig)
	Rhannol
	Bydd y Gwasanaeth oherwydd y gyllideb yn darparu llai.
	Parhau i ddarparu gofod diogel i bobl ifanc gyfarfod ynddo, mewn nifer llai o gymunedau.
	Parhau i gynnig cyfleon i bobl ifanc gymdeithasu yn y clybiau mewn nifer llai o gymunedau.
	Parhau i gynnig cyfleon i bobl ifanc ennill sgiliau yn y clybiau mewn nifer llai o gymunedau.
	Parhau i gynnig cefnogaeth i bobl ifanc drwy'r clybiau mewn nifer llai o gymunedau.
	Gweithiwr leuenctid ar gael drwy glwb yn unig / tymor ysgol yn unig / a dim ond mewn rhai cymunedau.
	Dim hyblygrwydd i ymateb i faterion sy'n codi y tu allan i leoliadau'r clybiau.
	Gweithlu sesiynol heb hyblygrwydd i weithio y tu hwnt i'w horiau na'u clybiau.
	Gall dileu'r grant i'r trydydd sector arwain at lai o gyfleon cymdeithasol i bobl ifanc mewn rhai cymunedau.
	Cyfarch y newid yn y cyd-destun? (polisi, strategol, statudol)
	Nac ydy
	Ni fydd yr opsiwn yma yn caniatáu i ni adeiladu cysylltiadau a partneriaethu gyda ysgolion.
	Bydd y gwaith partneriaethol gydag asiantaethau cymorth ieuenctid eraill i gyd yn ddibynol ar grantiau.
	Ni fydd gennym yr adnoddau ar gyfer cyflawni'r rôl Gweithwir Allweddol i bobl ifanc ôl 16 oed.
	Cyfarch y Gyllideb? (Fforddiadwy a cynaliadwy)
	Rhannol
	<u>Fforddiadwy</u> - Yndi.
	<u>Cynaliadwy</u> - Nac ydy
	Byddai unrhyw doriad pellach i'r gyllideb yn arwain at gwtogi'r nifer o glybiau ymhellach. Byddai rhedeg gwasanaeth i ddarparu 14 Clwb leuenctid yn unig yn wasanaeth aneffeithiol o ran gwerth am arian.
	Gallu i gynnal gweithlu? (recriwtio, hyfforddi a cynnal staffio).
	Nac ydy.
	Nid ydym yn gallu recriwtio digon o weithwyr 3 awr, 6 awr, 9 awr ar hyn o bryd i gynnal y model darparu hwn.
	Nid ydym yn gallu darparu hyfforddiant Gwaith leuenctid, na prynu hyfforddiant Gwaith leuenctid Cyfrwng Cymraeg er mwyn datblygu'r gweithlu.
	Crynodeb o'r prif effeithiau (asesiad effaith cydraddoldeb, effeithiau cymdeithasol, effeithiau'r 3ydd sector)
	Negyddol ar y cyfan

Cydraddoldeb

Efaith Negyddol ar y Grwp Oedran yn gyffredinol oherwydd llai o ddarparaeith ar gael.

Potensial effaith negyddol ar rhai grwpiau o bobl ifanc gan fod y cynnig mor gyffredinol ac yn rhoi yr un peth i bawb. Ni fydd lle ar gyfer gwneud gwaith gyda grwpiau o bobl ifanc sy'n wynebu heriau penodol.

Cymdeithasol.

Effaith Gofodol – rhai cymunedau yn gweld cwtogiad mewn darpariaeth. Rhai cymunedau yn parhau heb ddarpariaeth. Rhai cymunedau (14) yn derbyn darpariaeth.

Ni all y gwasanaeth ar y ffurf yma gyfrannu tuag at ymateb i ymddygiad gwrth-gymdeithasol gan bobl ifanc mewn pentrefi.

3ydd Sector.

Dim grant i'r trydydd sector.

Gall peidio rhoi grant fod ag effaith wahanol ar y mudiadau gwahanol yn ddibynnol ar eu hadnoddau / capasiti i ymdopi, capasiti i gynnyddu incwm a lleihau costau a targedu incwm o ffrydiau eraill.

Gall dileu'r grant arwain at lai o gyfleon cymdeithasol gan 2 mudiad i rai pobl ifanc mewn rhai cymunedau h.y gall olygu y bydd llai o glybiau Ffermwyr Ifanc, aelwydydd yr Urdd yn y sir

Mae mudiadau gwirfoddol eraill yn Ngwynedd yn darparu gweithgareddau a chyfleon cymdeithasol i bobl ifanc nad ydynt yn derbyn rhan o'r grant gan y Gwasanaeth Ieuenctid ar hyn o bryd.

Nid oes capasiti yn y model hwn i fod yn darparu cefnogaeth ariannol, na chefnogaeth arall i fudiadau eraill y 3ydd sector sy'n gweithio gyda pobl ifanc ar faterion megis hyfforddi'r gweithlu, diogelu, targedu grantiau ac ati.

Opsiwn 3	Cyfarch y newid mewn anghenion pobl ifanc? (barn, a tueddiadau demograffig)
	Rhannol
	Bydd y Gwasanaeth oherwydd y gyllideb yn darparu llai.
	Ni fydd y gwasanaeth yn darparu gofod diogel i bobl ifanc ymgynnull ynddo.
	Parhau i gynnig cyfleon i bobl ifanc gymdeithasu drwy brosiectau a gweithgareddau.
	Parhau i gynnig cyfleon i bobl ifanc ennill sgiliau drwy brosiectau a gweithgareddau.
	Parhau i gynnig cefnogaeth i bobl ifanc drwy brosiectau a gweithgareddau.
	Gweithiwr ieuenctid ar gael drwy'r ysgol ac mewn cymunedau.
	Gweithwyr ieuenctid ar gael gydol y flwyddyn.
	Gweithlu hyblygu i allu darparu gweithgaredd neu brosiect mewn lleoliad yn nol yr angen, ac ar bwnc yn nol yr angen.
	Gall y model hwn deilwra'i gynnig ar gyfer y grwpiau oedran gwahanol, sef 11-19 oed a 16-25 oed
	Cyfarch y newid yn y cyd-destun? (polisi, strategol, statudol)
	Ydy
	Bydd yr opsiwn yma yn caniatáu i ni adeiladu cysylltiadau a partneriaethu gyda ysgolion.
	Bydd y model yn caniatáu i ni gyfrannu tuag at y gwaith partneriaethol gydag asiantaethau cymorth ieuenctid eraill.
	Bydd y model yn caniatáu i ni gydweithio, cydgynllunio gyda'n partneriaid cymorth ieuenctid i uchafu adnoddau, osgoi dyblygu a cyfarch anghenion ar y cyd.
	Bydd y model yn caniatáu i ni gyflawni'r rôl Gweithwir Allweddol i bobl ifanc ôl 16 oed.
	Bydd y model yn caniatáu i ni barhau i gynnal darpariaeth sy'n agored i unrhyw berson ifanc, drwy brosiectau a gweithgareddau i rai 11-19 oed.
	Bydd y model yn cyfarch y gofyn i ddarparu gwasanaethau cymorth ieuenctid.
	Cyfarch y Gyllideb? (Fforddiadwy a cynaliadwy)
	Ydy
	<u>Fforddiadwy</u> - Ydy.
	<u>Cynaliadwy</u> - Ydy.
	Mae capasiti oddi fewn i'r opsiwn hwn ar gyfer cydweithio gyda siroedd eraill all arwain at effeithiolrwydd pellach.
	Mae gallu oddi fewn i'r opsiwn hwn i uchafu'r grantiau presennol o Lywodraeth Cymru a ESF am y 3 blynedd nesaf.
	Mae capasiti oddi fewn i'r opsiwn hwn i ddarparu datblygu ffrydiau incwm pellach.
	Tud. 77

	Gallu i gynnal gweithlu? (recrwtio, hyfforddi a cynnal staffio). Ydy. Byddwn yn llai dibynnol ar weithlu sesiynol, a gallu cynnig mwy o swyddi llawn amser. Bydd y model yn caniatáu i ni hyfforddi a datblygu ein gweithlu ein hunain. Bydd y model yn caniatáu i ni fod a gweithwyr gyda'r sgiliau cywir a'r cymwyseddau i gyflawni'r gwaith ieuencid. Crynodeb o'r prif effeithiau (asesiad effaith cydraddoldeb, effeithiau cymdeithasol, effeithiau'r 3ydd sector) Positif ar y cyfan gyda rhai agweddau negyddol. <u>Cydraddoldeb</u> Efaith Negyddol ar y Grwp Oedran yn gyffredinol oherwydd llai o ddarparaeith ar gael. Effaith Bositif i rai 16-25 oed gan fod y Gwasanaeth yn teilwra yr hyn sy'n cael ei gynnig i'r crwi oedran yma. Potensial Effaith Bositif ar rai grwpiau o bobl ifanc sydd a nodweddion gwarchodedig gan y gall rhai o'r prosiectau / gweithgareddau fod yn delio gyda materion penodol megis rhywioldeb, trawsrywedd, dinasyddiaeth fyd-eang ac ati. Effaith Bositif ar Bobl Ifanc gydag Anghenion ac Anabledd gan y bydd y model yn caniatáu presenoldeb a chyswllt Gweithiwr Ieuencid yn yr ysgolion arbennig. <u>Cymdeithasol.</u> Effaith Gofodol – gall y cymunedau sy'n colli Clwb Ieuencid presennol deimlo eu bod yn colli darpariaeth ac felly'n effaith negyddol. Fodd bynnag bydd y cymunedau hyn ac eraill yn gweld presenoldeb wrth i brosiect neu weithgaredd gael ei gynnal yno. Bydd y gwasanaeth yn ymweld gyda chymunedau drwy'r sir ac yn symud lleoliadau. Gall y model hwn gynnig hyblygrwydd i wneud gwaith ymestyn allan, darparu prosiect a rhoi amser gweithiwr i gydlynu ymyrraeth ar gyfer ymateb i ymddygiad gwrth-gymdeithasol gan bobl ifanc mewn pentrefi. <u>3ydd Sector.</u> Dim grant i'r 4 mudiad trydydd sector sy'n derbyn grant ar hyn o bryd. Dim grant i unrhyw fudiad trydydd sector – ond cyfleon comisiynu i ddarparu gweithgareddau. Gall peidio rhoi grant fod ag effaith wahanol ar y mudiadau gwahanol yn ddibynnol ar eu hadnoddau / capasiti i ymdopi, capasiti i gynnyddu incwm a lleihau costau, targedu incwm o ffrydiau eraill. Gall dileu'r grant arwain at lai o gyfleon cymdeithasol gan 2 mudiad i rai pobl ifanc mewn rhai cymunedau h.y gall olygu y bydd llai o glybiau Ffermwyr Ifanc, aelwydydd yr Urdd yn y sir Mae mudiadau gwirfoddol eraill yn Ngwynedd yn darparu gweithgareddau a chyfleon cymdeithasol i bobl ifanc nad ydynt yn rhan o'r grant gan y Gwasanaeth Ieuencid. Byddai symud i drefn comisiynu yn rhoi tegwch i'r holl fudiadau trydydd sector sy'n rhan o'r pecyn cymorth ieuencid. Bydd capasiti yn y model hwn i gomisiynu mudiadau trydydd sector i fod yn darparu gweithgareddau / prosiectau ar ran y Gwasanaeth Ieuencid – gan ddefnyddio arbenigeddau a chysylltiadau'r mudiadau gyda pobl ifanc.
--	---

	Bydd capasiti yn y model hwn i fod yn darparu cefnogaeth i fudiadau'r 3ydd sector sy'n gweithio gyda pobl ifanc ar faterion megis hyfforddi'r gweithlu, diogelu, targedu grantiau ac ati. Bydd capasiti yn y model i'r gweithiwr ieuenctid ddarparu hyfforddiant, gweithgareddau a prosiectau ar y cyd gyda unrhyw glwb / cymdeithas sy'n darparu i bobl ifanc.
--	---

Opswn 4	Cyfarch y newid mewn anghenion pobl ifanc? (barn, a tueddiadau demograffig)
	Rhannol
	Bydd y Gwasanaeth oherwydd y gyllideb yn darparu llai.
	Ni fydd y gwasanaeth yn darparu gofod diogel i bobl ifanc ymgynnull ynddo.
	Bydd y gwasanaeth yn parhau i roi cyfraniad i'r 3ydd sector i ddarparu clybiau cymdeithasol mewn rhai cymunedau.
	Parhau i gynnig cyfleon i bobl ifanc gymdeithasu drwy brosiectau a gweithgareddau.
	Parhau i gynnig cyfleon i bobl ifanc ennill sgiliau drwy brosiectau a gweithgareddau.
	Parhau i gynnig cefnogaeth i bobl ifanc drwy brosiectau a gweithgareddau.
	Gweithiwr ieuenctid ar gael drwy'r ysgol, mewn cymunedau.
	Gweithwyr ieuenctid ar gael gydol y flwyddyn.
	Gweithlu hyblygu i allu darparu gweithgaredd neu brosiect mewn lleoliad yn nol yr angen, ac ar bwnc yn nol yr angen.
	Gall y model hwn deilwra'i gynnig ar gyfer y grwpiau oedran gwahanol, sef 11-19 oed a 16-25 oed
	Cyfarch y newid yn y cyd-destun? (polisi, strategol, statudol)
	Ydy
	Bydd yr opsiwn yma yn caniatáu i ni adeiladu cysylltiadau a partneriaethu gyda ysgolion.
	Bydd y model yn caniatáu i ni gyfrannu tuag at y gwaith partneriaethol gydag asiantaethau cymorth ieuenctid.
	Bydd y model yn caniatáu i ni gydweithio, cydgynllunio gyda'n partneriaid cymorth ieuenctid i uchafu adnoddau, osgoi dyblygu a cyfarch anghenion ar y cyd.
	Bydd y model yn caniatáu i ni cyflawni'r rôl Gweithwir Allweddol i bobl ifanc fregus ôl 16 oed.
	Bydd y model yn caniatáu i ni barhau i gynnal darpariaeth sy'n agored i unrhyw berson ifanc, drwy brosiectau a gweithgareddau i rai 11-19 oed.
	Cyfarch y Gyllideb? (Fforddiadwy a cynaliadwy)
	Ydy
	<u>Fforddiadwy</u> - Ydy.
	<u>Cynaliadwy</u> - Ydy.
	Mae capasiti oddi fewn i'r opsiwn hwn ar gyfer cydweithio gyda siroedd eraill all arwain at effeithiolrwydd pellach.
	Mae gallu oddi fewn i'r opsiwn hwn i uchafu'r grantiau presennol o Lywodraeth Cymru a ESF am y 3 blynedd nesaf.
	Mae capasiti oddi fewn i'r opsiwn hwn i ail-ystyried y grant i'r trydydd sector yn y dyfodol
	Gallu i gynnal gweithlu?

	(recruiwio, hyfforddi a cynnal staffio).
	Rhannol Byddwn yn gallu cynnig swyddi llawn amser, ond llai ohonynt mewn nifer na opsiwn 3. Bydd y model yn caniatáu i ni hyfforddi a datblygu ein gweithlu ein hunain. Bydd y model yn caniatáu i ni fod a gweithwyr gyda'r sgiliau cywir a'r cymwyseddau i gyflawni'r gwaith ieuencid.
	Crynodeb o'r prif effeithiau (asesiad effaith cydraddoldeb, effeithiau cymdeithasol, effeithiau'r 3ydd sector)
	Yn rhannol negyddol a posiitif <u>Cydraddoldeb</u> Efaith Negyddol ar y Grwp Oedran yn gyffredinol oherwydd llai o ddarparaeith ar gael. Effaith Bositif i rai 16-25 oed gan fod y Gwasanaeth yn cyfarch eu hanghenion am y tro cyntaf. Potensial Effaith Bositif ar rai grwpiau o bobl ifanc sydd a nodweddion gwarchodedig gan y gall rhai o'r prosiectau / gweithgareddau fod yn delio gyda materion penodol megis rhywioldeb, trawsrywedd, dinasyddiaeth fyd-eang aca ti. Effaith Bositif ar Bobl Ifanc gydag Anghenion ac Anabledd gan y bydd y model yn caniatáu presenoldeb Gweithiwr Ieuencid yn yr ysoliong arbennig. <u>Cymdeithasol.</u> Effaith Gofodol – gall y cymunedau sy'n colli Clwb Ieuencid presennol deimlo eu bod yn colli darpariaeth ac felly'n effaith negyddol. Fodd bynnag bydd y cymunedau hyn ac eraill yn gweld presenoldeb wrth i brosiect neu weithgaredd gael ei gynnal yno. Bydd y gwasanaeth yn ymweld gyda chymunedau drwy'r sir ac yn symud lleoliadau. Gall y model hwn gynnig hyblygrwydd i wneud gwaith ymestyn allan, darparu prosiect a rhoi amser gweithiwr i gydlynu ymyrraeth ar gyfer ymateb i ymddygiad gwrth-gymdeithasol gan bobl ifanc mewn pentrefi. <u>3ydd Sector.</u> Llai o arian ar gyfer ei roi fel grantiau i fudiadau 3ydd sector – gall y 4 mudiad sy'n derbyn grant ar hyn o bryd barhau i elwa, ond nid oes gwarant, gan y bydd mudiadau 3ydd sector eraill hefyd yn gallu cystadlu am gyfraniad. Gall peidio rhoi grant i'r 4 mudiad sy'n derbyn grant ar hyn o bryd fod ag effaith wahanol ar y mudiadau gwahanol yn ddibynol ar eu hadnoddau / capasiti i ymdopi, capasiti i gynnyddu incwm a lleihau costau, targedu incwm o ffrydiau eraill. Gall peidio rhoi grant i'r 4 mudiad sy'n derbyn grant ar hyn o bryd arwain at lai o gyfleon cymdeithasol gan 2 mudiad i rai pobl ifanc mewn rhai cymunedau h.y gall olygu y bydd llai o glybiau Ffermwyr Ifanc, aelwydydd yr Urdd yn y sir. Mae mudiadau gwirfoddol eraill yn Ngwynedd yn darparu gweithgareddau a chyfleon cymdeithasol i bobl ifanc nad ydynt yn rhan o'r grant gan y Gwasanaeth Ieuencid ar hyn o bryd. Byddai sefydlu'r gronfa hon yn caniatáu i eraill ymgeisio am yr arian i gynnal gweithgareddau. Mae peth capasiti yn y model hwn i ddarparu cefnogaeth ariannol, a chefnogaeth arall i fudiadau'r 3ydd sector sy'n gweithio gyda pobl ifanc ar faterion megis hyfforddi'r gweithlu, diogelu ac ati.

Gwasanaeth Ieuenctid Gwynedd

Canlyniadau Holiadur Rhagfyr 2017

Dyddiad Cyflwyno: 2018-01-10

Awduron: Tîm Ymchwil a Dadansoddeg

Cynnwys

	Tudalen
Cyflwyniad	3
Methodoleg	4
Ymatebion i'r holiaduron	5

1. Cyflwyniad

Mae'r adroddiad yma yn cyflwyno canlyniadau o'r ymgynghoriad bu i'r Gwasanaeth Ieuenctid ei gynnal o'r 13eg o Dachwedd i'r 22ain o Ragfyr 2017. Roedd yr ymgynghoriad yn cyflwyno opsiwn a ffafrir ar gyfer ail-fodelu'r gwasanaeth, yn unol a penderfyniad y Cabinet ym mis Hydref 2017.

2. Methodoleg

Defnyddiwyd holiadur fel dull casglu gwybodaeth ar gyfer yr ymgynghoriad. Roedd yr holiadur ar gael i'w ateb ar-lein o'r 13eg o Dachwedd i'r 22ain o Ragfyr 2017, gyda chopïau papur hefyd ar gael o lyfrgelloedd a siopau Gwynedd. Roedd yn cynnwys fideo i'w wyllo ac yna cyfres o gwestiynau i'w ateb am y newidiadau arfaethedig i'r gwasanaethau ieuenctid.

Cafodd yr ymgynghoriad ei hyrwyddo drwy'r dudalen 'Dweud eich dweud' ar wefan Cyngor Gwynedd, a hefyd trwy gyfryngau cymdeithasol y Cyngor, sef Facebook a Thrydar. Roedd hefyd yn cael ei hyrwyddo ac ymgyrch wedi cael ei wneud i'w ateb drwy nifer o glybiau gwahanol yn y sir megis Clybiau Ieuenctid y Cyngor, Clybiau Ffermwyr Ifanc ayyb.

Adlewyrchir llwyddiant yr ymgyrchoedd yma yn y nifer uchel o ymatebion i'r ymgynghoriad. Dylid nodi y cafwyd nifer o sylwadau ac atebion meintiol tebyg iawn i'w gilydd o fewn yr un ardaloedd; rydym wedi cynnwys yr holl ymatebion yma yn llawn yn y dadansoddiad.

Derbyniwyd ymatebion drwy'r post a drwy holiaduron ar-lein.

3. Ymatebion i'r holiaduron

Bydd y rhan yma o'r adroddiad yn dadansoddi ymatebion i'r holiaduron. Derbyniwyd cyfanswm o 3,391 dilys i'r holiadur.

3.01 Ydych chi'n cwblhau'r holiadur fel unigolyn neu ar ran sefydliad neu fusnes?

Mae'r rhan fwyaf o'r ymatebwyr wedi ymateb fel unigolyn, gyda chanran bychan wedi ateb ar ran sefydliad neu fusnes.

	Nifer	Canran
Ar ran sefydliad neu fusnes (e.e. Yr Heddlu, NSPCC, Cyngor Cymuned)	34	1.0
Fel unigolyn	3,349	98.8
Dim ateb	8	0.2
	3,391	100.0

Roedd rhai o'r sefydliadau neu fusnesau yn cynnwys ysgolion, colegau, clybiau chwaraeon, cynghorau cymuned, gofalwyr, yr urdd a mudiad ffermwyr ifanc, a gwasanaethau gwahanol o fewn Cyngor Gwynedd.

3.02 Beth yw eich oedran?

Gwelir fod y rhan fwyaf o'r ymatebwyr yn y grŵp oedran 11 i 15 oed (69.4%, N=2,354), gyda chanran bychan o'r ymatebwyr yn berson ifanc o dan 11 oed (1.8%, N=61).

	Nifer	Canran
Dwi'n berson ifanc o dan 11 oed	61	1.8
Dwi'n berson ifanc 11-15 oed	2,354	69.4
Dwi'n berson ifanc 16-24 oed	475	14.0
Dwi dros 24 oed	465	13.7
Dim ateb	36	1.1
	3,391	100.0

Dengys y tabl isod ym mha dalgylch ysgol uwchradd yr oedd yr ymatebwyr yn byw ynddo.

Dalgylch ysgol uwchradd	Nifer	Canran
Friars / Tryfan	513	15.1
Dyffryn Ogwen	356	10.5
Syr Hugh Owen	352	10.4
Dyffryn Nantlle	245	7.2
Brynrefail	193	5.7
Y Moelwyn	178	5.2

Ardudwy	110	3.2
Glan y Môr	87	2.6
Y Berwyn	87	2.6
Eifionydd	65	1.9
Botwnnog / Glan y Môr	60	1.8
Bro Idris	48	1.4
Uwchradd Tywyn	47	1.4
Botwnnog	45	1.3
Friars / Tryfan / Dyffryn Ogwen	14	0.4
Felinheli	9	0.3
Dim ardal wedi'i adnabod	982	29.0
Total	3,391	100.0

3.03 Wyt ti'n rhiant neu ofalwr?

Mae 11.2% (N=379) o'r ymatebwyr yn rhiant neu ofalwr.

	Nifer	Canran
Ydw	379	11.2
Na	2,915	86.0
Dim ateb	97	2.9
	3,391	100.0

3.03 Mae pobl ifanc Gwynedd wedi dweud wrthym y dylai'r Gwasanaeth Ieuenctid ganolbwyntio ar y canlynol

- Datblygu Sgiliau
- Datblygiad Personol
- Cefnogaeth Iechyd a Lles

Beth yw eich barn chi?

Gweler o'r tabl isod fod bron i draean (30.2%, N=1,023) o'r ymatebwyr yn teimlo fod hyn yn grêt, gyda sgôr o 1, traean ohonynt (33.1%, N= 1,122) yn rhoi sgôr o 2, a chwarter (25.3%, N=857) yn rhoi sgôr o 3. Ychydig iawn o'r ymatebwyr sydd wedi rhoi sgôr o 4 a 5 (10.7% efo'i gilydd).

	Nifer	Canran
1 - grêt	1,023	30.2
2	1,122	33.1
3	857	25.3
4	214	6.3
5 - gwael	149	4.4

Dim ateb	26	0.8
	3,391	100.0

Gellir gweld o'r tabl isod fod yna ychydig o wahaniaethau barn rhwng y grwpiau oedran. Mae canran uwch o'r rhai dros 24 oed yn rhoi sgôr o 1, gyda chanran uwch o'r rhai 11 i 15 oed efallai ddim yn gallu penderfynu ac yn rhoi sgôr o 3, a chanran uwch o'r rhai o dan 11 oed yn rhoi sgôr o 5, sef gwael.

	Dwi'n berson ifanc o dan 11 oed		Dwi'n berson ifanc 11-15 oed		Dwi'n berson ifanc 16-24 oed		Dwi dros 24 oed		Dim ateb	
	Nifer	Canran	Nifer	Canran	Nifer	Canran	Nifer	Canran	Nifer	Canran
1 - grêt	15	25.0	626	26.8	146	30.9	217	47.4	19	54.3
2	21	35.0	788	33.7	187	39.5	117	25.5	9	25.7
3	7	11.7	681	29.1	101	21.4	66	14.4	2	5.7
4	5	8.3	138	5.9	29	6.1	38	8.3	4	11.4
5 - gwael	12	20.0	106	4.5	10	2.1	20	4.4	1	2.9
Cyfanswm	60	100.0	2,339	100.0	473	100.0	458	100.0	35	100.0

3.04 Mae pobl ifanc wedi dweud wrthym eu bod angen pethau gwahanol wrth iddyn nhw dyfu fyny. Mae pobl ifanc eisiau:

- Rhaglen o weithgareddau hwyliog pan yn 11-19 oed
- Cefnogaeth un i un pan yn 16-25 oed

Beth yw eich barn chi?

Gwelir canlyniadau eithaf tebyg i'r cwestiwn yma ag y cwestiwn blaenorol. Mae bron i draean o'r ymatebwyr yn rhoi sgôr o 1 (31.8%, N=1,078), bron i draean yn rhoi sgôr o 2 (30.6%, N=1,036), a chwarter o'r ymatebwyr yn rhoi sgôr o 3 (25.5%, N=864). Ychydig iawn o'r ymatebwyr sydd wedi rhoi sgôr o 4 a 5 (11.3% efo'i gilydd).

	Nifer	Canran
1 - grêt	1,078	31.8
2	1,036	30.6
3	864	25.5
4	214	6.3
5 - gwael	170	5.0
Dim ateb	29	0.9
	3,391	100.0

Gwelir patrwm tebyg i'r cwestiwn blaenorol yn y gwahaniaethau barn rhwng oedrannau gwahanol. Mwy o blant o dan 11 oed yn rhoi sgôr 5 sef gwael, canran uwch o'r rhai dros 24 oed yn rhoi sgôr o 1 sef grêt, a chanran uwch o'r plant rhwng 11 ac 15 oed yn rhoi sgôr o 3.

	Dwi'n berson ifanc o dan 11 oed		Dwi'n berson ifanc 11-15 oed		Dwi'n berson ifanc 16-24 oed		Dwi dros 24 oed		Dim ateb	
	Nifer	Canran	Nifer	Canran	Nifer	Canran	Nifer	Canran	Nifer	Canran
1 - grêt	21	35.6	704	30.0	149	31.6	187	41.3	17	48.6
2	18	30.5	718	30.6	166	35.2	125	27.6	9	25.7
3	3	5.1	668	28.5	106	22.5	82	18.1	5	14.3
4	4	6.8	136	5.8	34	7.2	37	8.2	3	8.6
5 - gwael	13	22.0	118	5.0	16	3.4	22	4.9	1	2.9
Cyfanswm	59	100.0	2344	100.0	471	100.0	453	100.0	35	100.0

3.05 Mae'r fidio ar gychwyn yr holiadur yn egluro sut gall y Gwasanaeth Ieuenctid weithio yn y dyfodol. Nodwch unrhyw beth da am hyn.

Dengys y tabl isod y themâu a gododd fel ymateb i'r cwestiwn uchod. Gweler fod bron i un o bob pump ymateb wedi rhoi ymateb negyddol cyffredinol e.e. 'na'. Roedd bron i un o bob 10 wedi nodi ei fod yn rhoi cyfleoedd da i bobl ifanc / mwy o weithgareddau, ac hefyd bron i un o bob 10 yn ymateb yn positif yn gyffredinol e.e. 'da'.

Thema	Nifer	Canran
Ymateb negyddol cyffredinol e.e na /dim	833	21.0
Dim ymateb	465	11.7
Cyfleoedd da i bobl ifanc/mwy o weithgareddau	348	8.8
Ymateb positif cyffredinol e.e da	333	8.4
Datblygu Sgiliau / Dysgu / Achrediadau	293	7.4
Cymdeithasu	271	6.8
Cefnogaeth / Cymorth / Cyngor	231	5.8
Cyfle i mwy o bobl	170	4.3
Hwyl	138	3.5
Pecyn eglur	103	2.6
Aelodaeth am ddim	95	2.4
Rhywbeth i'r plant wneud (allan o'r ty / allan o drwbwl ayb)	75	1.9
Clybiau teithiol	69	1.7
Cadw clybiau ar agor	57	1.4
Cyfle i gadw yn iach/ffitrwydd/chwaraeon	55	1.4
Codi hyder	52	1.3
Cyd-weithio hefo mudiadau eraill	49	1.2
Arall / Aneglur / Amherthnasol	46	1.2

Da eu bod yn gofyn barn pobl ifanc	45	1.1
Ddim angen trafeilio yn bell	42	1.1
Cydweithio efo ysgolion	32	0.8
Arbed arian i'r Cyngor	24	0.6
Helpu pobl cael swydd	16	0.4
Clwb coginio	13	0.3
Helpu plant efo problemau ieuchyd	13	0.3
Cydweithio rhwng clybiau	11	0.3
Mwy o arian i'r gwasanaeth	11	0.3
Cadw cymunedau hefo'i gilydd	10	0.3
Arian yn mynd i'r gymuned	10	0.3
Angen Dug Caeredin	10	0.3
Diogel	9	0.2
grwp celf	8	0.2
Yn erbyn cau canolfannau	8	0.2
Pobl ifanc yn gwerthfawrogi'r gwasanaeth	6	0.2
Angen mwy o fanylion	4	0.1
Mwy o dripiâu	4	0.1
Gweithgareddau yn y Gymraeg	1	0.0
Peryg i rhai pobl ifanc fethu allan	1	0.0
	3,961	100.0

Rydym wedi edrych ar y gwahaniaethau rhwng dalgylchoedd ysgol gwahanol. Mae rhai gwahaniaethau o themâu yn codi o fewn ardaloedd penodol. Mae canran uwch o blant yn ardal dalgylch ysgol Botwnnog / Glan y Môr ac Eifionydd yn nodi ymateb positif cyffredinol e.e. da. Mae canran uwch o bobl yn dalgylchoedd ysgolion Ardudwy, Botwnnog a Glan y Môr yn nodi cyfle i mwy o bobl. Roedd y thema ymateb negyddol cyffredinol e.e. na, yn eithaf uchel ym mhob dalgylch, ond ychydig yn llai yn ardaloedd Glan y Môr, Eifionydd, Dyffryn Nantlle, Bro Idris a Botwnnog. Roedd canran uwch o ymatebwyr yn dalgylch ysgol Y Berwyn wedi nodi'r thema cymdeithasu. Roedd canran uwch o ymatebwyr yn dalgylchoedd ysgolion Friars, Tryfan Dyffryn Ogwen a Brynrefail wedi nodi'r thema cefnogaeth / cymorth / cyngor.

Gellir gweld gwahaniaethau rhwng gwahanol grwpiau oedran o fewn y themau a gododd yn y cwestiwn hefyd. Yn gyffredinol, roedd canran o'r pobl oedd wedi ymateb yn negyddol e.e. 'na' yn uchel ar draws pob grŵp oedran, ond ychydig yn llai yn y grŵp dros 24 oed. Roedd canran uwch o ymatebwyr o dan 11 wedi nodi cymdeithasu fel rhywbeth da. Roedd canran uwch o'r grŵp oedran 16-24 wedi nodi cefnogaeth / cymorth / cyngor. Roedd canran uwch o'r ymatebwyr o dan 11 oed wedi nodi hwyl.

3.06 Mae'r fidio ar gychwyn yr holiadur yn egluro sut gall y Gwasanaeth Ieuenctid weithio yn y dyfodol. Nodwch unrhyw beth fyddai'n eich poeni.

Dengys y tabl isod y themâu a gododd o'r cwestiwn uchod. Gweler fod dros draean o'r ymatebion yn nodi bod dim byd yn eu poeni. O'r pethau sydd yn eu poeni, y rhai sy'n rancio yn uchaf yw bod eu clwb ieuenctid yn cau / nunlle i fynd / diffyg arian, gorfod trafailio'n bell / dim darpariaeth leol a'i fod yn rhy debyg i ysgol / angen gweithgareddau hwyliog / ddim yn mwynhau'r gweithgareddau.

Thema	Nifer	Canran
Dim byd yn eu poeni	1,386	38.0
Fy nglwb ieuenctid yn cau/nunlle i fynd / diffyg arian	510	14.0
Heb ateb	395	10.8
Gorfod trafailio'n bell (enwedig yn y tywyllwch)/ dim darpariaeth lleol - llai o blant yn mynychu	287	7.9
Rhy debyg i ysgol / Angen mwy o weithgareddau hwyliog / ddim yn mwynhau'r gweithgareddau	217	6.0
Llai o gefnogaeth i glybiau / mudiadau e.e. Ffermwyr Ifanc a'r Urdd - llai o gefnogaeth a phrofiadau i unigolion	155	4.3
Amser cynnal y clybiau / ddim digon rheolaidd	87	2.4
Mwy o blant ar y stryd / Cynnydd mewn trosedd/ymddygiad gwrthgymdeithasol os bydd clybiau yn cau	80	2.2
Cost y gwasanaeth newydd	52	1.4
Clybiau rhy fawr yn y dyfodol - gormod o blant / ystod rhy eang o oedran	48	1.3
Ddim yn siŵr beth sy'n cael ei gynnig / sut ddaethpwyd at y cynnig yma i gychwyn	43	1.2
Poeni am fwlio / ffraeo	41	1.1
Colli ffrindiau oherwydd bod y clwb lleol yn cau	41	1.1
Pentrefi a chymunedau gwledig yn cael eu hanwybyddu	39	1.1
Diffyg cefnogaeth i blant hŷn / tu allan i ysgol sydd mewn gwaith neu hyfforddiant	38	1.0
Nid ydy'r newidiadau yma yn mynd i weithio	38	1.0
Colli perthynas efo'r gweithwyr ieuenctid unigol / dim cysondeb	36	1.0
Cyfarfod plant / pobl newydd	34	0.9
Ei fod yn cael ei gynnal mewn ysgol	32	0.9
Cael gwybodaeth am y clybiau yn y dyfodol	19	0.5
Na fydd na ddarpariaeth ar gyfer grwpiau gwahanol o blant e.e. plant anabl, anghenion dysgu	17	0.5
Dim gwasanaeth un i un yn cael ei gynnig i bob oedran	14	0.4
Dirywiad yn yr iaith Gymraeg	8	0.2
Arall	7	0.2
Dim gwasanaethau i blant o dan 11 oed	6	0.2
Angen stopio ariannu grwpiau allanol	6	0.2
Lleoliad ddim yn saff/lân a thaclus	5	0.1
Colli adeiladau gwerthfawr i'r gymuned os bydd y clwb yn cau	4	0.1
Cyfanswm Sylwadau	3,645	100.0

Gellir gweld gwahaniaethau rhwng dalgylchoedd ysgol a'r themâu sy'n codi. Roedd canran eithaf uchel ar draws yr ardaloedd yn nodi fod dim byd yn eu poeni. Roedd canran uwch o ymatebwyr yn dalchylchoedd ysgol Glan y Môr a Bro Idris yn nodi llai o gefnogaeth i glybiau / mudiadau. Roedd canran uwch o ymatebwyr yn dalgylchoedd Y Moelwyn, Syr Hugh Owen, ac Uwchradd Tywyn yn nodi bod eu clwb ieuenctid yn cau / nunlle i fynd / diffyg arian yn eu poeni.

Gellir gweld gwahaniaethau o fewn grwpiau oedran gwahanol hefyd. Roedd canran llawer llai o ymatebwyr dros 24 oed wedi nodi fod ddim byd yn eu poeni. Roedd canran llawer uwch o blant o dan 11 oed wedi nodi bod eu clwb ieuenctid yn cau / nunlle i fynd / diffyg arian yn eu poeni.

3.07 Beth fyddai'n dy rwystro rhag cymryd rhan?

Dengys y tabl isod y themâu a gododd o'r atebion i'r cwestiwn uchod. Gweler fod ychydig dros traean o'r ymatebwyr wedi nodi y bysai yna ddim rhwystr i'w stopio rhag cymryd rhan. Ond y rhwystr fwyaf a nodwyd oedd pellter o glwb / lleoliad teithiol / teithio yno.

Thema	Nifer	Canran
Dim rhwystr	1,344	36.8
Pellter o glwb / lleoliad teithiol / teithio yno	609	16.7
Heb ateb / amherthnasol	513	14.0
Rhy brysur - diddordebau eraill	230	6.3
Gweithgaredd/cwrs ddim yn apelio / diffyg diddordeb / Newidiadau yn swno yn ddiflas iawn a dim hwyl	192	5.3
Cost teithio / gweithgareddau	118	3.2
Neb o fy ffrindiau yn mynd	85	2.3
Gormod o blant / plant deithr	78	2.1
Toriadau yn golygu na fydd clwb ieuenctid / Clwb Ffermwyr Ifanc yn bodoli	77	2.1
Gwaith ysgol	67	1.8
Amser/diwrnod / amllder mae'r clwb yn cael ei gynnal	63	1.7
Diffyg hyder / gor bryder	42	1.1
Oedran – dwi'n rhy hen	41	1.1
Plant / pobl ifanc yn cambyhafio / bwllo yno	32	0.9
Cael ei gynnal yn yr ysgol	30	0.8
Ddim yn cytuno gyda'r split grwpiau oedran / gweithgareddau un i un	29	0.8
Diffyg strwythur / gwybodaeth / cyfarfodydd rheolaidd	20	0.5
Dim digon o wybodaeth am effaith y newidiadau eto i benderfynu	16	0.4
Salwch	13	0.4
Ddim yn ymwybodol o'r clwb	11	0.3
Diffyg Gweithwyr ieuenctid / cyswllt efo'r un gweithiwr	11	0.3
Clybiau yn gwahaniaethu - dim darpariaeth ar gyfer pawb e.e. pobl ifanc gyda anabledau, oherwydd eu rhywioldeb, rhwystrau iaith	9	0.2
Tywydd	8	0.2
Ddim yn cael gan fy rhieni	7	0.2
Mewn trwbwl efo'r heddlu	3	0.1
Iaith - gormod o ddefnydd o'r Saesneg	3	0.1
Oedran - rhy ifanc	2	0.1

	3,653	100.0
--	-------	-------

Drwy edrych ar y gwahaniaethau o'r themâu o fewn dalgylchoedd, gwelir fod y thema 'dim rhwystr' yn etihaf uchel ar draws pob dalgylch, yn enwedig Friars, Tryfan a Dyffryn Ogwen. Roedd 'pellter o glwb / lleoliad teithiol / teithio yno' yn uwch yn dalgylchoedd Y Moelwyn, Uwchradd Tywyn, Ardudwy, Botwnnog, Dyffryn Nantlle a Brynrefail. Mae canran uwch o bobl yn dalgylch ysgol Friars / Tryfan / Dyffryn Ogwen yn nodi eu bod yn rhy brysur - diddordebau eraill. Roedd canran uwch o bobl yn dalgylch ysgol Glan y Môr wedi nodi bod y toriadau yn golygu na fydd clwb ieuenctid / clwb ffermwyr ifanc yn bodoli.

Gellir gweld gwahaniaethau o fewn grwpiau oedran gwahanol hefyd. Roedd canran llai o bobl dros 24 oed yn nodi fod yna ddim rhwystr. Roedd canran uwch o'r oedrannau o dan 11 oed ac 11 i 15 oed wedi nodi y buasai pellter o glwb, lleoliad / teithio yno yn eu rhwystro rhag cymryd rhan.

Atodiad 5 – Sylwadau Cychwynnol y Craffwyr.

Bu i Grwp o bedwar aelod o'r Pwyllgor Craffu Addysg ac Economi gael y cyfle i gyfarfod gyda, Catrin Thomas Uwch Reolwr Dysgu Cymunedol ar ddau achlysur er mwyn deall y sefyllfa. Cafwyd cyflwyniad/ dealltwriaeth o

- hanes a'r datblygiadau y tu ôl i'r angen am newid y ddarpariaeth ym maes gwasanaeth ieuenctid,
- eglurder ynghylch y sefyllfa ariannol gyda'r gwasanaeth yn gorfod cwrdd â'r arbediad o £2750,000 h yn sgil penderfyniad blaenorol
- deall yr opsiynau a ystyriwyd gan y Cabinet a'r penderfyniad y tu ôl i ymgynghori ar yr opsiwn a ffafriwyd, sef opsiwn 3
- yn ogystal a chael cyfle i drafod y canlyniadau drafft o'r ymgynghoriad a gynhaliwyd.

Dymuna aelodau'r Grwp ddiolch i'r swyddog am ei hamser a'r gwaith sydd wedi digwydd hyd yma.

Mae'n deg cydnabod fod gwahanol farn gan aelodau'r Grwp, a bod dod i gasgliad ar beth sydd orau i bobl ifanc Gwynedd yn amrywio rhwng yr aelodau. Teg hefyd cydnabod fod y sefyllfa yn un anodd iawn, gyda'r gwasanaeth yn gorfod cwrdd â'r arbediad o £270,000 ac unrhyw ddatrysiad am olygu na fydd y gwasanaeth yn gallu aros yr un fath, er y dymunai rhai o'r aelodau weld hynny yn digwydd. Roedd cydnabyddiaeth y byddai'n debygol fod rhai o bobl ifanc Gwynedd am elwa ac eraill am golli y gwasanaeth yn y modd y maent yn ei dderbyn ar hyn o bryd.

Dylid hefyd nodi nad oedd y grwp yn unfarn o ran y ffordd ymlaen i'r gwasanaeth, gydag ystyriaethau lleol yn lliwio rhywfaint ar farn pob aelod. Mae'n wir hefyd dweud nad oes ateb syml i'r sefyllfa hon, gyda'r adborth cychwynnol o'r ymgynghoriad yn dangos fod rhai yn bositif am y newid a rhai yn ymateb yn negyddol i'r cynnig yn Opsiwn 3.

Fodd bynnag, nodir isod sylwadau agoriadol gan y Grwp Craffu a fu'n rhan o'r gwaith hyd yma, er ystyriaeth gan y Pwyllgor Craffu Addysg ac Economi.

- Roedd cydnabyddiaeth fod nifer deilwng o ymatebion wedi dod i law, yn arbennig o blith pobl ifanc 11-15 oed sydd i'w edmygu a'i ganmol yn fawr. Roedd y Grwp o'r farn fod y nifer o ymatebion yn adlewyrchu y lefel diddordeb, a phwysigrwyd y Gwasanaeth i bobl ifanc y sir.
- Roedd cytundeb gyda'r cyfeiriad a awgrymir o ran yr hyn y dylai'r Gwasanaeth ieuenctid ganolbwyntio arno, sef datblygu sgiliau, datblygiad personol a chefnogaeth lechyd a Lles, ac o ran cynnig pethau gwahanol i bobl ifanc 11-19 oed (rhaglen o weithgareddau hwyliog) a rhai dros 16 oed (cefnogaeth un i un).

- Dymunai aelodau'r Grwp nodi bod cyfraniad yr Urdd a Ffermwyr Ifanc tuag at ddiwylliant a'r iaith Gymraeg yn y sir eisoes wedi ei gydnabod gan y Cabinet. Gan dderbyn fod yr Opsiwn a Ffafrir yn awgrymu peidio a rhoi grant o gyllideb y Gwasanaeth Ieuenctid i'r mudiadau hyn, roedd y grwp yn dymuno herio sut fydd Cyngor Gwynedd yn cefnogi'r mudiadau hyn, i ddarparu cyfleon cymdeithasol cyfrwng Cymraeg?
- Nodwyd pryder fod y penderfyniad am y toriad yn y gyllideb wedi ei wneud eisoes, heb wybodaeth am yr union gynllun ac effaith y newid ar drigolion Gwynedd.

Roedd aelodau'r grwp o'r farn, pe bai'r Cabinet yn penderfynu symud ymlaen gyda'r Opsiwn a Ffafrir y dylid ei addasu er mwyn cyfarch rhywfaint o'r adborth o'r ymgynghoriad ynghyd a phryderon rhai aelodau'r Grwp fod y Gwasanaeth Ieuenctid yn symud i ffwrdd oddi wrth ddarparu gofod diogel i bobl ifanc gymdeithasu ynddo, sef y Clybiau traddodiadol. Dylai'r Gwasanaeth Ieuenctid ystyried cyflwyno cais i bob Cyngor cymuned a thref i ofyn os ydynt yn dymuno cyfrannu tuag at barhau i gynnal Clwb Ieuenctid yn eu dalgylch ac ystyried cadw peth cyllideb ar gyfer cefnogi gwirfoddolwyr i sefydlu Clybiau Ieuenctid gwirfoddol.

Eitem 7

Pwyllgor	Pwyllgor Craffu Addysg ac Economi
Teitl yr Adroddiad	Asesiad o'r ddarpariaeth addysg ôl-16 bresennol yng Ngwynedd
Dyddiad y cyfarfod	23 Ionawr 2018
Awdur	Garem Jackson, Pennaeth Addysg
Aelod Cabinet Perthnasol	Cynghorydd Gareth Thomas

1. CYFLWYNIAD

Mae Adran Addysg Gwynedd yn awyddus i gomisiynu ymgymwrwr i ymgymryd ag asesiad o'r ddarpariaeth ôl-16 yng Ngwynedd. Mae'n bosibl y bydd canfyddiadau yr asesiad yn sail i drafodaeth bellach ar lwybr y ddarpariaeth ôl-16 yn y sir i'r dyfodol.

2. CEFNDIR

Yn hanesyddol, yng Ngwynedd, roedd gan bob un o'r 14 ysgol uwchradd chweched dosbarth a oedd yn darparu cyrsiau Lefel A i bobl ifanc Gwynedd. Roedd y pynciau craidd yn cael eu cynnig ym mhob ysgol ac roedd y cynnig ehangach yn ddibynnol ar arbenigeddau ac amserlen pob sefydliad unigol. Prin iawn oedd y teithio rhwng ysgolion.

Yn y 1990au, bu newid mawr i'r ffordd yr oedd addysg ôl-16 yn cael ei darparu yn Nwyfor a Meirionnydd yn benodol. Diddymwyd dosbarthiadau chweched yr ysgolion uwchradd yn yr ardaloedd hyn (ar wahân i Ysgol y Berwyn) a sefydlwyd coleg trydyddol lle'r oedd y disgyblion yn trosglwyddo iddo ar ddiwedd eu haddysg statudol yn 16 oed. Ni fu unrhyw newid i'r ddarpariaeth ôl-16 yn Arfon yn yr un cyfnod.

Mae'r ddarpariaeth ôl-16 sy'n weithredol yng Ngwynedd ar hyn o bryd yn cael ei darparu mewn chwe ysgol uwchradd yn Arfon, sef Ysgol Brynrefail, Ysgol Dyffryn Nantlle, Ysgol Dyffryn Ogwen, Ysgol Friars, Ysgol Syr Hugh Owen ac Ysgol Tryfan, ac mewn dau goleg addysg bellach, sef Coleg Menai (Bangor) a Choleg Meirion Dwyfor (Pwllheli a Dolgellau) sy'n rhan o Grŵp Llandrillo Menai. Mae chweched dosbarth hefyd yn Ysgol y Berwyn, Y Bala.

Ymhellach, mae ysgolion uwchradd Arfon mewn partneriaeth gydag Awdurdod Lleol Gwynedd, ysgolion uwchradd Môn ac Awdurdod Lleol Môn a Grŵp Llandrillo Menai yn ffurfio Consortiwm (Consortiwm Addysg ôl-16 Gwynedd ac Ynys Môn) sy'n gosod cwricwlwm ôl-16 yr ardal drwy drefniant partneriaethol. Mae hyn, ymysg pethau eraill, yn galluogi'r ysgolion i gyfarch *Mesur Dysgu a Sgiliau (Cymru) 2009* sy'n nodi bod yn rhaid i bob sefydliad ôl-16 gynnig 30 dewis o ran cyrsiau i ddysgwyr gyda phump o'r rheiny yn gyrsiau galwedigaethol.

3. AMCAN YR ASTUDIAETH

Mae Adran Addysg Gwynedd yn awyddus i gomisiynu adroddiad sy'n dadansoddi darpariaeth bresennol ôl-16 y sir yn ei chyfanrwydd. Golyga hyn edrych ar y ddarpariaeth bresennol o fewn y sir i gyd, gan ddwyn cymariaethau rhwng rhinweddau y darpariaethau gwahanol sy'n weithredol ar hyn o bryd.

Amcan yr astudiaeth yw edrych yn benodol ar:

- y trefniadau llywodraethu sy'n weithredol ar hyn o bryd
- y dewisiadau sydd ar gael i bobl ifanc yng Ngwynedd
- y cyrsiau sydd ar gael, i gynnwys addysg gyffredinol, alwedigaethol a phrentisiaethau ac unrhyw fylchau yn y ddarpariaeth bresennol
- ansawdd yr hyn sy'n cael ei gynnig yng Ngwynedd ar hyn o bryd
- adnabod rhagoriaethau a gwendidau y ddarpariaeth bresennol
- y ddarpariaeth ar gyfer dysgwyr ADY ôl-16
- cyfrwng iaith y cyrsiau a gweinyddiaeth ganolog y darparwyr
- profiadau pobl ifanc yn y sector ôl-16 yng Ngwynedd
- gwerth am arian a hyfywedd y ddarpariaeth i'r dyfodol

4. BRIFF YR ASTUDIAETH

Yn atodol gwelir briff drafft ar gyfer comisiynu ymgymwrwr i gynnal asesiad o'r ddarpariaeth addysg ôl-16 bresennol yng Ngwynedd. Mae'r briff drafft yn manylu ar y tasgau penodol y gofynnir i'r ymgymwrwr ymgymryd â hwy, ynghyd amserlen ac allbynnau'r gwaith.

Gwahoddir unrhyw sylwadau neu gwestiynau gan aelodau'r Pwyllgor Craffu Addysg ac Economi ar y briff drafft sydd gerbron.

CAIS AM DDYFYNBRIS

ASESIAD O'R DDARPARIAETH ADDYSG ÔL-16 BRESENNOL YNG NGWYNEDD

01. Cyflwyniad a chrynodeb

- 01.1 Mae Adran Addysg Gwynedd yn dymuno penodi unigolyn neu sefydliad cymwys i ymgymryd ag asesiad cynhwysol traws sirol o'r ddarpariaeth addysg ôl-16 yng Ngwynedd. Mae'n bosibl y bydd canfyddiadau yr asesiad yn sail i drafodaeth bellach ar lwybr y ddarpariaeth ôl-16 yn y sir i'r dyfodol.

02. Y Cefndir

- 02.1 Yn hanesyddol yng Ngwynedd roedd gan bob un o'i 14 ysgol uwchradd chweched dosbarth a oedd yn darparu cyrsiau Lefel A i bobl ifanc Gwynedd. Roedd y pynciau craidd yn cael eu cynnig ym mhob ysgol ac roedd y cynnig ehangach yn ddibynnol ar arbenigeddau ac amserlen pob sefydliad unigol. Prin iawn oedd y teithio rhwng ysgolion.
- 02.2 Yn y 1990^{au}, bu newid mawr i'r ffordd yr oedd addysg ôl-16 yn cael ei darparu yn Nwyfor a Meirionnydd yn benodol. Diddymwyd dosbarthiadau 6ed yr ysgolion uwchradd yn yr ardaloedd hyn (ar wahân i Ysgol y Berwyn) a sefydlwyd coleg trydyddol lle'r oedd y disgyblion yn trosglwyddo iddo ar ddiwedd eu haddysg statudol yn 16 oed. Ni fu unrhyw newid i'r ddarpariaeth ôl-16 yn Arfon yn yr un cyfnod.
- 02.3 Mae'r ddarpariaeth ôl-16 sy'n weithredol yng Ngwynedd **ar hyn o bryd** yn cael ei darparu mewn chwe ysgol uwchradd yn Arfon sef Ysgol Brynrefail, Ysgol Dyffryn Nantlle, Ysgol Dyffryn Ogwen, Ysgol Friars, Ysgol Syr Hugh Owen ac Ysgol Tryfan, ac mewn dau goleg addysg bellach sef Coleg Menai (Bangor) a Choleg Meirion Dwyfor (Pwllheli a Dolgellau) sy'n rhan o Grŵp Llandrillo Menai. Mae chweched dosbarth hefyd yn Ysgol y Berwyn, Y Bala.
- 02.4 Ymhellach, mae ysgolion uwchradd Arfon mewn partneriaeth gydag ALI Gwynedd, ysgolion uwchradd Môn ac ALI Môn a Grŵp Llandrillo Menai yn ffurfio Consortiwm (Consortiwm Addysg ôl-16 Gwynedd ac Ynys Môn) sy'n gosod cwricwlwm ôl-16 yr ardal drwy drefniant partneriaethol. Mae hyn, ymysg pethau eraill, yn galluogi'r ysgolion i gyfarch *Mesur Dysgu a Sgiliau (Cymru) 2009* sy'n nodi bod yn rhaid i bob sefydliad ôl-16 gynnig 30 dewis o ran cyrsiau i ddysgwyr gyda phump o'r rheiny yn gyrsiau galwedigaethol.

03. Nod yr asesiad

- 03.1 Mae Adran Addysg Gwynedd yn awyddus i gomisiynu adroddiad sy'n dadansoddi darpariaeth bresennol ôl-16 y sir yn ei chyfanrwydd. Golyga hyn edrych ar y ddarpariaeth bresennol o fewn y sir i gyd gan ddwyn cymariaethau rhwng rhinweddau y darpariaethau gwahanol sy'n weithredol ar hyn o bryd.

03.2 Amcan yr astudiaeth yw edrych yn benodol ar:

- y trefniadau llywodraethu sy'n weithredol ar hyn o bryd
- y dewisiadau sydd ar gael i bobl ifanc yng Ngwynedd
- y cyrsiau sydd ar gael, i gynnwys addysg gyffredinol, alwedigaethol a phrentisiaethau ac unrhyw fylchau yn y ddarpariaeth bresennol
- ansawdd yr hyn sy'n cael ei gynnig yng Ngwynedd ar hyn o bryd
- adnabod rhagoriaethau a gwendidau y ddarpariaeth bresennol
- y ddarpariaeth ar gyfer dysgwyr ADY ôl-16
- cyfrwng iaith y cyrsiau a gweinyddiaeth ganolog y darparwyr
- profiadau pobl ifanc yn y sector ôl-16 yng Ngwynedd
- gwerth am arian a hyfywedd y ddarpariaeth i'r dyfodol

Bydd hefyd angen llunio a gweithredu cynllun cyfathrebu cynhwysfawr i sicrhau ymgysylltu effeithiol gyda phob un o'r rhanddeiliaid allweddol.

04. Tasgau i'w cyflawni

04.1 TASG 1 – *Asesu a gwerthuso'r ddarpariaeth bresennol*

Tasg pen desg i edrych ar y ddarpariaeth ôl-16:

- Adnabod a gwerthuso'r isadeiledd presennol yn yr ardal
- Mapio'r cynnig sydd ar gael i ddysgwyr ôl-16 gan gynnwys dysgwyr ADY
- Dadansoddiad o ganlyniadau y gwahanol ddarparwyr dros gyfnod treigl o dair blynedd
- Ymchwilio i ymhle mae rhagoriaethau a gwendidau ar draws yr holl ddarpariaeth ar hyn o bryd
- Adnabod y cyrsiau poblogaidd a'r rhai lleiaf poblogaidd
- Adnabod unrhyw fylchau yn y ddarpariaeth ar hyn o bryd
- Mapio cyfrwng iaith y cyrsiau a dilyniant rhwng CA4 ac ôl-16
- Adnabod y ddarpariaeth orau o safbwynt gwerth am arian a hyfywedd i'r dyfodol

04.2 TASG 2 - *Ymchwilio i farn a dymuniadau rhanddeiliaid allweddol y sector ôl-16:*

Trwy ymgynghori gyda rhanddeiliaid allweddol:

- Cynnal grwpiau ffocws gyda dysgwyr ôl-16 cyfredol a blaenorol y gwahanol ddarparwyr a chael eu barn am y cynnig sydd ar gael iddynt gan roi sylw penodol i'w profiad fel defnyddwyr y gwasanaeth
- Adnabod unrhyw rwystrau a chyfyngiadau yn y ddarpariaeth bresennol

- Canfod barn a phrofiad penaethiaid, cyrff llywodraethol a swyddogion addysg mewn perthynas â'r sector ôl-16

04.3 TASG 3 – *Argymhellion a Sylwadau*

Ar sail y dystiolaeth a gasglwyd gofynnir i'r ymgwymerwr lunio argymhellion a/neu sylwadau ar feysydd sydd angen sylw yn sgil y dystiolaeth a gasglwyd.

04.4 TASG 4 - *Ymchwilio i farn a dymuniadau rhanddeiliaid allweddol y sector ôl-16*

Coladu a dadansoddi'r holl wybodaeth fel rhan o'r comisiwn i un astudiaeth ddwyieithog gynhwysfawr, yn cynnwys atodiadau a chrynodeb gweithredol.

05 Allbynnau allweddol a dulliau adrodd

05.1 Gofynnir i'r ymgwymerwr a ddewisir fodloni nod y briff, cwblhau'r holl dasgau a nodwyd i foddhad y grŵp cleientiaid a pharatoi'r canlynol:

1. Cynllun prosiect y cytunir arno gyda'r grŵp cleientiaid
2. Crynhoi a chyflwyno'r holl ddata a gesglir drwy law y comisiwn hwn yn ddeniadol ac yn ddealladwy
3. Adroddiad terfynol drafft, i'w drafod gyda'r grŵp cleient
4. Adroddiad terfynol dwyieithog, yn cynnwys crynodeb gweithredol
5. Copi electronig o'r adroddiad terfynol yn MSWord
6. Cyflwyno'r canfyddiadau gerbron rhanddeiliad allweddol a all gynnwys swyddogion, aelodau etholedig a phenaethiaid.

05.2 Disgwylir i'r cynnyrch terfynol gyflwyno darlun a dadansoddiad manwl a chynhwysfawr o holl ystod y ddarpariaeth ôl-16 yn y sir a allai fod yn sail gadarn ar gyfer unrhyw drafodaethau pellach yn y maes hwn yng Ngwynedd.

05.3 Dylai'r cynnyrch terfynol hefyd fod yn seiliedig ar dystiolaeth gadarn, dibynadwy a di-duedd.

05.4 Dylid cynnwys unrhyw argymhellion a/neu sylwadau ar feysydd sydd angen sylw yn sgil y dystiolaeth a gasglwyd.

05.5 Wrth gwblhau'r uchod, dylai'r ymgwymerwr a ddewisir ganiatáu ar gyfer cyfarfodydd ffurfiol digonol gyda'r grŵp cleientiaid.

06 Amserlenni a chyllideb

06.1 Dyma'r amserlen ar gyfer y gwaith.

Dewis contractwr	w/c 12 Mawrth, 2018
Cytuno ar gynllun y prosiect	w/c 19 Mawrth 2018
Adroddiadau drafft	i'w cytuno
Adroddiadau terfynol	w/c i'w cytuno

07 Cyflwyno dyfynbrisiau

07.1 Dylai'r dyfynbrisiau a gyflwynir ddangos gwerthfawrogiad amlwg o'r gwaith arfaethedig fel yr amlinellir yn y briff hwn. Dylai'r unigolion neu'r sefydliadau sy'n darparu dyfynbris gynnwys:

- cyfanswm cost a fydd yn cynnwys yr holl dreuliau, cyfieithu a chostau argraffu ar gyfer cwblhau'r gwaith fel yr amlinellir yn y briff heb gynnwys TAW.
- manylion tîm yr astudiaeth, gan gynnwys eu cefndir a'u cyfraniad penodol at yr astudiaeth o ran mewnbwn amser a chyfraddau
- enghreifftiau o brofiad perthnasol
- amlinelliad o sut maent yn bwriadu delio â'r astudiaeth o ran rhaglen a methodoleg
- cadarnhad y bydd y telerau a'r amodau a nodir isod yn cael eu derbyn neu y glynir wrthynt

07.2 Caiff yr ymgeiswyr gyflwyno eu dyfynbrisiau drwy gyflwyno copïau caled a / neu gopïau electronig:

- *Copïau caled:*

Dylai unigolion neu sefydliadau sy'n dymuno cyflwyno copi caled o'u dyfynbris ddarparu 3 chopi o'u cynnig. Rhaid cyflwyno cynigion mewn amlen blaen, nad yw'n dangos dim byd a fydd yn datgelu pwy yw'r ymgeisydd. Ar yr amlen, dylid nodi yn glir, 'Cyfrinachol - Ymateb i gais am ddyfynbris: ASESAD O'R DDARPARIAETH ADDYSG ÔL-16 BRESENNOL YNG NGWYNEDD' a'u hanfon at:

Garem Jackson
Pennaeth Addysg Gwynedd
Cyngor Gwynedd
Swyddfeydd y Cyngor
CAERNARFON
LL55 1SH

- *Cyflwyno'n electronig:*

Dylai unigolion neu sefydliadau sy'n dymuno cyflwyno eu dyfynbris yn electronig ddarparu eu cynigion ar fformat MS Word 2003, RTF neu PDF. Ym maes pwnc yr e-bost a anfonir dylid rhoi 'Cyfrinachol - Ymateb i gais am ddyfynbris: ASESAD O'R DDARPARIAETH ADDYSG ÔL-16 BRESENNOL YNG NGWYNEDD', a'i hanfon at:

garemjackson@gwynedd.llyw.cymru

07.3 **Rhaid i'r dyfynbrisiau gyrraedd erbyn hanner dydd 26 Chwefror 2018 fan hwyraf.** Mae'r dyddiad cau hwn yn derfynol ac ni ellir ei ymestyn; ni chaiff cyflwyniadau a fydd yn cyrraedd ar ôl yr amser hwn eu hystyried.

07.4 Ni fydd Cyngor Gwynedd yn ad-dalu unrhyw gostau sy'n gysylltiedig â chyflwyno ymateb ar gyfer y cais hwn am ddyfynbris.

08 Dewis a phenodi

08.1 Gofynnir i'r dyfynbrisiau a gyflwynir ddangos yn glir y gweithgareddau a'r costau a gynigir a'r cyfiawnhad drostynt. Asesir ansawdd ar sail cyflwyniadau ysgrifenedig sy'n dangos arbenigedd, dull gweithredu cadarn a gwerth am arian. Mae'r cleientiaid wedi ymrwymo i sicrhau gwerth am arian ac nid ydynt wedi ymrwymo i dderbyn y dyfynbris isaf nac unrhyw ddyfynbris a gyflwynir. Caiff cymhareb ansawdd : cost o 70:30 ei mabwysiadu ar gyfer penodi yn unol ag arweiniad a gyhoeddwyd.

08.2 Bydd dyfynbrisiau yn cael eu sgorio ar sail:

08.2.1 Profiad blaenorol perthnasol (Sgôr 20)

08.2.2 Dealltwriaeth o'r briff ac o faes addysg (20)

08.2.3 Y cynllun a'r dull gweithredu (20)

08.2.4 Manylion tîm yr astudiaeth, gan gynnwys eu cefndir (10)

08.2.5 Gwerth am arian (30)

08.3 Bydd yr ymgymrwyr a fydd yn cyrraedd y rhestr fer yn cael eu gwahodd i roi cyflwyniad byr ynghylch eu dull gweithredu ar gyfer yr astudiaeth. Disgwylir y bydd y cyfarfod cychwynnol gyda'r ymgeisydd llwyddiannus yn cael ei gynnal yn yr wythnos yn cychwyn X Mawrth 2018 eto ar amser ac mewn lleoliad sydd i'w drefnu.

08.4 Cadarnheir yr apwyntiad drwy gyfnewid gohebiaeth.

08.5 Bydd y ffioedd yn cael eu talu fesul cam ar y sail ganlynol:

- 25% o'r ffi y cytunwyd arni ar ôl penodi wrth gadarnhau cynllun prosiect y cytunir arno
- 50% o'r ffi y cytunwyd arni ar ôl cwblhau fersiwn drafft boddhaol o'r astudiaeth.
- Bydd y 25% sy'n weddill yn cael ei dalu ar ôl cwblhau ac anfon fersiwn terfynol yr astudiaeth ar yr amod bod y cleient yn fodlon fod yr holl wasanaethau y gofynnwyd amdanynt wedi eu cyflawni'n foddhaol.

09 Telerau ac amodau

09.1 *Hawlfraint:*

Bydd y grŵp cleient yn cadw'r hawlfraint ar gyfer yr holl ddeunyddiau sy'n ymwneud â'r astudiaeth ac yn cadw'r hawl i atgynhyrchu'r astudiaeth, yn rhannol

neu yn ei chyfanrwydd, ar ôl cyhoeddi. Bydd y grŵp cleient yn cadw'r hawl i lunio casgliadau annibynnol ei hun o'r astudiaeth neu'r deunyddiau a gasglwyd neu a gynhyrchwyd. Bydd y grŵp cleient yn cydnabod yr ymgynghorydd os caiff y deunydd ei gyhoeddi.

Disgwylir i'r ymgynghorwr gyflwyno i'r client unrhyw ddeunydd holiaduron neu arolwg sydd wedi ei ddefnyddio ar gyfer ymateb i'r briff.

09.2 *Indemniad:*

Un o'r amodau penodi yw y bydd yr ymgynghorwyr yn indemnio'r cleient yn erbyn unrhyw hawliadau a fydd yn deillio o'r comisiwn, boed hynny drwy esgeulustod neu fel arall. Dylid cadarnhau bod gan yr unigolyn neu'r sefydliad a benodir yswiriant indemniad proffesiynol hyd at o leiaf £1 miliwn neu dylid darparu tystiolaeth gan yswiriwr cydnabyddedig y byddech yn cael eich derbyn ar gyfer yswiriant o'r fath petai ofyn.

09.3 *Gwrthdaro rhwng buddiannau:*

Er mwyn diogelu materion posibl sy'n ymwneud â sensitifrwydd masnachol, rhaid i ymgeiswyr ddatgelu unrhyw fuddiannau neu gomisiynau perthnasol, a allai effeithio ar gynnal yr astudiaeth arfaethedig.

09.4 *Newidiadau i dîm yr astudiaeth:*

Dim ond y staff allweddol a enwebir yn y dyfynbris a gyflwynir a gaiff weithio ar yr astudiaeth heb gymeradwyaeth ysgrifenedig ymlaen llaw gan y cleient. Gall methu cydymffurfio â'r gofyniad hwn olygu bod y contract yn ddi-rym.

09.5 *Terfynu penodiad:*

Mae'r cleient yn cadw'r hawl i derfynu'r penodiad unrhyw bryd ar ôl talu'r holl ffioedd a'r costau a gafwyd hyd at ddyddiad y terfynu.

09.6 *Cydymffurfio â pholisïau Cyngor Gwynedd:*

Gofynnir i'r unigolyn neu'r sefydliad a benodir weithredu yn unol â pholisïau perthnasol Cyngor Gwynedd wrth gyflawni'r briff hwn, gan gynnwys yn benodol (mae copïau ar gael ar gais):

- Polisi Iaith Cyngor Gwynedd
- Polisi Cydraddoldeb Cyngor Gwynedd
- Polisi Iechyd, Diogelwch a Lles Cyngor Gwynedd

Caiiff yr ymgeiswyr eu hatgoffa hefyd bod Cyngor Gwynedd yn rhwym wrth ddarpariaethau Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 a Deddf Diogelu Data 1998.

10 Rhagor o wybodaeth

10.1 Os oes gennych chi ymholiadau sy'n ymwneud â chynnwys cyffredinol y briff hwn, dylech eu hanfon at :

Garem Jackson
Pennaeth Addysg Gwynedd
Cyngor Gwynedd
Swyddfeydd y Cyngor
CAERNARFON
LL55 1SH
Ffôn: 01286 6792089
E-bost: garemjackson@gwynedd.llyw.cymru

DRAFT

Eitem 8

PWYLLGOR	Pwyllgor Craffu Addysg ac Economi
DYDDIAD	23ain Ionawr 2018
TEITL	Ymchwiliad craffu posib i'r maes "effaith datblygiadau adeiladau newydd ar gyfer ysgolion ar ansawdd addysg"
PWRPAS	Sefydlu'r egwyddor o gynnal ymchwiliad i'r maes ac adnabod aelodau
AWDUR	Cynghorydd Beth Lawton, Cadeirydd
SWYDDOG PERTHNASOL	Vera Jones, Rheolwr Gwasanaethau Democrataidd

1. Mae'r Pwyllgor yn ymwybodol fod gwaith y Gweithgor Craffu ar y Gwasanaeth Ieuenctid wedi dod i ben wrth adrodd i'r Pwyllgor Craffu heddiw.
2. Yn unol â'r trefniadau arferol, mae'r Pwyllgor felly i adnabod maes ar gyfer yr ymchwiliad craffu posib nesaf.
3. Mae nifer o aelodau wedi codi cwestiwn ynghylch a ydym yn glir os oes effaith gadarnhaol ar addysg disgyblion wedi dod yn sgil y datblygiadau dros y blynyddoedd diwethaf yn ysgolion y sir – boed yn ddatblygiadau o adeiladau newydd i ysgolion, ac/neu yn ddatblygu ysgolion newydd. Mae'r cwestiynu ynghylch effaith y ddarpariaeth newydd ar ansawdd yr addysg a phrofiad disgyblion, gan holi a yw'r buddsoddiad ariannol wedi arwain at wella'r ansawdd, ac a oes ymarfer da neu gwersi i'w dysgu wrth i'r rhaglen ddatblygol barhau.
4. Cyn gwneud unrhyw waith pellach a symud ymlaen i ddatblygu briff llawn ar gyfer yr ymchwiliad, gofynnir i'r Pwyllgor fabwysiadu'r egwyddor o gynnal ymchwiliad i'r maes.
5. Gofynnir hefyd i'r Pwyllgor adnabod hyd at 5 aelod i fod yn rhan o'r gwaith.
6. Bydd y briff llawn, amserlen ac adnabod adnoddau i gefnogi'r ymchwiliad yn cael ei ddatblygu dros yr wythnosau i ddod.
7. Argymhelliad - Gofynnir i'r Pwyllgor
 - a. Fabwysiadu'r egwyddor o gynnal ymchwiliad i'r maes "effaith datblygiadau adeiladau newydd ar gyfer ysgolion ar ansawdd addysg"
 - b. Adnabod 5 aelod i fod yn rhan o'r ymchwiliad

**YMCHWILIAD “EFFAITH DATBLYGIADAU ADEILADAU NEWYDD AR
GYFER YSGOLION AR ANSAWDD ADDYSG”**

BRÏFF DRAFFT – 23 Ionawr 2018

(Fersiwn 1)

A	<u>Beth yw'r mater sy'n cael ei ystyried fel eitem craffu?</u> Mae nifer o aelodau wedi codi cwestiwn ynghylch a ydym yn glir os oes effaith gadarnhaol ar addysg disgyblion wedi dod yn sgil y datblygiadau dros y blynyddoedd diwethaf yn ysgolion y sir – boed yn ddatblygiadau o adeiladau newydd i ysgolion, ac/neu yn ddatblygu ysgolion newydd. Mae'r cwestiynu ynghylch effaith y ddarpariaeth newydd ar ansawdd yr addysg a phrofiad disgyblion, gan holi a yw'r buddsoddiad ariannol wedi arwain at wella'r ansawdd, ac a oes ymarfer da neu wersi i'w dysgu wrth i'r rhaglen ddatblygol barhau. Mae cryn fuddsoddiad wedi bod ar ddatblygu adeiladau addysgol yng Ngwynedd yn ddiweddar. Ymysg y datblygiadau mae: • Ysgol yr Hendre, Caernarfon. Agorwyd Ebrill 2012 yn dilyn buddsoddiad o £9,326m. Mae'r ysgol yn cynnig addysg gynradd i hyd at 450 o ddisgyblion. • Ysgol Craig y Deryn – ysgol ardal ar gyfer disgyblion oedran cynradd sy'n gwasanaethu ardal Brynchrug, Llanegryn, Llwyngwrl ac Abergynolwyn. Agorwyd yr ysgol ym mis Medi 2013 yn dilyn buddsoddiad o £5.4 miliwn. (Bu cryn waith uwchraddio yn Ysgol Penbryn, Tywyn hefyd i dderbyn plant ardal Aberdyfi, ac yn Ysgol Dyffryn Dulas (Corris) ac Ysgol Pennal hefyd, ac mae'r ysgolion hyn wedi eu ffedereiddio.) • Buddsoddiad ar welliannau ac adnewyddiadau yn Ysgol O M Edwards, Llanuwchllyn yn 2013. • Ysgol Bro Llifon – ysgol ar gyfer disgyblion oedran cynradd sy'n gwasanaethu ardal Groeslon, Carmel a Fron. Agorwyd yr Ysgol yn Hydref 2015 yn dilyn buddsoddiad o £4.84miliwn. • Ysgol Hafod Lon, Penrhyndeudraeth. Agorwyd Hydref 2016 . Gwerth y buddsoddiad oedd £13miliwn (ariannwyd ar y cyd rhwng Cyngor Gwynedd a Llywodraeth Cymru) ac mae'n cynnig darpariaeth arbenigol ar gyfer plant ag anghenion dysgu ychwanegol i hyd at 100 o blant. Noder fod y ddarpariaeth hefyd yn cynnwys uned breswyl egwyl fer. • Buddsoddwyd £4.3m a sefydlwyd ysgol newydd 3-16, Ysgol Bro Idris, yn Nolgellau ar 6 safle. Agorodd yr ysgol yn Medi 2017. Mae'r rhaglen yn parhau gyda datblygiadau pellach eisoes ar y gweill yn ardaloedd Y Bala a Bangor.
---	--

**YMCHWILIAD “EFFAITH DATBLYGIADAU ADEILADAU NEWYDD AR
GYFER YSGOLION AR ANSAWDD ADDYSG”**

BRÎFF DRAFFT – 23 Ionawr 2018

(Fersiwn 1)

	Gyda’r holl waith datblygol sydd wedi bod yn digwydd hyd yma, mae’n amserol i edrych ar beth yw effaith (os o gwbl) yr adeiladau newydd yng Ngwynedd gan gymryd y cyfle i adnabod unrhyw ymarferion da ac unrhyw wersi/addasiadau ar gyfer y datblygiadau i’r dyfodol. Byddai ymchwiliad i’r maes yn edrych ar effaith datblygiadau / adeiladau newydd ar gyfer ysgolion ar yr elfennau a ganlyn, sef ➤ Ansawdd yr addysg ➤ Canlyniadau addysgol ➤ Profiad y disgyblion yn yr adeiladau newydd ➤ Gwerth am arian
B	<u>Nod yr Ymchwiliad</u> Y prif gwestiwn i’w gyfarch fydd ‘Beth yw effaith datblygiadau adeiladau newydd ar gyfer ysgolion ar ansawdd addysg disgyblion?’ Bwriedir gwneud hyn trwy ofyn y cwestiynau canlynol: - <i>Mae angen datblygu y briff yn llawn. Bydd hynny yn cael ei wneud os yw’r egwyddor ar gyfer yr ymchwiliad yn cael ei gefnogi gan y Pwyllgor Craffu Addysg ac Economi ar 23/01/2018</i> -
C	<u>Cefndir</u> Manylion am y sefyllfa gyfredol yng Ngwynedd – <i>I’w sefydlu fel rhan o’r briff llawn.</i> -
CH	<u>Arfer Da a Gwersi i’w Dysgu</u> - <i>I’w sefydlu fel rhan o’r briff llawn.</i>
D	<u>Casglu Tystiolaeth</u> - <i>I’w sefydlu fel rhan o’r briff llawn.</i>
DD	<u>Dadansoddiad</u> - <i>I’w sefydlu fel rhan o’r briff llawn.</i>
E	<u>Llunio’r Adroddiad</u> - <i>I’w sefydlu fel rhan o’r briff llawn.</i>
F	<u>Cynllun Gweithredu</u>

**YMCHWILIAD “EFFAITH DATBLYGIADAU ADEILADAU NEWYDD AR
GYFER YSGOLION AR ANSAWDD ADDYSG”**

BRÎFF DRAFFT – 23 Ionawr 2018

(Fersiwn 1)

	- <i>Yn ddibynnod ar ganlyniadau yr ymchwiliad</i>		
FF	<u>Tracio Cynnydd</u> - <i>Yn ddibynnod ar ganlyniadau yr ymchwiliad.</i>		
G	<u>AMSERLEN</u> - <i>I'w sefydlu fel rhan o'r briff llawn</i>		
	Beth	Arwain	Dyddiad
1			
2	-		
4			
5			
5			
6			

Blaen-raglen Pwyllgorau Craffu 2017-2018

Diweddariad: Tachwedd 2017

Pwyllgor Craffu Addysg ac Economi	
Ymchwiliadau	Gwasanaethau Cefnogol Addysg
Gweithgorau	Ail-fodelu Gwasanaethau Ieuenctid
26 Medi 2017	- Canolfannau Hamdden – Sefydlu cwmni wedi ei reoli gan y Cyngor - Canlyniadau'r Haf 2017 - Strategaeth Iaith Uwchradd
13 Rhagfyr 2017	- Adroddiad GwE - Adroddiad Gwasanaethau Cefnogol Addysg - Trefniadau Llywodraethu y Cwmni Hamdden
23 Ionawr 2018	- Twf Economaidd Gogledd Cymru - Gwasanaeth Ieuenctid
17 Ebrill 2018	- Adroddiad Blynyddol y Gwasanaeth Addysg - Adroddiad y Cyfnod Sylfaen